Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Ein Cynllun Strategol

## 2025 – 2028

# Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol ......................................................................3**

**1. Cyflwyniad......................................................................................7**

**2. Ein Cynllun....................................................................................18**

2.1 Blaenoriaeth Strategol – Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd.................................................................................... 18

2.2 Blaenoriaeth Strategol – Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol.... 24

2.3 Blaenoriaeth Strategol – Hybu ymddygiad iach ................................... 31

2.4 Blaenoriaeth Strategol – Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar............ 41

2.5 Blaenoriaeth Strategol – Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth ........................................................................................ 52

2.6 Blaenoriaeth Strategol – Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus ....................................................................... 63

3.7 Galluogi cyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus............................... 68

**3 Cyflawni a Llywodraethu ........................................................92**

4.4 Rheoli Risg ...................................................................................... 104

4.6 Parodrwydd am argyfwng, gwydnwch ac ymateb ............................. 107

4.7 Ansawdd a gwella sefydliadol ........................................................... 108

4.8 Perfformiad a Chyflawni ................................................................... 109

4.9 Sylwadau i Gloi ................................................................................ 111

# Crynodeb Gweithredol

Mae Ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-28 yn nodi sut y byddwn yn cyflawni tair blynedd nesaf ein strategaeth, *Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach* (2023-35). Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth i gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol a'n swyddogaethau iechyd cyhoeddus craidd i gefnogi blaenoriaethau a pholisi Llywodraeth Cymru, a adlewyrchir yn ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2025/26. Yn sail i'n holl weithredoedd yn y cynllun hwn mae ein hymrwymiad diwyro i leihau anghydraddoldebau iechyd. Nid yw'r darlun presennol o ddisgwyliad oes iach yng Nghymru yn gadarnhaol. Mae disgwyliad oes iach yn gostwng ac mae'r bwlch rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yn barhaus.

Mae ein cynllun yn nodi sut y byddwn yn ymateb i hyn ac yn cyfrannu at ein canlyniadau sefydliadol cyffredinol, sef *cynyddu disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch o ran disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru*. Rydym wedi nodi, fel rhan o ddatblygu'r cynllun hwn, ein huchelgais i ddisgwyliad oes iach adfer i'r lefel yr oedd yn 2019 ar gyfer dynion a menywod. Mae hyn wedi'i lywio gan y data diweddaraf sy'n dangos bod disgwyliad oes iach wedi gostwng 1.1 mlynedd ar gyfer dynion a 2.2 flynedd ar gyfer menywod ers cyn pandemig COVID-19. (Disgwyliad Oes Iach yng Nghymru a Lloegr: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2021 a 2023, y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Byddwn hefyd yn nodi ein huchelgais ar gyfer lleihau'r bwlch rhwng y rhai a'r amddifadedd lleiaf a'r rhai â'r amddifadedd mwyaf yn ystod 2025-26 wedi'i lywio gan ddata a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Byddwn yn defnyddio ein system fesur i fonitro ein cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn ac i asesu'r effaith rydym yn ei chael.

Mae ein cynllun yn adeiladu ar gynnydd a wnaed gennym ers i ni lansio ein strategaeth yn 2023, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r heriau iechyd cyhoeddus allweddol sy'n wynebu Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau cenedlaethol a rhyngwladol diweddar digynsail yn dilyn pandemig COVID-19, yr argyfwng costau byw parhaus a chanlyniadau parhaus yr argyfwng hinsawdd. Mae'r rhain yn effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant hirdymor, ynghyd ag achosi canlyniadau mwy uniongyrchol, gan gynnwys cynyddu pwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan y materion hyn ganlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach sydd wedi'u teimlo'n anghyfartal ar draws ein cymdeithas ac sy'n effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd eisoes â'r anghenion iechyd a chymdeithasol mwyaf. Yng Nghymru, rydym yn parhau i weld anghydraddoldebau iechyd amlwg a pharhaus. Mae penderfynyddion ehangach iechyd, fel incwm, addysg, tai, cyflogaeth, cyfleoedd cyflogaeth i'r cymunedau hynny sy'n wynebu anfantais, yn chwarae rhan sylweddol yn yr anghydraddoldebau dwfn hyn.


Rydym wedi datblygu mapiau llwybrau strategol sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein huchelgeisiau 2035 ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau. Mae'r mapiau llwybr yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cyflawni dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Rydym wedi'u defnyddio i lunio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn a byddant yn chwarae rhan allweddol wrth ysgogi ein cynlluniau a'n cyflawni yn y dyfodol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth, fel rhan o ymdrech ar draws y system, i gyflawni canlyniadau gwell i bobl Cymru. Byddwn yn ceisio gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a chydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, tai, addysg, y trydydd sector a'r GIG ehangach.

Mae ein rôl gyflawni benodol yn amrywio ar draws ein blaenoriaethau strategol, ond bydd yn canolbwyntio ar un neu ragor o'r dulliau canlynol:

- Darparu gwasanaethau clinigol ac iechyd cyhoeddus ar sail tystiolaeth i'r cyhoedd.
- Hysbysu partneriaid am y bygythiadau presennol a'r bygythiadau sy'n dod i'r amlwg i iechyd yng Nghymru, y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau, a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu.
- Eirioli dros weithredu i wella a diogelu iechyd a lleihau anghydraddoldebau.
- Ysgogi partneriaid ar draws systemau i droi tystiolaeth yn bolisi ac ymarfer ar raddfa eang i wella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae ein cynllun yn cynnwys portffolio uchelgeisiol o newid sydd wedi'i gynllunio i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth a'n mapiau llwybr. Rydym wedi blaenoriaethu'r rhaglenni y byddwn yn eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Maent yn cynnwys newid strategol i'r system iechyd cyhoeddus (e.e. Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd a Sgrinio Canser yr Ysgyfaint), trawsnewid digidol, data a deallusrwydd artiffisial (e.e. System Diogelu Iechyd Digidol) a newid mewnol i sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol (e.e. Trawsnewid y We). Wrth i ni gyflawni ein cynllun, bydd ein portffolio newid yn destun adolygiad parhaus ac ailflaenoriaethu posibl yn sgil unrhyw newidiadau allanol neu fewnol sylweddol. Byddwn yn rheoli'r gwaith o gyflawni ein portffolio yn unol â safonau cydnabyddedig ar gyfer cyflawni a llywodraethu rhaglenni. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb yn ddynamig a blaenoriaethu yn ystod y flwyddyn, os oes angen.

# Our Priorities
# 2023-2035




**We are Public Health Wales. We exist to help all people in Wales live longer, healthier lives.**

Our values are **working together** with **trust and respect** to **make a difference**.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Rhan 1:
# **Cyflwyniad**

# 1. Cyflwyniad

## Trosolwg o'n cynllun


Diben ein Cynllun Strategol yw nodi'r camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf ar gyfer pob un o'n chwe blaenoriaeth strategol. Byddwn yn cyflawni ein pedair swyddogaeth statudol a gwasanaethau clinigol iechyd cyhoeddus craidd fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r cynllun hwn, gan gynnwys cyflawni ein cyfrifoldebau fel ymatebwr categori 1. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol, gwasanaeth heintiau, diogelu iechyd, data, gwybodaeth ac ymchwil. Yn ogystal, byddwn yn parhau i ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU, gan gynnwys gweithredu canfyddiadau perthnasol.

Ni allwn gyflawni ein strategaeth a'n cynllun ar ein pen ein hunain. I lwyddo, bydd angen i ni weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, tai, addysg, y trydydd sector a'r GIG ehangach. Bydd angen i ni weithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y byddwn yn eu hwynebu mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'r rhain yn cael eu teimlo'n anghyfartal ar draws ein cymdeithas ac yn cael effaith anghymesur ar y rhai sydd eisoes â'r anghenion iechyd a chymdeithasol mwyaf.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys ein system fesur a fydd yn ein helpu i fonitro ein heffaith a'n cyfraniad tuag at gyflawni ein canlyniadau cyffredinol a'r uchelgais i adfer disgwyliad oes iach i'r lefel yr oedd yn 2019. Rydym wedi pennu'r uchelgais hwn yn sgil data a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n dangos bod disgwyliad oes iach yn gostwng ac mae'r bwlch rhwng yr ardaloedd a'r amddifadedd mwyaf a'r amddifadedd lleiaf yn barhaus. Y cynllun hwn yw ein hymateb i'r her honno, ac rydym yn ymrwymedig i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i'w gyflawni'n llwyddiannus dros y tair blynedd nesaf.

## Ein dull o ymdrin ag anghydraddoldebau

Mae'r camau gweithredu allweddol a nodir yn y cynllun hwn wedi'u datblygu gan ystyried ein rôl wrth leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Mae anghydraddoldebau iechyd yn wahaniaethau mewn iechyd rhwng grwpiau o bobl a chymunedau. Rydym yn poeni am y gwahaniaethau o ran iechyd rhwng grwpiau o bobl a chymunedau oherwydd nad ydynt yn deg a gellir eu hosgoi. Yn aml, mae unigolion yn perthyn i fwy nag un o'r grwpiau hyn. Gelwir hyn yn groestoriadedd a all wneud anghydraddoldebau iechyd yn waeth. Mae ein hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd wedi bod yn sail i ddatblygu'r cynllun hwn, sy'n cynnwys camau gweithredu penodol sy'n canolbwyntio ar ein rôl wrth fynd i'r afael â nhw. Mae camau gweithredu penodol wedi'u nodi yn ein blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd. Gall pobl sydd wedi'u grwpio yn ôl amrywiaeth o wahanol ffactorau brofi anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys:




## Cyd-destun polisi

Mae ***'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)'*** yn parhau i ddarparu'r fframwaith cyffredinol yr ydym yn ei ddefnyddio i lunio ein cynllun strategol. Mae ein chwe blaenoriaeth strategol, sydd hefyd yn gweithredu fel ein Nodau Llesiant, wedi ystyried goblygiadau tymor hwy ein penderfyniadau. Mae pob blaenoriaeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol ac mae ein ffocws a'n hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd ac annhegwch iechyd yn sail i bob blaenoriaeth. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi rhoi cyfle i asesu effaith ein penderfyniadau ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, gan sicrhau nad yw'r penderfyniadau a wnawn yn gwaethygu anghydraddoldebau yng Nghymru yn anfwriadol. Bydd y pum ffordd o weithio yn ysgogi'r gwaith o weithredu'r cynllun hwn, gan gynnwys cydweithio â'n partneriaid a phobl Cymru.

Rydym hefyd wedi ystyried yn briodol yr ysgogwyr deddfwriaethol canlynol, gyda chamau gweithredu penodol wedi'u hadlewyrchu mewn rhannau perthnasol o'r cynllun:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020
- Y Ddyletswydd Ansawdd
- Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae datblygiad ein Cynllun Strategol wedi'i lywio gan y blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer GIG Cymru gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'n Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2025/26. Mae ein rôl wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r

blaenoriaethau hyn wedi'i hymgorffori ym mhob un o'n blaenoriaethau strategol, ynghyd â'n gweithgareddau busnes fel arfer craidd. Mae crynodeb lefel uchel o gyflawni ein Llythyr Cylch Gwaith wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae hyn yn dangos y camau gweithredu allweddol a nodir yn ein Llythyr Cylch Gwaith a sut rydym yn datblygu pob un ohonynt. Mae ein cynllun hefyd wedi ystyried camau gweithredu wedi'u hadnewyddu *'Cymru Iachach'* a sut y byddwn, fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, yn cyfrannu at ei weithredu'n llwyddiannus. Byddwn hefyd yn cyflawni yn erbyn camau gweithredu galluogi perthnasol Ysgrifennydd y Cabinet, yn enwedig mewn perthynas â digidol, gweithlu a chyllid. Mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu mewn adrannau perthnasol o'n cynllun.

Mae gennym rôl arweinyddiaeth allweddol o ran asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth a strategaethau atal, gyda ffocws penodol ar iechyd menywod a'r cyfle i leihau'r risg o glefydau, gwella ansawdd bywyd, a mynd i'r afael ag effeithiau croestoriadol ar ddisgwyliad oes iach. Bydd rhaglenni presennol, gan gynnwys y rhaglenni sgrinio hynny sy'n canolbwyntio'n benodol ar iechyd menywod (e.e. Bron Brawf Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru), yn cefnogi dull ataliol mwy systematig ar draws y cwrs bywyd i fenywod, gan wella ymgysylltu a thegwch mynediad. Byddwn hefyd yn datblygu ac yn hyrwyddo naratif ar gamau gweithredu sy'n seiliedig ar atebion ar degwch rhywedd, croestoriadedd ac iechyd, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r *Cynllun Iechyd Menywod.*

Fel sefydliad sy'n ystyriol o drawma, bydd ein lens yn ystyried sut y mae trallod, trawma a gofid yn effeithio ar iechyd menywod, gan eirioli dros ddulliau sy'n lleihau amlygiad i drawma a'i effaith; deall ymyriadau y mae angen iddynt fod ar waith i leihau effaith; a hyrwyddo gwydnwch a llesiant seicolegol, meddyliol a chorfforol.

Mae ein cynllun yn nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol gennym i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Iechyd Menywod. Yn benodol, byddwn yn gweithio ar y cyd â phartneriaid a'r Rhwydwaith Iechyd Menywod gan ganolbwyntio ar y camau gweithredu tymor byr a nodwyd yn y cynllun, gan gynnwys:

- deunyddiau addysgol i gefnogi gwybodaeth a dysgu i bawb, gan gynnwys bechgyn a dynion o ran Iechyd Mislif.
- argaeledd ar-lein gwybodaeth ddibynadwy am atal cenhedlu
- trafod beth yw ystyr iechyd cyn cenhedlu i bobl, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a sut y gallwn ddylanwadu ar hynny a'i wella.
- gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ategu gwefan iechyd menywod GIG Cymru.
- arweinyddiaeth arbenigol i gefnogi'r blaenoriaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y cynllun

Mae hyn yn dangos ein rôl a'n hymrwymiad i gau'r bwlch iechyd rhywedd. Byddwn yn cyflawni camau gweithredu allweddol mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda'r Rhwydwaith Iechyd Menywod ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

## Gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu

Bydd gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â phobl a chymunedau, ynghyd â phartneriaid eraill, wrth ddarparu a chynllunio ein gwasanaethau a gomisiynir yn sicrhau bod gennym wasanaethau hygyrch sy'n canolbwyntio ar y person. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r cyhoedd ac amrywiaeth o bartneriaid allweddol, gan gynnwys y trydydd sector, awdurdodau lleol a meysydd allweddol, fel addysg a thai. Mae sut rydym yn datblygu ein cynlluniau a'n dulliau yn hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithio os ydym yn mynd i ddiwallu anghenion pobl a chymunedau Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae cydgynhyrchu yn hanfodol i sut rydym yn gweithio, a byddwn yn defnyddio mewnwelediadau a gasglwyd gan bobl, cymunedau a'n partneriaid i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Rydym yn deall bod angen i ni gael y prosesau, y systemau a'r patrymau gwaith yn eu lle i sicrhau ein bod yn ceisio adborth, yn gwrando arno, yn gweithredu arno ac yn ei rannu mewn ffordd gyson er mwyn gwella. Mae profiad bywyd pobl yn ddull pwerus o wella gwasanaethau presennol a nodi ffyrdd newydd a gwell o ddiwallu eu hanghenion yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd. Mae rhagoriaeth mewn ymgysylltu yn cefnogi dimensiwn ac egwyddorion ehangach y Ddyletswydd Ansawdd. Mae'r dull hwn wedi'i ymgorffori drwy gydol ein blaenoriaethau, yn enwedig sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol.

Ar ôl diwedd y cynllun gweithredu tair blynedd *'Ein Dull o Ymgysylltu'*, mae adolygiad yn mynd rhagddo gyda'r canfyddiadau a'r argymhellion i'w hystyried yn hanner cyntaf 2025. Rydym yn ymrwymedig i ysgogi dull cyson ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd deg, effeithiol a chyson gan sicrhau bod llais y bobl rydym yn gweithio gyda nhw a drostynt wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud. Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod ein dull yn addasu ac yn ailganolbwyntio lle mae angen iddo newid, wrth barhau i adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda. Bydd yr adolygiad hefyd yn darparu'r llwyfan i dyfu a chryfhau ein cynghrair a'n perthnasoedd â'r trydydd sector a phartneriaid cymunedol allweddol eraill.

Byddwn yn defnyddio Fframwaith Profiad y Bobl Cymru Gyfan i gynyddu a gwella ein dealltwriaeth o brofiad defnyddwyr gwasanaethau gan gael mewnwelediad o sawl ffynhonnell i lywio gweithgareddau gwella ynghyd â chynllunio ansawdd blynyddol. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gynllunio a chefnogi rhaglenni gwella, gan wella cyfleoedd i gael mewnwelediad cyfoethog drwy'r defnydd o straeon a phrofiadau bywyd pobl i gyflawni newid sefydliadol effeithiol.

Rydym yn deall manteision pwerus ac eang ymgysylltu cadarnhaol o'n gwaith blaenorol gyda phlant a phobl ifanc Cymru. Rydym yn ymrwymedig i adeiladu ar y sylfaen gadarn hon i gyd-gynllunio gyda grŵp amrywiol o bobl ifanc o bob rhan o Gymru a'n sefydliadau partner, Model Ymgysylltu â Phobl Ifanc sy'n gwerthfawrogi cyfranogiad plant a phobl ifanc ac un sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni gwell canlyniadau iechyd cyhoeddus yn ein cymunedau.

## Mesur Ein Llwyddiant

Mae ein system fesur yn cysylltu ein huchelgeisiau strategol ar gyfer Cymru â'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein strategaeth erbyn 2035. Bydd y system hon yn ein galluogi i:


- Ddeall a monitro ein heffaith
- Ysgogi blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau
- Canolbwyntio ein hadnoddau
- Nodi bylchau, gan gynnwys lle mae angen i ni weithio gyda phartneriaid.

Mae pum elfen yn rhan o'r system fesur, i sicrhau ein bod yn cofnodi ein heffaith ar bob lefel. Ar y lefel uchaf, y cytunwyd arni pan lansiwyd ein strategaeth yn 2023, mae ein canlyniadau sefydliadol. Y rhain yw cynyddu disgwyliad oes iach a chau'r bwlch disgwyliad oes iach rhwng y rhai â'r amddifadedd lleiaf a'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Fel rhan o ddatblygu'r cynllun hwn, rydym wedi pennu ein huchelgais ar i ddisgwyliad oes iach adfer i'r lefel yr oedd yn 2019 ar gyfer dynion a menywod. Byddwn yn nodi ein huchelgais ar gyfer lleihau'r bwlch rhwng y rhai â'r amddifadedd lleiaf a'r amddifadedd mwyaf yn ystod 2025-26, wedi'i lywio gan ddata a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Yn ategu hyn bydd cyfres o ddangosyddion canlyniadau sy'n gysylltiedig â phob canlyniad blaenoriaeth strategol. Bydd y dangosyddion canlyniadau hyn yn ffurfio brig ein system fesur a byddant yn cael eu cyhoeddi yn y Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd wedi'i adnewyddu. Bydd y rhain yn cael eu hategu gan Ddangosfwrdd Trosolwg Cyflym wedi'i ddiweddaru, sy'n darparu arwydd mwy amserol o gynnydd yn erbyn ein canlyniadau. Mae'n bwysig deall nad yw pob ffactor sy'n cael effaith ar ein canlyniadau strategol o fewn cylch gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w newid. Er enghraifft, prin yw'r dylanwad sydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru dros amodau economaidd byd-eang, ac rydym yn gwybod y gall y rhain gael effaith ar amodau lleol ac felly ar ddisgwyliad oes iach.

Felly, bydd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn ein galluogi i fonitro effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac effaith ein darpariaeth gwasanaeth a swyddogaethau penodol. Bydd gwerthuso'n sicrhau bod ein gwasanaethau a'n swyddogaethau yn cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen arnom. Byddwn yn defnyddio modelu polisi a gweithredu i'n galluogi i amcangyfrif effaith polisïau a gwasanaethau, a fydd yn ein galluogi i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth am flaenoriaethu a gweithredu.

### Ffigur 1: Model system fesur


evaluation
outcome
strategic priority outcomes
performance indicators
policy modelling
Healthy life expectancy
Gap in healthy life expectancy
Public Health Outcomes Framework
Rapid Overview Dashboard
Delivery measures
Modelled impact assessments

# Rhan 2: Iechyd yng Nghymru

# 2. Iechyd yng Nghymru

Rydym yn wynebu heriau sylweddol yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd amlwg a pharhaus. Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da. Fodd bynnag, yn rhy aml mae pobl yng Nghymru yn mynd yn sâl neu'n marw yn rhy gynnar oherwydd bod y blociau adeiladu sydd eu hangen ar gyfer iechyd da yn wan neu'n absennol yn ein cymunedau. Mae tua 21% o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol, gan gynnwys 29% o blant[1]. Ym mis Ionawr 2025, roedd 22% o'r boblogaeth yn nodi nad oeddent yn gallu fforddio treuliau annisgwyl o £850 ac roedd 33% yn nodi anhawster o ran fforddio taliadau biliau ynni. Mae'n hysbys bod byw mewn tlodi yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd - fel pobl yn methu prynu bwyd iach i'w hunain a'u teuluoedd - ac effaith anuniongyrchol – lle mae straen bywyd heb sylfaeni diogel yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd bob dydd, gan wanhau ein gwydnwch a thorri blynyddoedd o'n disgwyliad am fyw'n iach.

Er bod Cymru, ynghyd â'r Alban, wedi gwneud y cynnydd mwyaf o blith holl wledydd y DU tuag at ddileu cyflog isel dros y blynyddoedd diwethaf, roedd 15.8% o weithwyr yng Nghymru yn dal i ennill llai na'r Cyflog Byw yn 2024[2]. Tyfodd y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn 2024 i 5.7%, o gymharu â 4.5% yn y DU gyfan. Mae anweithgarwch economaidd hefyd yn uwch yng Nghymru na'r DU gyfan, gyda 26% o'r boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru yn economaidd anweithgar ym mis Rhagfyr 2024[3]. Mae fforddiadwyedd tai yn her sylweddol i lawer yng Nghymru. Mae prisiau tai wedi cynyddu'n gyflymach o lawer na'r enillion cyfartalog dros y ddau ddegawd diwethaf, ac ym mis Ionawr 2025, roedd rhenti cyfartalog yng Nghymru dros 8% yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol[4]. Mae gorboblogi hefyd yn cyflwyno risgiau iechyd, gan effeithio'n benodol ar y rhai sy'n byw mewn llety rhent, ac mae 70% o deuluoedd mewn amodau gorboblog yn profi problemau iechyd, gan gynnwys damweiniau a chyflyrau anadlol[5].


Gan ddefnyddio data hanesyddol, rydym wedi gwneud rhagamcanion ar gyfer clefydau nad ydynt yn drosglwyddadwy ac achosion o ganser hyd at 2033/34. Mae ein rhagamcanion yn dangos, os na fydd unrhyw beth yn newid, byddant yn parhau i gynyddu dros y 10 mlynedd nesaf (crynodeb o dueddiadau mewn ffactorau risg ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025). Er y gellir priodoli rhywfaint o hyn i boblogaeth Cymru sy'n heneiddio, mae sawl ffactor risg, y mae rhai ohonynt yn addasadwy, hefyd yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o ddatblygu'r clefydau hyn.

Mae'r data yn dangos bod mynychder rhai o'r cyflyrau mwyaf arwyddocaol hyn wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Mae cynnydd nodedig mewn mynychder yn digwydd mewn grwpiau canol oed a hŷn, er bod hyn yn effeithio ar grwpiau oedran iau hefyd. Mae'r graffiau isod yn dangos y newid yn nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n


[1] StatsCymru, Adran Gwaith a Phensiynau Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2024.
[2] Living Wage Foundation, Employee Jobs Paid Below the Real Living Wage 2024 - Living Wage Foundation Research 2025.pdf, 2025
[3] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025
[4] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Private rent and house prices, UK - y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025
[5] Ffederasiwn Tai Cenedlaethol, National Housing Federation - Overcrowding in England, 2023

byw gyda chyflwr cronig, y cynnydd canrannol ers y pwynt data cynharaf a thueddiadau amcanestynedig dros 10 mlynedd. Mae'r holl gyflyrau cronig a gyflwynir yma ar gynnydd.

Ffigur 2: Y newid amcanestynedig yn nifer y bobl ar gofrestrau clefydau cronig rhwng 2023/24 a 2033/34[6]




Ffigur 3: Cyfrif a newid yn nifer yr achosion o ganser a gafodd ddiagnosis rhwng y pwynt data cynharaf a 2021, a'r newid amcanestynedig rhwng 2021 a 2033




Mae mynd i'r afael â ffactorau risg addasadwy a gweithredu ymyriadau iechyd i liniaru'r cynnydd amcanestynedig mewn mynychder clefydau yn allweddol i fynd i'r afael a'r cynnydd hwn a'i arafu. Mae ffactorau risg addasadwy ar gyfer y clefydau yn cynnwys ymddygiad fel smygu, anweithgarwch corfforol, deietau afiach ac yfed gormod o alcohol. Yn ogystal, mae ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach fel incwm, addysg, cyflogaeth, a thai hefyd yn chwarae rhan yn y tebygolrwydd o ddatblygu'r clefydau hyn.

[6] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Crynodeb o gyffredinrwydd clefydau anhrosglwyddadwy a nifer yr achosion o ganser yng Nghymru - tueddiadau ac amcanestyniadau 10 mlynedd - Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024.

Gweithredodd y dadansoddiad ac amcanestyniadau iechyd yng Nghymru fel ysgogwr allweddol ar gyfer datblygu ein strategaeth a'n chwe blaenoriaeth strategol. Mae wedi llunio'r camau gweithredu y byddwn yn eu cyflawni drwy'r cynllun hwn o dan bob un o'n blaenoriaethau, sy'n disgrifio ein rôl wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn a chefnogi partneriaid allweddol.

# Rhan 3:
# Ein Cynllun

Llewyrchus

Cydnerth

Iachach

Mwy Cyfartal

Cymunedau Cydlynus

Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Cyfrifol yn Fyd-eang

# 3. Ein Cynllun

## 3.1 Blaenoriaeth Strategol – Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

### 3.1.1 Cyflwyniad

Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da. Fodd bynnag, yn rhy aml mae pobl yng Nghymru yn mynd yn sâl neu'n marw yn rhy gynnar oherwydd diffyg blociau adeiladu hanfodol sydd eu hangen ar gyfer iechyd da. Mae'r blociau adeiladu hyn yn cynnwys ein haddysg a'n sgiliau, cartref diogel a chynnes, gwaith teg, arian ac adnoddau, mynediad at drafnidiaeth fforddiadwy a chynaliadwy ac amgylcheddau ffisegol iach. Mae'r amodau hyn yn effeithio arnom o'n profiadau cynharaf a thrwy gydol ein hoes.

Mae'r penderfynyddion ehangach yn ysgogi iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Mae profiadau gwahanol o'r penderfynyddion hyn yn arwain at wahaniaethau o ran canlyniadau iechyd, neu anghydraddoldebau iechyd, sydd yn eu tro'n gyfrifol am gyfran sylweddol o gyfanswm y marwolaethau cynnar ac afiechyd poblogaeth Cymru. Mae'r gwahaniaethau systematig ac annheg hyn yn parhau ar draws cenedlaethau. Mae ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*** yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i ni weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ar draws y trydydd sector a'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru.

Ceir rhagor o fanylion am gwmpas y flaenoriaeth hon yn ein Strategaeth Hirdymor.

### 3.1.2 Mesur ein cynnydd

Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, rydym yn gweithio tuag at gefnogi'r canlyniadau ar draws y system a nodir isod. Ar gyfer pob un, rydym wedi darparu cymaryddion, lle y bo'n bosibl, gyda'r dyddiad cynharaf posibl a'r llinell sylfaen bresennol, sydd wedi ein galluogi i nodi tueddiadau dros amser:

- **Llai o fwlch mewn disgwyliad oes iach yn ôl parthau amddifadedd**

  Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yn mesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru drwy gyfuno mesurau amddifadedd ar draws sawl parth. Byddwn yn gweithio tuag at leihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf ar draws y parthau incwm, addysg, tai, cyflogaeth, a mynediad at wasanaethau.

Byddwn yn datblygu ffyrdd o fesur disgwyliad oes iach yn ôl parthau amddifadedd fel y gallwn fesur ein cynnydd tuag at y nod hwn. Rydym yn disgwyl dechrau mesur y canlyniad hwn yn ddiweddarach yn 2025.

### 3.1.3 Cynnydd cyflawni

Rydym wedi canolbwyntio ar effaith tlodi, yn enwedig tlodi plant, yn dilyn yr heriau costau byw a chyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn 2024. Gwnaethom archwilio effaith cartrefi oer ar iechyd a llesiant gydag adroddiad ac argymhellion ar y gyfundrefn wresogi foddhaol yng Nghymru a darparwyd tystiolaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar dlodi tanwydd yng Nghymru. Rydym bellach yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried y weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran tai yng nghyd-destun tlodi plant.

Gyda'n partneriaid Grŵp Cydlynu Adeiladu Cymru Iachach, rydym yn arwain asesiad o anghenion i gefnogi'r gwaith o alluogi a grymuso cydweithredu ar dlodi plant. Rydym yn ymgorffori blociau adeiladu iechyd yn ein gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Gweithredu Blynyddoedd Cynnar (gweler blaenoriaeth 2).

Gan adeiladu ar 20 mlynedd o Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, rydym wedi parhau i ddatblygu dulliau asesu'r effaith ar iechyd, gan gynnwys darparu cyngor arbenigol ac ymarferol a chymorth i ddatblygu'r Rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd a pharatoi ar gyfer eu gweithredu. Rydym hefyd wedi datblygu ein Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru ymhellach i gefnogi ymgysylltu â'r dystiolaeth, y data, a'r offer ymarferol ar gyfer gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd. Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith hyd yma, gan fframio blociau adeiladu iechyd, disgrifio dull economi llesiant, cynnwys llunwyr polisi gyda thystiolaeth a chefnogi asesu'r effaith ar iechyd, gan gyfrannu at reoliadau a chanllawiau.

Rydym wedi cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu gwaith i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys drwy lansio'r rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru, a ariennir gan y Sefydliad Iechyd. Gan weithio ar draws themâu tlodi ac anghydraddoldebau, yr argyfwng hinsawdd a natur, a llesiant cymdogaethau, mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar ddefnyddio dull systemau sy'n cael ei lywio gan ddamcaniaeth a thystiolaeth o ran gweithredu cynlluniau llesiant, gan rannu'r gwersi a ddysgir ledled Cymru ar DU. Gwnaethom hefyd adeiladu ar y perthnasoedd cryf gyda llywodraeth leol, yn lleol mewn partneriaeth â thimau iechyd cyhoeddus lleol, yn rhanbarthol gan greu cysylltiadau newydd â Chyd-bwyllgorau Corfforedig, ac yn genedlaethol gan barhau ein gwaith gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar flaenoriaethau ar y cyd lle rydym yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn eu gwaith i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.

Rydym wedi datblygu ymhellach ein cynnig digidol ar gyfer cyflogwyr drwy gynllun Cymru Iach ar Waith, gan helpu cyflogwyr i ddarparu'r cymorth cywir i staff sydd â chyflyrau iechyd i aros mewn gwaith, gan bennu cwmpas ein dull o gefnogi cyflogwyr i leihau anghydraddoldebau mewn cyflogaeth ar gyfer y rhai sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynnig ar gyfer cyflogwyr, a hefyd yn datblygu ein dulliau o gefnogi cyfranogiad mewn gwaith teg,

ymateb i achosion o fod heb waith ac anweithgarwch economaidd o bryder iechyd cyhoeddus. Fel rhan o'n gwaith ar benderfynyddion masnachol iechyd (gweler blaenoriaeth 3), byddwn yn asesu meysydd o bryder lle mae dylanwad masnachol yn effeithio ar benderfynyddion fel cynllunio.

### 3.1.6 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

**SO1.1. Erbyn 2028,** byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid i gefnogi camau gweithredu ar dlodi plant; gwaith iach, diogel a theg; a'r bwlch cyrhaeddiad addysg

**SO1.2. Erbyn 2028,** byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid i gryfhau gallu a pharatoi camau gweithredu ar gyfer lleoedd iachach drwy gynllunio, trafnidiaeth a thai ar gyfer y rhai sy'n profi tlodi.

**SO1.3. Erbyn 2028,** byddwn wedi cefnogi llunwyr polisi i gryfhau iechyd ym mhob polisi drwy Asesu'r Effaith ar Iechyd, tystiolaeth a dulliau eiriolaeth a dull economi llesiant

**SO1.4 Erbyn 2028,** byddwn wedi datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu, gwyliadwriaeth data a gallu'r gweithlu i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO1.1. -** Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid i gefnogi camau gweithredu ar dlodi plant; gwaith iach, diogel a theg; a'r bwlch cyrhaeddiad addysg | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cynnal asesiad o anghenion cydweithredu i gefnogi camau gweithredu ar dlodi plant gan bartneriaethau lleol a ranbarthol gyda Grŵp Cydlynu Adeiladu Cymru Iachach. |
| | • Wedi cyhoeddi naratif ar ein cyfraniad at leihau'r bwlch cyflawniad addysgol. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi sefydlu ffrwd waith draws-sefydliadol a fydd yn nodi camau gweithredu iechyd cyhoeddus y gellir eu cymryd ar fod heb waith. |
| | • Wedi sefydlu rhaglen mentora cymheiriaid Cymru Iach ar Waith (CIW) |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cynghori ar y camau gweithredu y gall partneriaid eu cymryd i leihau achosion o fod heb waith o bryder iechyd cyhoeddus a'i effeithiau ac eirioli dros hyn. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cytuno ar gynllun ar gyfer galluogi a grymuso c camau gweithredu ar y cyd rhanbarthol ar dlodi plant wedi'i lywio gan ddysgu ac argymhellion o asesiad o anghenion. |
| | 2027-20282027-2028 |
| | • Wedi cyhoeddi dysgu ac argymhellion ar sut y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio dulliau meddwl systemau i gymhwyso'r pum ffordd o weithio o'r rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru, gan gynnwys y thema gwaith teg.<br>• Wedi lansio model hyfforddi'r hyfforddwr i rymuso hyrwyddwyr mewnol yn y gweithle |
| **SO1.2** Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid i gryfhau gallu a pharatoi camau gweithredu ar gyfer lleoedd iachach drwy gynllunio, trafnidiaeth a thai ar gyfer y rhai sy'n profi tlodi. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi nodi pwyntiau cyswllt unigol mewn byrddau iechyd i weithredu fel cyfrwng rhwng timau iechyd cyhoeddus lleol a chenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ddarparu ymatebion cynhwysfawr i geisiadau cynllunio a chaniatáu. |
| | 2026-27 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu ymhellach ddealltwriaeth o anghenion systemau i ysgogi newid polisi ar gartrefi iach ar gyfer plant mewn tlodi i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer drwy gyfathrebu strategol, eiriolaeth, ac atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi archwilio sut y gallem ddylanwadu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CJC) mewn perthynas ag iechyd cyhoeddus/economi llesiant ac ystyried opsiynau ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn, gan gynnwys drwy weithio mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi cryfhau cydweithio traws-ddisgyblaethol i ymgorffori cynllunio seiliedig ar leoedd ar gyfer iechyd a llesiant, llunio polisïau ac arferion sy'n creu lleoedd iachach, mwy teg ledled Cymru. |
| | • Wedi cyhoeddi dysgu ac argymhellion ar sut y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio dulliau meddwl systemau i gymhwyso'r pum ffordd o weithio o'r rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru, gan gynnwys y thema trafnidiaeth iach gynhwysol. |
| SO1.3 - Erbyn 2028, byddwn wedi cefnogi llunwyr polisi i gryfhau iechyd ym mhob polisi drwy Asesu'r Effaith ar Iechyd, tystiolaeth a dulliau eiriolaeth a dull economi llesiant. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi ymgorffori ein naratif ar y cyd ar anghydraddoldebau iechyd yn y sefydliad a'i rannu'n allanol i gynyddu ein cydlyniaeth a'n heffaith ar anghydraddoldebau iechyd i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Hirdymor. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi cyhoeddus iach ac eirioli dros gamau gweithredu polisi sy'n blaenoriaethu iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru. |
| | • Wedi datblygu dulliau Iechyd Cyhoeddus ac Economi Llesiant i gefnogi economïau sylfaenol y GIG yn lleol, gan ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach, a buddsoddi mewn atal yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang (gweler hefyd SO4.3). |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cychwyn deialog gydag uwch-benderfynwyr i asesu eu hanghenion ar gyfer cefnogi blociau adeiladau iechyd. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi paratoi asesiad o'r effaith ar iechyd (HIA) yn ymarferol, gan gyflawni dyletswydd statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 drwy gyngor, arweiniad wedi'i dargedu, hyfforddiant, a dulliau arloesol. |
| | 2027-2028 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi hyrwyddo a datblygu'r naratif a chamau gweithredu sy'n seiliedig ar atebion ar degwch rhywedd, croestoriadedd ac iechyd, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Iechyd Menywod. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cynnal gwerthusiad o Blatfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru i lywio datblygiad ac effeithiolrwydd dilynol a sicrhau'r effaith fwyaf ledled Cymru. |
| | Chwarter 4 |

| | |
|---|---|
| | • Gwell capasiti system ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd o ansawdd yng Nghymru drwy ganllawiau penodol i sector, hyfforddiant, offer a dulliau i ymgorffori asesu'r effaith ar iechyd yn rhan o bolisi ac ymarfer. |
| **SO1.4 -** Erbyn 2028, byddwn wedi datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu, gwyliadwriaeth data a gallu'r gweithlu i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd. | 2025-2026 |
| | Chwarter 3 |
| | • Sefydlu bwrdd rhaglen a threfniadau gwaith ar gyfer dylanwadu ar y flaenoriaeth penderfynyddion ehangach iechyd (yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol). |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer monitro a gwyliadwriaeth penderfynyddion ehangach iechyd. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy ddull traws-sefydliadol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gan ganolbwyntio ar atebion gweithredadwy. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi gwerthuso effaith cynllun Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynyddu ymgysylltu a hwyluso cysylltiadau rhwng aelodau ac integreiddio â Chymuned Fuddiant. |
| | • Wedi cydlynu adnoddau ar yr hyn rydym yn ei wybod ar gyfer blociau adeiladau iechyd, gan gynnwys pam maent yn bwysig ar gyfer iechyd, pa bolisïau sydd bwysicaf ar gyfer newid a'r hyn sy'n gallu cefnogi newid systemau. |
| | • Wedi cyflawni cynnyrch dangosyddion penderfynyddion ehangach iechyd, yn seiliedig ar ganlyniad cam darganfod, gan gynnwys yn gysylltiedig â bod heb waith a chyfranogiad mewn gwaith teg. |

# 3.2 Blaenoriaeth Strategol – Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol

## 3.2.1 Cyflwyniad

Mae llesiant meddyliol a chymdeithasol yn elfennau hanfodol iechyd gydol oes, gan ffurfio'r sylfaen ar gyfer unigolion a chymunedau iach. Er bod penderfynyddion ehangach iechyd yn darparu'r amodau ar gyfer iechyd da, llesiant meddyliol a chymdeithasol yw'r sylfeini ar gyfer pobl a chymunedau iach. Mae llesiant meddyliol yn cynnwys amrywiaeth o elfennau gwahanol; sut rydym yn meddwl, sut rydym yn deall ein hemosiynau ac emosiynau pobl eraill, sut rydym yn ffurfio perthnasoedd iach a'n gwydnwch, sut rydym yn gwneud synnwyr o'n profiadau. Mae'n cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ein hamgylchedd cymdeithasol, gan gynnwys lle rydym yn byw, yn gweithio, yn chwarae ac yn dysgu. Mae rhyngweithiadau plentyndod cynnar â rhieni neu ofalwyr ac ansawdd perthnasoedd gyda rhieni yn hanfodol o ran datblygu llesiant meddyliol. Gall amodau anghyson yn ystod plentyndod arwain at niwed hirdymor yn sgil profiadau niweidiol yn ystod plentynod (ACE).

Mae llesiant cymdeithasol yn cael ei gryfhau drwy rwydweithiau cymdeithasol cryf mewn teuluoedd a chymunedau, gan feithrin ymdeimlad o berthyn, cysylltiad cymunedol ac ymgysylltu gweithredol. Mae cymunedau sy'n meithrin yr amodau hyn yn llai tebygol o brofi unigrwydd ac ynysigrwydd ac maent yn fwy gwydn yn wyneb trallod a thrawma. Mae llesiant meddyliol yn hanfodol i'n gallu i ymdrin â heriau dyddiol ac ymarfer hunanofal. Gall llesiant meddyliol da liniaru effaith penderfynyddion ehangach, a gall llesiant meddyliol isel eu gwaethygu. Mae unigolion â llesiant meddyliol uchel mewn sefyllfa well i hybu eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd a'u cymunedau, ymarfer hunanofal, a chael budd o ymyriadau gofal iechyd. I'r gwrthwyneb, gall llesiant meddyliol isel arwain at 'hunanfeddyginiaeth' drwy'r defnydd o alcohol, cyffuriau neu fwyd. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu'r risg o broblemau iechyd a llai o debygolrwydd o geisio cymorth ar gam cynnar neu gael mynediad at ofal ataliol.

Ceir rhagor o fanylion am gwmpas y flaenoriaeth hon yn ein [Strategaeth Hirdymor](#).

## 3.2.2 Mesur ein cynnydd

Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, rydym yn gweithio tuag at gefnogi'r canlyniadau ar draws y system a nodir isod:

- **Sgôr iechyd meddyliol uwch ar gyfartaledd (2022/23, roedd hyn yn 48.1 allan o 70 posibl[7])**

[7] Sgôr Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick Caeredin (WEMWBS), Arolwg Cenedlaethol Cymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: https://publichealthwales.shinyapps.io/PHOF_Dashboard_Wel/

Mae hyn yn awgrymu bod gan oedolion, ar gyfartaledd, lesiant meddyliol canolig[8]. Yn 2022/23, roedd bwlch 3.3 pwynt hefyd rhwng y sgôr gyfartalog yn y pumed o'r boblogaeth â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf. Mae'r bwlch hwn wedi ehangu o 1.7 pwynt yn 2021/22, yn sgil mwy o ddirywiad yn sgôr llesiant meddyliol y rhai yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf. Yn 2023, sgoriodd y glasoed rhwng 11-16 oed 23.5 (allan o 35 posibl) ar gyfartaledd)[9]. Cynyddodd y sgôr hon ychydig bach rhwng 2021 a 2023. Rhwng y glasoed o deuluoedd mwy a llai cyfoethog, a fesurwyd ar y Raddfa Cyfoeth Teuluol, roedd bwlch o 2 bwynt yn y sgôr gyfartalog.

- Cyfran uwch o oedolion sy'n teimlo ymdeimlad o gymuned (2021/22, nododd 63.8% o oedolion eu bod yn teimlo eu bod perthyn yn eu hardal, bod pobl yn eu hardal o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth[10].)

### 3.2.3 Cynnydd cyflawni

Mae ein gwaith ar y flaenoriaeth hon yn cyffwrdd â phob oedran, o'r 1000 diwrnodau cyntaf o fywyd hyd at oedran ysgol ac oedran gweithio hyd at bobl hŷn. Rydym wedi sefydlu ein Sgwrs Genedlaethol Hapus er mwyn helpu pobl i flaenoriaethu eu llesiant meddyliol a'r camau gweithredu a all ei ddiogelu a'i hyrwyddo. Mae'r wefan wedi derbyn dros 60,000 o ymweliadau ac rydym wedi recriwtio dros 50 o sefydliadau cymunedol i'n rhwydwaith cefnogwyr Hapus. Rydym wedi cwblhau amrywiaeth o fesurau llinell sylfaen ac wedi sefydlu rhaglen werthuso i'n helpu i ddeall a monitro effaith ein gwaith.

Mae Partneriaeth Strategol Hapus yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tempo, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Cadw, Cydffederasiwn y GIG, Amgueddfa Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl, i gefnogi'r nod o ehangu mynediad at weithgareddau sy'n hybu llesiant meddyliol a chyfranogiad yn y gweithgareddau hyn. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Newydd, yn enwedig yr ail ddatganiad gweledigaeth ar lesiant meddyliol.

Mae ein rhaglen ar y 1000 Diwrnod Cyntaf wedi parhau i eirioli dros fwy o weithredu ar draws systemau a datblygiad cynnar plant fel sylfaen ar gyfer llesiant gydol oes. Arweiniodd y rhaglen waith cydweithredol, gan ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd i ddatblygu Fframwaith Gweithredu Blynyddoedd Cynnar ar y cyd a chytuno arno. Mae'r fframwaith yn mynd i'r afael yn benodol â'r flaenoriaeth Weinidogol ar y 1000 Diwrnod Cyntaf a'r cyfnod ar ôl hynny hyd at ben-blwydd y plentyn yn bump oed. Bydd y Fframwaith Gweithredu Blynyddoedd Cynnar yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2025 a

---

[8] Llywodraeth Cymru. Ystadegau iechyd meddwl: dangosfwrdd rhyngweithiol. [Ar-lein]. 2025. Ar gael yn: Ystadegau iechyd meddwl: dangosfwrdd rhyngweithiol | LLYW.CYMRU

[9] Sgôr Fer Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick Caeredin (SWEMWBS), y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. . Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant

[10] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: https://publichealthwales.shinyapps.io/PHOF_Dashboard_Wel/

chynhelir digwyddiad lansio ym mis Mehefin 2025 i rannu'r fframwaith yn ehangach a thrafod syniadau ar gyfer ei weithredu.

Rydym wedi parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith ar gyfer dull Ysgol Gyfan o ran Llesiant Meddyliol ac Emosiynol, gan weithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn lleol. Hyd yma, rydym wedi cyrraedd 74% o'r holl gynllunio gweithredu ysgolion ac rydym ar y trywydd cywir i gyflawni'r targed o 80% erbyn diwedd mis Mawrth.

Mae'r cynnydd mewn problemau iechyd meddyliol ac emosiynol ymhlith plant a phobl ifanc wedi bod yn bryder am beth amser ledled y DU ac mewn llawer o wledydd eraill yn rhyngwladol. Hyd yma, canolbwyntiwyd ar alluogi'r system i ymateb i'r angen a nodwyd ond mae angen hefyd i ddeall beth sy'n ysgogi'r cynnydd hwn fel y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar atal. Rydym wedi dod â chlinigwyr, academyddion a'r trydydd sector at ei gilydd i ddechrau archwilio'r mater hwn. Rydym wedi dechrau drwy weithio i nodi beth mae'r data'n ei ddweud wrthym ynghylch pryd y dechreuodd y cynnydd hwn, pa agweddau ar iechyd meddyliol ac emosiynol sydd wedi dangos newid dros amser, ac yna byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn i ddechrau archwilio achosion posibl.

Mae Hyb ACE Cymru wedi parhau i gyd-arwain y gwaith o weithredu Fframwaith Cymru sy'n ystyriol o Drawma gan ddarparu gwybodaeth, adnoddau ac arweiniad i dros 50 o sefydliadau a sectorau allweddol fel addysg a chyfiawnder troseddol wrth weithredu'r Pecyn Offer sy'n ystyriol o Drawma ac ACE. Mae'r Uned Atal Trais wedi bod yn datblygu'r gwaith o weithredu Fframwaith Cymru Heb Drais a datblygwyd Pecyn Offer Ymgysylltu â Dynion a Bechgyn i ddarparu amrywiaeth o wybodaeth hygyrch ar gyfer deall, cefnogi ac asesu'n gritigol y rôl y gall rhaglenni sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn ei chware wrth atal trais.

### 3.2.4 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

**SO2.1 Erbyn 2028,** byddwn wedi gweithio gydag eraill i greu amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol sy'n cefnogi llesiant meddyliol a chymdeithasol.

**SO2.2 Erbyn 2028,** byddwn wedi galluogi'r system i ddeall anghenion, mesur effaith a gwerthuso gweithredu iechyd cyhoeddus i hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol

**SO2.3 Erbyn 2028,** byddwn wedi eirioli dros y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi sy'n effeithio'n gadarnhaol ar lesiant meddyliol a chymdeithasol a llywio hyn

**SO2.4 Erbyn 2028,** byddwn wedi cefnogi ac arwain gwaith i normaleiddio'r broses o fabwysiadu ymddygiad iach sy'n hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol ac yn creu normau cymdeithasol cadarnhaol

SO2.5 Erbyn 2028, byddwn wedi cefnogi ac arwain camau gweithredu sy'n lleihau niwed hirdymor sy'n deillio o drawma, trais, camdriniaeth, stigma a gwahaniaethu

SO2.6 Erbyn 2028, byddwn wedi cynyddu capasiti a gallu lefel system i newid i atal ac optimeiddio dulliau poblogaeth o hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol

SO2.7 Erbyn 2028, byddwn wedi datblygu gwaith i gynyddu dealltwriaeth a chamau gweithredu ar benderfynyddion masnachol a digidol llesiant meddyliol a chymdeithasol

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO2.1** - Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gydag eraill i greu amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol sy'n cefnogi llesiant meddyliol a chymdeithasol | 2025-2026 |
| | Chwarter 3 |
| | • Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Estyn a Chyfarwyddwyr Addysg, byddwn wedi cytuno ar weithredoedd ar y cyd a phriod weithredoedd ar wella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc mewn ysgolion. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â cham 1 gweithredu'r Dull Ysgol Gyfan o ran Llesiant Meddyliol ac Emosiynol a chytuno ar gynigion ar gyfer cam 2, gan adeiladu ar waith ar y cyd ag Estyn a Chyfarwyddwyr Addysg. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cefnogi'r gwaith o weithredu pecyn o gymorth ar gyfer llwybrau iechyd ar gyfer pobl ifanc mewn cyflogaeth gan ganolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi datblygu a rhannu gwybodaeth am brofiadau andwyol yn ddiweddarach mewn bywyd a chysylltiadau cymdeithasol a'u heffaith ar iechyd a llesiant yng Nghymru, gan baratoi tystiolaeth a gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu yn y maes hwn. |
| **SO2.2** - Erbyn 2028, byddwn wedi galluogi'r system i ddeall anghenion, mesur effaith a gwerthuso gweithredu iechyd cyhoeddus i hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol | 2025-2026 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi syntheseiddio'r dystiolaeth ar yr hyn y gall gwasanaethau ei wneud ar y berthynas rhwng canlyniadau iechyd corfforol a llesiant meddyliol. |
| | Chwarter 4 |
| | • Bydd adroddiad gwerthuso Cam 1 ar Sgwrs Genedlaethol Hapus wedi'i gwblhau a bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei fwydo i mewn i fireinio'r rhaglen. |
| | 2027-2028 |
| | • Fel rhan o'n gwaith ar y 1000 Diwrnod Cyntaf, wedi cwblhau adolygiad o offer asesu datblygiad plant blynyddoedd cynnar |
| **SO2.3** - Erbyn 2028, byddwn wedi eirioli dros y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi sy'n effeithio'n gadarnhaol ar lesiant meddyliol a chymdeithasol a llywio hyn | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Genedlaethol. |

| | |
|---|---|
| **SO2.4 –** Erbyn 2028, byddwn wedi cefnogi ac arwain gwaith i normaleiddio'r broses o fabwysiadu ymddygiad iach sy'n hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol ac yn creu normau cymdeithasol cadarnhaol | 2025-2026<br>Chwarter 1<br>• Wedi llunio offeryn gweithredu ar sut i greu gweithgareddau cymunedol cynhwysol sy'n hyrwyddo llesiant.<br>Chwarter 4<br>• Wedi ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn gweithgareddau i hyrwyddo llesiant meddyliol a nodi camau gweithredu allweddol i wella eu cynhwysiant mewn gwasanaethau a'u mynediad at wasanaethau. |
| **SO2.5 -** Erbyn 2028, byddwn wedi cefnogi ac arwain camau gweithredu sy'n lleihau niwed hirdymor sy'n deillio o drawma, trais, camdriniaeth, stigma a gwahaniaethu | 2026-2027<br>Chwarter 1<br>• Wedi gwerthuso'r broses o weithredu Fframwaith Cymru sy'n ystyriol o Drawma i ddangos ei effaith ar atal trallod a thrawma yng nghymdeithas Nghymru a chanlyniadau cymorth cadarnhaol i'r rhai sydd wedi profi hynny. |
| **SO2.6** - Erbyn 2028, byddwn wedi cynyddu capasiti a gallu lefel system i newid i atal ac optimeiddio dulliau poblogaeth o hyrwyddo Llesiant Meddyliol a Chymdeithasol | 2025-2026<br>Chwarter 2<br>• Wedi disgrifio'r arfer presennol o ran defnyddio offer asesu datblygiad plant cynnar.<br>Chwarter 3<br>• Wedi lansio cam 1 o gynnig digidol Pob Plentyn.<br>Chwarter 4<br>• Wedi cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer y Fframwaith Gweithredu Blynyddoedd Cynnar fel rhan o'n gwaith ar y 1000 Diwrnod Cyntaf.<br>• Wedi llunio canllaw allweddol ar gyfer y GIG ac awdurdodau lleol ar rôl gwasanaethau blynyddoedd cynnar wrth adeiladu system iechyd a gofal gynaliadwy.<br>2026-2027<br>Chwarter 1<br>• Wedi llunio canllaw byr ar gyfer asiantaethau allweddol yng Nghymru i gamau gweithredu pendant y gallant eu cymryd i gefnogi mentrau cymunedol i hyrwyddo llesiant meddyliol.<br>Chwarter 4<br>• Wedi disgrifio rôl gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar wrth adeiladu system iechyd a gofal gynaliadwy.<br>2027-2028<br>• Wedi galluogi camau gweithredu cychwynnol i integreiddio asesu llesiant meddyliol mewn cynllunio iechyd a gofal.<br>• Wedi disgrifio'r mesurau canlyniadau pwysicaf ar gyfer deall a yw plant yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. |
| **SO2.7** Erbyn 2028, byddwn wedi datblygu gwaith i gynyddu dealltwriaeth a chamau gweithredu ar benderfynyddion masnachol a | 2026-2027<br>Chwarter 3<br>• Wedi cwblhau gwaith sy'n nodi prif benderfynyddion masnachol a digidol llesiant meddyliol a chymdeithasol ac sy'n nodi'r camau gweithredu y gall systemau eu cymryd i fynd i'r afael â nhw o lefel polisi i ymarfer. |

| | |
|---|---|
| digidol llesiant meddyliol a chymdeithasol | |

# 3.3 Blaenoriaeth Strategol – Hybu ymddygiad iach

## 3.3.1 Cyflwyniad

Hybu ymddygiad iach sy'n cwmpasu gweithgarwch i leihau baich clefyd, anabledd, a marwolaeth gynnar sy'n deillio o'r defnydd o dybaco, ein deiet, pa mor egnïol yr ydym ac a ydym yn defnyddio alcohol a sylweddau eraill a sut rydym yn eu defnyddio. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o'r Astudiaeth Baich Byd-eang Clefydau yn nodi bod risgiau ymddygiadol yn cyfrannu 25% o flynyddoedd o fywyd a gollwyd yn sgil marwolaethau cyn pryd (YLL) a'r blynyddoedd yn byw gydag anabledd (YLD) yn sgil clefyd anhrosglwyddadwy yng Nghymru, sy'n cynnwys canser, clefyd y galon a chlefydau anadlol.  O'r risgiau ymddygiadol hyn, tybaco sy'n cyfrannu fwyaf (10%), wedi'i ddilyn gan ddeiet (8%).  Yn ogystal, mae BMI uchel yn gyfrifol am 8% arall.  Mae baich cynyddol clefyd anhrosglwyddadwy yn fygythiad sylweddol i gynaliadwyedd ein system iechyd a gofal.

Mae cysylltiad agos rhwng ein hymddygiad â'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd wedi'u hamlinellu mewn blaenoriaethau cynharach. Mae ein dull o hyrwyddo ymddygiad iach yn cydnabod yn glir bod y cyfleoedd i wneud dewisiadau iachach yn cael eu dylanwadu gan ein hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, gan lle rydym yn byw, ac yn bwysig gan gamau gweithredu'r diwydiannau sy'n cynhyrchu llawer o nwyddau afiach.  Dyma pam, ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymddygiad, rydym yn gweld graddiant economaidd-gymdeithasol clir; maent yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau yn y boblogaeth sy'n profi anfantais. Mae'r ffactorau hyn yn un o'r prif ddulliau y mae'r penderfynyddion ehangach yn arwain at afiechyd ac anghydraddoldebau iechyd.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall ein hymddygiad fod o ganlyniad i'n llesiant meddyliol.  Bydd llawer ohonom yn cydnabod mor hawdd yw bwyta bwydydd llai iach, yn aml fel danteithion pan fyddwn yn teimlo'n isel, neu sut y gall ein defnydd o alcohol gynyddu pan fyddwn dan straen neu'n bryderus. I rai pobl daw'r ymddygiad ymdopi hwn yn hirdymor ac mae'n dod yn arfer ac efallai y bydd angen cymorth ar bobl i fabwysiadu strategaethau ymdopi iachach. Yn y sefyllfaoedd hyn, yn aml mae angen cymorth ar bobl i wneud newidiadau, hyd yn oed pan fydd ganddynt gymhelliant i wneud hynny.  Mae ffactorau ymddygiadol hefyd yn chwarae rhan yn y cyflyrau sy'n arwain at anabledd fel clefydau cyhyrysgerbydol a defnyddio sylweddau.  Un o'r risgiau ymddygiadol sy'n dod i'r amlwg i iechyd a llesiant yw gamblo, a fydd yn ffocws cynyddol dros y tair blynedd nesaf.

Ceir rhagor o fanylion am gwmpas y flaenoriaeth hon yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 3.3.2 Mesur ein Cynnydd

Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, rydym yn gweithio tuag at gefnogi'r canlyniadau ar draws y system a nodir isod:

- Cyfran uwch o'r boblogaeth â phwysau iach (2022/23, 36.1% o oedolion oedran gweithio (16-64 oed) wedi nodi BMI rhwng 18.5 a 25)

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae cyfran yr oedolion sy'n byw gyda gordewdra yng Nghymru wedi cynyddu 44% i ychydig dros 1 o bob 4 o bobl. Mae yna hefyd fwlch mawr yng nghyfran y bobl sydd â phwysau iach, gyda 33.7% yn y pumed o ardaloedd â'r amddifadedd uchaf yn nodi pwysau iach o gymharu â 39.5% yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf.

Yn 2021, roedd gan 65% o'r glasoed rhwng 11-16 oed bwysau iach. Roedd y gyfran hon yn uwch ymhlith y glasoed mewn teuluoedd mwy cyfoethog (67.2%) o gymharu â theuluoedd cyfoeth is (61.4%).

- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol (2022/23, gwnaeth 55.4% o oedolion 150 munud o weithgarwch corfforol cymedrol neu egnïol bob wythnos.)

Yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, dim ond 47.7% fodlonodd y canllaw, o gymharu â 61.4% yn ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf[11]. Nododd 31% o'r holl oedolion eu bod wedi gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol yn yr wythnos flaenorol[12]. Fodd bynnag, mae gweithgarwch corfforol wedi gwella ychydig dros y blynyddoedd diwethaf, gyda dim ond 51% o oedolion yn bodloni'r canllawiau yn 2020/21.

Yn y glasoed yn 2023, roedd bron 4 o bob 5 o blant nad oeddent yn bodloni'r canllaw argymelledig ar gyfer y grŵp oedran hwn, sef o leiaf 60 munud o weithgarwch corfforol bob dydd. Mae lefelau uwch o weithgarwch corfforol yn cael eu nodi gan y glasoed o deuluoedd mwy cyfoethog. Mae 20% o'r grŵp hwn yn nodi eu bod yn bodloni'r canllawiau o gymharu â 15% o'r rhai mewn teuluoedd llai cyfoethog.

- Llai o achosion o smygu (2022/23, nododd 12.8% o oedolion eu bod yn smygu bob dydd neu weithiau[13].)

Mae canran yr oedolion sy'n smygu yng Nghymru wedi haneru ers 2003/04[14]. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau hyn, ni ragwelir ar hyn o bryd bod nifer y smygwyr yn mynd i gyflawni targed Llywodraeth Cymru, sef llai na 5% erbyn 2030. Roedd oedolion sy'n byw yn y pumed o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf 50% yn fwy tebygol o smygu na'r rhai yn y pumed a'r amddifadedd lleiaf.

---

[11] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: https://publichealthwales.shinyapps.io/PHOF_Dashboard_Wel/

[12] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Crynodeb o dueddiadau mewn ffactorau risg ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy - Iechyd Cyhoeddus Cymru. [Ar-lein]. 2025. Ar gael yn: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/crynodeb-o-dueddiadau-mewn-ffactorau-risg-ar-gyfer-clefydau-anhrosglwyddadwy/

[13] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: https://publichealthwales.shinyapps.io/PHOF_Dashboard_Wel/

[14] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Crynodeb o dueddiadau mewn ffactorau risg ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy - Iechyd Cyhoeddus Cymru. [Ar-lein]. 2025. Ar gael yn: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/crynodeb-o-dueddiadau-mewn-ffactorau-risg-ar-gyfer-clefydau-anhrosglwyddadwy/

Ymhlith y glasoed 11-16 oed, nododd 2.7% eu bod yn smygu o leiaf unwaith yr wythnos yn 2023, gan ostwng o 3.8% yn 2017[15]. Mae'r glasoed o deuluoedd cyfoeth is yn fwy tebygol o smygu na'r rhai o deuluoedd mwy cyfoethog, ond mae'r bwlch wedi gostwng o 2.7 pwynt canran yn 2017 i 1.9 yn 2023.

- Lleihau'r defnydd niweidiol o alcohol (2022/23, nododd 17.2% o oedolion 16 oed a throsodd eu bod yn yfed dros y canllawiau – mwy na 14 uned yr wythnos[16].)

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefelau yfed peryglus a niweidiol wedi aros yn sefydlog ar y cyfan. Mae pobl o statws economaidd-gymdeithasol uwch yn fwy tebygol o nodi eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos bod y rhai mewn grwpiau statws economaidd-gymdeithasol is yn profi mwy o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Yn 2023, nododd 35.6% o'r glasoed 11-16 oed eu bod yn yfed alcohol. Ymhlith y glasoed o deuluoedd â chyfoeth uwch, nododd 37.6% eu bod yn yfed, o gymharu â 32.4% o deuluoedd â chyfoeth is. Mae nifer yr achosion cyffredinol o yfed alcohol ymhlith y glasoed, a'r bwlch cyfoeth o ran nifer yr achosion, wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf.

### 3.3.3 Cynnydd Cyflawni

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid systemau ehangach i wneud y mwyaf o'r cyfle a gyflwynir gan ddeddfwriaeth ar dybaco a fepio yng Nghymru ac ar draws y DU a fydd yn gam mawr ymlaen i wireddu ein huchelgais o Gymru ddi-fwg erbyn 2030. Rydym wedi gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i adolygu system rhoi'r gorau i smygu Helpa Fi i Stopio a bydd yr adolygiad hwnnw yn gwneud argymhellion ar sut rydym yn sicrhau potensial mwyaf posibl rhoi'r gorau i smygu i leihau baich clefyd a salwch o dybaco ar gyfer unigolion a'r system iechyd a gofal fel un o elfennau allweddol ein newid i atal.

Mae hunanatgyfeiriadau i'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio 8% yn uwch na'r llynedd ac ar y trywydd iawn i gyrraedd y lefel uchel erioed yn 2024/25. Mae'r twf hwn wedi'i ysgogi gan lwyddiant ymgyrch Teimla'r Gwahaniaeth, yn ogystal â diweddariad mawr i ryngwyneb defnyddiwr a chynnwys y wefan ym mis Ionawr 2025. Rydym wedi datblygu partneriaeth gydag academyddion Prifysgol Sheffield i gynyddu ein gallu i fodelu effaith bosibl amrywiaeth o fesurau polisi mewn perthynas â smygu yn y dyfodol ac archwilio effaith bosibl rheolaethau prisiau ar smygu. Rydym wedi parhau â'n gwaith i leihau effaith smygu yn ystod beichiogrwydd ac i wneud y defnydd gorau o gyswllt â gofal iechyd i hyrwyddo ymgais i roi'r gorau i smygu.

Mewn ymateb i'r ffigurau llwm a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol o ran cynnydd diabetes yng Nghymru, rydym wedi sefydlu Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd, sef rhaglen sy'n dod â phartneriaid allweddol o bob rhan o'r system at ei gilydd i wella canlyniadau i bobl sy'n byw gyda Diabetes (mathau 1 a 2) ac atal y cynnydd yn nifer yr achosion o

[15] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: https://publichealthwales.shinyapps.io/SHRN_Dashboard/

[16] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: https://publichealthwales.shinyapps.io/PHOF_Dashboard_Wel/

Ddiabetes Math 2 erbyn 2028. Mae'r gwaith hwn yn berthnasol i'r Flaenoriaeth Strategol hon a Blaenoriaeth Strategol 4.

Yn ystod 2024, cynhaliwyd asesiad helaeth o anghenion ar niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau yng Nghymru ac rydym bellach yn datblygu dull traws-sefydliadol i sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar sicrhau'r ei effaith fwyaf posibl yn y maes hwn.

Rydym wedi datblygu pecyn e-ddysgu i hyrwyddo ymyriadau byr ar alcohol a'r defnydd o offer asesu risg sydd wedi dangos eu bod yn arbed arian yn y GIG. Rydym wedi gweithio'n agos i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru sy'n deillio o gyflwyno'r Ardoll Gamblo yn 2025.

Mae' gweithredu'r Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach wedi parhau, gan hwyluso'r broses o fabwysiadu dull system gyfan gan gynnwys datblygu cyfres o nodau a dangosyddion a fydd yn helpu i ganolbwyntio camau gweithredu a galluogi mesur effaith. Rydym wedi parhau â'n gwaith i sicrhau effaith fwyaf posibl Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan gan gynnwys cynghori ar rôl amrywiaeth cynyddol o feddyginiaethau colli pwysau.

Mae gwefan Pwysau Iach Byw'n Iach wedi parhau i dyfu ei defnyddwyr drwy gydol y flwyddyn gan gyrraedd carreg filltir sylweddol o 200,000 o ddefnyddwyr yn ymweld ers ei lansio, gydag 84% o ddefnyddwyr yn dweud ei bod yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Eleni, gwnaethom ddatblygu'r gwaith o ddatblygu cynorthwyydd digidol i bennu nodau ac asesiad iechyd wedi'i ddiweddaru a phan fyddant wedi'u lansio byddant yn rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr dros eu taith rheoli pwysau. Denodd yr ymgyrch Ailosod eich Ffordd o Feddwl ym mis Mai 2024 18,000 o ddefnyddwyr newydd a'r nifer uchaf o ymwelwyr sy'n dychwelyd ers ei lansio. Ym mis Tachwedd, enillodd Aur am Fideo'r Flwyddyn yng Ngwobrau CIPR.

Rydym wedi cynnal gwerthusiadau proses o'r Ymagwedd System Gyfan at Bwysau Iach a'r Cynlluniau Peilot Plant a Theuluoedd a fydd yn ein galluogi i wneud argymhellion ar y camau nesaf ar gyfer y ddwy raglen waith hyn. Rydym wedi parhau â'n gwaith i gynorthwyo'r broses o weithredu'r Cynllun Gweithredu Bwydo ar y Fron ac i ddatblygu opsiynau ar gyfer cynllun gweithredu newydd ar fwydo babanod yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cefnogi'r adolygiad o'r safonau maeth a bwyd ar gyfer prydau ysgol yng Nghymru.

Rydym yn parhau i gydnabod y cyfleoedd y mae'r diwrnod ysgol yn eu cyflwyno i gynyddu gweithgarwch corfforol drwy gam nesaf ein dull sy'n seiliedig ar le ar gyfer teithio llesol i'r ysgol. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi cefnogi dull ysgol gyfan o ran iechyd a llesiant drwy ddatblygu pecynnau cymorth cwricwlwm mewn meysydd allweddol a chynnig cyfres o safonau gofynnol sy'n cael eu mireinio ar hyn o bryd drwy ymgysylltu ag ysgolion. Cafodd rhaglen Byw Bywyd ei hailsefydlu'n llawn ar ôl y pandemig a'i chyflwyno i ysgolion a nodwyd fel rhai â'r angen mwyaf fel rhan o'n gwaith i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau smygu.

Mae rhaglen Cymru Iach ar Waith wedi parhau i weithredu'r model cyflwyno digidol newydd drwy ddatblygu gwefan newydd a chyflwyno nifer o becynnau e-ddysgu a gweminarau.

Er mwyn cynorthwyo'r GIG i newid i atal, gwnaethom ailsefydlu rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif ledled Cymru a pharhau i weithredu ein rhaglen wella i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael budd o'r Rhaglen Genedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Rydym hefyd wedi ailsefydlu Ychwanegu at Fywyd ac yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd i archwilio'r offeryn hwn a gwneud y defnydd gorau posibl ohono fel rhan o waith i atal datgyflyru a chynorthwyo pobl i aros mewn cyflogaeth neu'n economaidd weithgar wrth aros am driniaeth a gofal y GIG.

Mae manteision newid i wneud mwy o ddefnydd o atebion ac offer digidol i hyrwyddo ymddygiad iach yn sylweddol.  Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn nodi cyfleoedd ar gyfer platfformau ac atebion digidol ac yn mynd ar drywydd y rhain i alluogi mwy o ddefnydd ac effaith ar ein poblogaeth.

### 3.3.6 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

**SO3.1 Erbyn 2028,** byddwn wedi gweithio gydag eraill i greu amgylcheddau sy'n cefnogi ymddygiad sy'n hybu iechyd ac yn lleihau ymddygiad sy'n niweidio iechyd. Fel rhan o hyn byddwn wedi dylanwadu ar bolisïau i gynyddu gweithgarwch corfforol, a pharhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu polisi i ddylanwadu ar yr amgylchedd bwyd, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y sector y tu allan i'r cartref a'r sector cyhoeddus.

**SO3.2 Erbyn 2028,** byddwn wedi cefnogi ac arwain gwaith i normaleiddio ymddygiad iach a chreu normau cymdeithasol cadarnhaol

**SO3.3 Erbyn 2028,** byddwn wedi datblygu gwaith i gynyddu dealltwriaeth a chamau gweithredu ar benderfynyddion masnachol a digidol iechyd

**SO3.4 Erbyn 2028,** byddwn wedi cynyddu capasiti a gallu lefel system i newid i atal ac optimeiddio dulliau poblogaeth o hyrwyddo ymddygiad iach

**SO3.5 Erbyn 2028,** byddwn wedi ysgogi a galluogi mabwysiadu ymddygiad sy'n hybu iechyd

**SO3.6 Erbyn 2028,** byddwn wedi cefnogi camau gweithredu sy'n lleihau niwed o ymddygiad afiach, yn enwedig i'r grwpiau hynny sydd fwyaf agored i niwed

**SO3.7 Erbyn 2028,** byddwn wedi cefnogi'r system i ddeall anghenion, mesur effaith a gwerthuso gweithredu iechyd cyhoeddus i hyrwyddo ymddygiad iach

**SO3.8 Erbyn 2028,** byddwn wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ymddygiad iach

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO3.1 -** Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gydag eraill i greu amgylcheddau sy'n cefnogi ymddygiad sy'n hybu iechyd ac yn lleihau ymddygiad sy'n niweidio iechyd. Fel rhan o hyn byddwn wedi dylanwadu ar bolisïau i gynyddu gweithgarwch corfforol, a pharhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu polisi i ddylanwadu ar yr amgylchedd bwyd, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y sector y tu allan i'r cartref a'r sector cyhoeddus. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cyflwyno cynigion terfynol ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan Bywiog Bob Dydd o ran Gweithgarwch Corfforol. |
| | • Wedi cyflwyno ein cynigion ar gyfer fframwaith newydd sy'n cynorthwyo ysgolion i ymgorffori dull ysgol gyfan o ran iechyd a llesiant. |
| | • Wedi cwblhau gwerthusiad cam 1 o'r dull system gyfan o ran Pwysau Iach a chyflwyno adroddiad ar hyn. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cyhoeddi cyfres o becynnau cymorth cwricwlwm i gynorthwyo'r broses o weithredu Cwricwlwm i Gymru. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cwblhau Cam 2 o'r Rhaglen Dull sy'n seiliedig ar Le ar gyfer Teithio Llesol i'r Ysgol. |
| | • Wedi datblygu rhaglen waith i leihau niwed o'r sector bwyd y tu allan i'r cartref. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi cyflwyno offeryn asesu a chanllawiau i alluogi ysgolion i werthuso cynnydd wrth weithredu dull ysgol gyfan o ran bwyd. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cyflwyno canllawiau penodol a luniwyd ar gyfer y Rhaglen Bywiog Bob Dydd. |
| | • Wedi lansio pecyn cymorth i gyflogwyr i atal pobl ifanc 18-24 rhag dechrau smygu. |
| | • Wedi nodi nodweddion allweddol cynnig bwyd sector cyhoeddus sy'n iach yn ddiofyn yng Nghymru i lywio polisi ac ymarfer. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflwyno cynigion i'r llywodraeth ar fabwysiadu'r dull sy'n seiliedig ar le o deithio llesol i'r ysgol yn ehangach. |
| | • Wedi datblygu rhaglen waith i leihau niwed o'r amgylchedd bwyd manwerthu. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi cyhoeddi'r gwerthusiad o'r dull sy'n seiliedig ar le ar gyfer teithio llesol. |
| **SO3.2 -** Erbyn 2028, byddwn wedi cefnogi ac arwain gwaith i normaleiddio ymddygiad iach a chreu normau cymdeithasol cadarnhaol | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi dechrau gwaith i ddeall gwybodaeth, agweddau a chredoau'r cyhoedd o ran gamblo. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |

| | |
|---|---|
| | • Wedi lansio cynllun gweithredu sy'n seiliedig ar y Gwerthusiad o Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cwblhau gwaith ar ddealltwriaeth a chredoau'r cyhoedd mewn perthynas â niwed a risg alcohol i iechyd a bwydo'r rhain i'n Cynllun Tymor Canolig Integredig nesaf. |
| | • Wedi gwerthuso elfennau allweddol o'r rhaglen gwella smygu yn ystod beichiogrwydd a nodi camau gweithredu ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig nesaf. |
| SO3.3 - Erbyn 2028, byddwn wedi datblygu gwaith i gynyddu dealltwriaeth a chamau gweithredu ar benderfynyddion masnachol a digidol iechyd | 2025-2026 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cyhoeddi ein synthesis o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer defnyddio trwyddedu fel ymyriad iechyd cyhoeddus, yn barod i lywio polisi ar drwyddedu. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflwyno cynigion ar gyfer rhaglen waith draws-sefydliadol strategol ar benderfynyddion masnachol a digidol iechyd. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cyflwyno ein hargymhellion i leihau amlygiad babanod a phlant i farchnata nwyddau afiach. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu fframwaith polisi a gwneud penderfyniadau i arwain rhyngweithiadau â chyrff masnachol ac ymateb i benderfynyddion masnachol iechyd. |
| SO3.4 - Erbyn 2028, byddwn wedi cynyddu capasiti a gallu lefel system i newid i atal ac optimeiddio dulliau poblogaeth o hyrwyddo ymddygiad iach | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi datblygu rhaglen waith a chynllun gweithredu i wella canlyniadau bwydo babanod. |
| | • Wedi cwblhau'r Offeryn Asesu Bywiog Bob Dydd a chanllawiau ategol i gefnogi dull ysgol gyfan o ran gweithgarwch corfforol. |
| | • Wedi dechrau asesiad ar sut y gall atebion digidol wella nifer y rhai sy'n mabwysiadu ac yn cynnal ymddygiad iach yn ein poblogaethau. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi datblygu rhaglen waith i ymgorffori'r defnydd o Archwiliad-C mewn ymarfer clinigol. |
| | • Wedi cyflwyno cynigion ar gyfer gwella'r cyfraddau sy'n dal ati yn y Rhaglen Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS). |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu proses sy'n defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad Fepio a'r Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo i ymddygiad sy'n dod i'r amlwg ac iechyd. |
| | • Wedi diffinio a disgrifio dull newydd o ddarparu NERS yn seiliedig ar angen, nid ar gyflyrau penodol. |
| | • Wedi dechrau gweithredu cynllun ar y cyd ag AaGIC i gyflwyno Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif i'r gweithlu gofal sylfaenol yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi cytuno ar ddull rheoli perfformiad ac adrodd ar gyfer adnoddau e-ddysgu Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi gweithredu model cyflawni newydd ar gyfer Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles<br>• Wedi cyflwyno ein cynllun rhaglen ar gyfer atebion digidol yn ein rhaglenni. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflawni camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith ar Faeth yn y Blynyddoedd Cynnar. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi gweithredu system mesur a gwerthuso ar gyfer y dull ysgol gyfan o ran iechyd a llesiant. |
| | • Wedi sefydlu model i gynyddu capasiti a gallu i hybu iechyd yn y gwaith. |
| | • Wedi cwblhau gwerthusiad o weithredu elfennau craidd y Rhaglen Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty. |
| | • Wedi cwblhau gwerthusiad o gynnydd wrth ymgorffori'r defnydd o Archwiliad C ac ymyriadau byr mewn ymarfer clinigol. |
| | • Wedi cwblhau gwerthusiad o weithredu'r modiwl generig lefel 2 ar gyfer e-ddysgu Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif. |
| **SO3.5** - Erbyn 2028, byddwn wedi ysgogi a galluogi mabwysiadu ymddygiad sy'n hybu iechyd | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cytuno ar gynllun cyflawni marchnata, cyfathrebu a datblygu cynnyrch 26-29 ar gyfer Rhaglen Newid Ymddygiad Pwysau Iach: Cymru Iach. |
| | • Wedi lansio modiwl e-ddysgu Lefel 2 Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cyhoeddi adnoddau Pob Plentyn ar gyfer teuluoedd â phlant 2-7 oed. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi datblygu a gweithredu ymddygiad marchnata cymdeithasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad allweddol. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cwblhau ein gwaith ar ysgogwyr ymddygiadol anweithgarwch yn barod i lywio polisi a'n rhaglenni. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi datblygu rhaglen marchnata cymdeithasol sy'n ystyriol o ymddygiad i hyrwyddo bywydau bob dydd egnïol. |
| **SO3.6 -** Erbyn 2028, byddwn wedi cefnogi camau gweithredu sy'n lleihau niwed o ymddygiad afiach, yn enwedig i'r grwpiau hynny sydd fwyaf agored i niwed | 2025-26 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi gweithredu model gwasanaeth cenedlaethol i gefnogi oedolion i roi'r gorau i fepio. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cwblhau cynllun gweithredu ar gyfer lleihau niwed smygu i boblogaethau agored i niwed. |
| | • Wedi cwblhau cynigion ar gyfer rhaglen waith strategol draws-sefydliadol i fynd i'r afael ag argymhellion yr Asesiad o Anghenion Defnyddio Sylweddau. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi cyhoeddi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer camau gweithredu i leihau niwed o smygu ymhlith grwpiau poblogaeth agored i niwed. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflwyno adroddiad diwedd rhaglen ar y camau gwella i leihau smygu yn ystod beichiogrwydd. |
| | • Wedi cyflwyno canllawiau ac adnoddau i ysgolion a rhanddeiliaid allweddol eraill i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi yn barod ar gyfer newidiadau deddfwriaethol ar werthu tybaco. |
| | • Wedi cwblhau arfarniad o opsiynau a gwneud cynigion ar gyfer parhau i gynnal a datblygu Cynnig Digidol Lefel 1 Pwysau Iach Byw'n Iach |
| | • Wedi gweithredu blwyddyn 1 y rhaglen waith draws-sefydliadol ar leihau niwed o gyffuriau ac alcohol. |
| | • Wedi gwneud argymhellion ar gyfer blaenoriaethu o fewn Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan. |
| | • Wedi gweithredu blwyddyn 1 y rhaglen lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi lansio rhaglen waith ar gyfer lleihau niwed smygu i boblogaethau agored i niwed. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu blwyddyn 2 y rhaglen lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. |
| | • Wedi gweithredu blwyddyn 2 o'r rhaglen waith draws-sefydliadol ar leihau niwed o gyffuriau ac alcohol. |
| | • Wedi cwblhau cynigion ar gyfer ymyriadau digidol yn Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi adrodd ar effaith Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan hyd yma ac yn barod i fwydo gwersi i wella'r rhaglen. |
| | • Wedi lansio rhaglen waith i fynd i'r afael â dealltwriaeth o'r risg iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol. |
| **SO3.7 -** Erbyn 2028, byddwn wedi cefnogi'r system i ddeall anghenion, mesur effaith a gwerthuso gweithredu iechyd cyhoeddus i hyrwyddo ymddygiad iach | 2025-26 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cyflwyno argymhellion ar gyfer system adrodd data ddiwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Helpa Fi i Stopio yng Nghymru gan ddefnyddio canfyddiadau o'r Adolygiad Gwasanaeth Helpa Fi i Stopio. |
| | • Wedi cyflwyno cynigion ar gyfer gweithredu'r fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer Pwysau Iach: Cymru Iach. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi adolygu cynnydd wrth weithredu'r fframwaith data bwydo babanod ac adrodd ar hyn. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cwblhau gwerthusiad o adnoddau Pob Plentyn ar gyfer rhieni o feichiogrwydd i 2 oed. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi cwblhau gwerthusiad o'r cymorth i'r rhai sy'n fepio yn unig roi'r gorau iddi ac yn barod i weithredu'r hyn a ddysgwyd. |
| | • Wedi cwblhau gwerthusiad o'r cymorth a ddarperir i grwpiau poblogaeth agored i niwed drwy Helpa Fi i Stopio a gwneud argymhellion ar gyfer gwella a datblygu. |
| | 2025-26 |

| | |
|---|---|
| **SO3.8 -** Erbyn 2028, byddwn wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ymddygiad iach | Chwarter 4 |
| | • Wedi cefnogi'r llywodraeth i ddefnyddio dull iechyd cyhoeddus o ran diwygio'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflwyno argymhellion ar gyfer dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran trwyddedu tybaco a nicotin sy'n lleihau niwed ac eirioli dros eu gweithredu. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi cwblhau gwaith ar gasglu tystiolaeth sy'n seiliedig ar ymarfer ar yr hyn sy'n gweithio i wella bwyta'n iach mewn ysgolion ac yn barod i'w roi ar waith. |
| | • Wedi cwblhau ein rôl o ran gweithredu trwyddedu tybaco a nicotin gan gynnwys darparu cyngor. |

Llewyrchus

Cydnerth

Iachach

Mwy Cyfartal

Cymunedau Cydlynus

Cyfrifol yn Fyd-eang

# 3.4 Blaenoriaeth Strategol – Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar

## 3.4.1 Cyflwyniad

Mae angen i unrhyw system iechyd a gofal ganolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar, cyflawni ansawdd a gwerth uchel a dysgu'n barhaus er mwyn sicrhau ei chynaliadwyedd tymor canolig i hirdymor. Mae system Gofal Sylfaenol gynaliadwy fel rhan o hyn yn ganolog i gyflawni'r canlyniadau hyn a gwneud newid strategol i atal. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn chwarae rôl genedlaethol hanfodol o ran darparu arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer strategaethau iechyd cyhoeddus a chydweithio â GIG Cymru a chymunedau i gydlynu gweithgarwch iechyd cyhoeddus.

Nod *'Cymru Iachach'* yw i bawb yng Nghymru fyw bywydau hir, iach, a hapus. Mae'n pennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol i gyflawni modelau gofal cynaliadwy. Mae gofal iechyd cynaliadwy yn golygu gweithio gyda'n gilydd ar draws y system i ddarparu gofal o ansawdd uchel heb niweidio'r amgylchedd, bod yn fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol, a chyflawni effeithiau cymdeithasol cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys symud gwasanaethau o ysbytai i gymunedau lle y bo'n briodol, gwella canfod ac atal salwch yn gynnar, a helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u cyflyrau hirdymor. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ei gwneud yn haws i bobl aros yn egnïol ac yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau. Mae hyn oll yn pwysleisio rôl ganolog Gofal Sylfaenol mewn system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal.

Mae'r angen am ofal iechyd cynaliadwy yn cael ei danlinellu gan y galw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau iechyd, ymddygiad sy'n niweidio iechyd, penderfynyddion amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r ffactorau hyn wedi creu pwysau sylweddol ar y system iechyd a gofal, gan effeithio ar fynediad at driniaeth amserol, gan achosi niwed y gellir ei osgoi, ac effeithio ar ganlyniadau cyffredinol. Er gwaethaf y pwysau uniongyrchol hyn, mae'n hanfodol canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar, a thegwch i ddatblygu modelau gofal cynaliadwy sy'n bodloni anghenion y boblogaeth heddiw ac yn y dyfodol, lleihau niwed, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, symud gofal o'r ysbyty i gymunedau a gwella canlyniadau.

Fel rhan o'n gwaith o dan y flaenoriaeth strategol hon, bydd AaGIC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ar ein rolau cyffredin a'n priod rolau o ran pwysigrwydd ataliol gweithlu'r GIG. Mae ein gweithlu yn bwysig nid dim ond oherwydd eu rôl bwysig mewn canlyniadau iechyd gwell i bawb ond hefyd oherwydd y bydd gweithlu gofal iechyd sydd ynddo'i hun mor iach â phosibl yn dod â manteision iddyn nhw, i'r GIG ac i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG. Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn asesu'r camau gweithredu y gallant eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i ymgorffori atal yn ein gweithlu.

Bydd hyn yn cynnwys i) nodi sut rydym yn gwella iechyd gweithlu'r GIG, ii) nodi sut y bydd hyn yn gwella gwydnwch system y GIG, iii) sicrhau ein bod yn ymgorffori ffordd

o feddwl a sgiliau ataliol yn addysg a hyfforddiant ein holl weithlu iv) llunio dyfodol y gweithlu iechyd cyhoeddus v) archwilio cyfleoedd i ymgorffori iechyd poblogaethau a ffordd o feddwl ataliol mewn datblygu arweinyddiaeth, a vi) optimeiddio dysgu ar gyfer GIG Cymru o gyfnewidfeydd a rhwydweithiau byd-eang.

Ceir rhagor o fanylion am gwmpas y flaenoriaeth hon yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 3.4.2 Mesur ein cynnydd

Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, rydym yn gweithio tuag at gefnogi'r canlyniadau ar draws y system a nodir isod:

- Lleihau'r gyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi (2022, y gyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi oedd 274 fesul 100,000 o'r boblogaeth, neu 22.7% o'r holl farwolaethau[17].)

  Gwnaeth cyfran y marwolaethau y gellir eu hosgoi ostwng ychydig bach rhwng 2021 a 2022, ond mae'n dal i fod yn uwch na chyn y pandemig. Er bod y gyfradd marwolaethau oherwydd canser yn gostwng, canser yw prif achos marwolaethau y gellir eu hosgoi yng Nghymru, er bod y gyfradd marwolaethau ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau wedi cynyddu hefyd.

- Monitro cyffredinrwydd clefyd anhrosglwyddadwy

  Mae cyfradd y clefydau anhrosglwyddadwy, fel diabetes a methiant y galon, wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu (Tabl 1). Byddwn yn gweithio i leihau cyfraddau'r canlynol:

  - Diabetes
  - Clefyd cardiofasgwlaidd (cnawdnychiant myocardiaidd, methiant y galon, strôc/pwl o isgemia dros dro)
  - Clefyd anadlol (asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint)
  - Cyflyrau cyhyrsgerbydol (osteoporosis ac arthritis gwynegol)

## 3.4.3 Cynnydd Cyflawni

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adeiladu momentwm sylweddol i symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio ar atal ar draws y system iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'r fframwaith Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Atal wedi'i lansio ochr yn ochr â grŵp llywio i arwain y cyfnod pontio hwn. Mae Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan yn parhau i ddangos canlyniadau cadarnhaol, gyda bron 10,000 o bobl yn mynd i ymgyngoriadau. Cafodd pecyn cymorth tegwch ac adroddiad profiad defnyddwyr gwasanaethau eu cyhoeddi hefyd i asesu effaith y rhaglen. Datblygodd y Rhaglen Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol raglen iechyd a llesiant ôl-enedigol mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Iechyd Menywod. Roedd ymdrechion o dan y rhaglen atal Clefyd Cardiofasgwlaidd yn

[17] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Avoidable mortality in England and Wales: 2021 and 2022. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: Avoidable mortality in England and Wales - y Swyddfa Ystadegau Gwladol

cynnwys adolygiad o archwiliadau iechyd a chynigion ar gyfer prosiect gwella ansawdd mewn gofal sylfaenol.

Mewn ymateb i'r ffigurau llwm a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol o ran cynnydd diabetes yng Nghymru, rydym wedi sefydlu Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd, sef rhaglen sy'n dod â phartneriaid allweddol o bob rhan o'r system at ei gilydd i wella canlyniadau i bobl sy'n byw gyda Diabetes (mathau 1 a 2) ac atal y cynnydd yn nifer yr achosion o Ddiabetes Math 2 erbyn 2028. Mae'r gwaith hwn yn berthnasol i'r Flaenoriaeth Strategol hon a Blaenoriaeth Strategol 3.

Mae ffocws cryf wedi'i roi ar leihau anghydraddoldebau iechyd drwy ofal sylfaenol. Roedd y camau gweithredu allweddol yn cynnwys gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i gydgynhyrchu fframwaith consensws ar gyfer gweithredu a chydweithio â phartneriaid i greu fframwaith addysg amlbroffesiynol ar anghydraddoldebau iechyd ac iechyd cynhwysiant, gydag adnoddau, a ryddhawyd ar wefan Gofal Sylfaenol Un i gefnogi'r gwaith o ymgorffori'r rhain yn ymarferol.

Mae'r gwerthusiad cenedlaethol o'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru yn parhau, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid clystyrau a chylchoedd hunanfyfyrio, gan ddatblygu dangosyddion allweddol i fesur cynnydd system. Cafodd porth cynllunio clwstwr ei lansio ar wefan Gofal Sylfaenol Un i gynorthwyo â gweithgareddau cynllunio.

Mewn gofal deintyddol, mae cydlynu cenedlaethol rhaglenni fel Cynllun Gwên ac archwiliadau iechyd deintyddol plant i gyd yn ceisio atal pydredd dannedd ymhlith plant. Ceisiodd gwaith cydweithredol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wella iechyd y geg preswylwyr cartrefi gofal. Cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi a graddnodi ar gyfer y Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol, a darparodd Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru adnoddau ac adroddiadau i randdeiliaid.

Rydym wedi cefnogi Rhaglen Diwygio Deintyddol Llywodraeth Cymru, eirioli dros system gofal deintyddol ataliol, sy'n seiliedig ar anghenion, a gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DCHW) ar Hunanasesiad Ansawdd blynyddol ar gyfer byrddau iechyd a phractisau deintyddol.

Rydym hefyd wedi gweithio gan ganolbwyntio ar ddulliau gwerth cymdeithasol sydd wedi cynnwys darparu hyfforddiant ar asesu'r effaith ar lesiant a chreu pecyn cymorth er mwyn helpu i symud cyllidebau'r GIG tuag at atal.

Eleni, mae Gwasanaeth Diogelu'r GIG wedi parhau â'i rôl strategol wrth gydlynu Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru a chyhoeddi ei adroddiad blynyddol, gan rannu'r hyn a ddysgwyd o welliannau ansawdd a phrosesau arloesol. Mae ffocws allweddol wedi bod ar fynd i'r afael â themâu diogelu rheolaidd drwy ddulliau dysgu arloesol. Mae digwyddiadau amlasiantaethol ar Chwilfrydedd Proffesiynol a Chlywed Llais Oedolion mewn Perygl wedi mynd i'r afael â heriau wrth amddiffyn unigolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Drwy bwysleisio ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person, defnyddio dull sy'n seiliedig ar wyddor ymddygiad, ac annog her adeiladol, mae GIG Cymru yn cryfhau arferion diogelu ac yn ysgogi gwelliannau ystyrlon mewn gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu rheng flaen.

Rydym yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth iechyd cyhoeddus a chadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol Datgarboneiddio: defnyddio a gwaredu

anadlyddion. Drwy weithio'n agosach gyda'r Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar Gyflyrau Anadlol a'n cydweithwyr ar draws y pedair gwlad, rydym wedi darparu dull cydgysylltiedig, goruchwyliaeth genedlaethol, mewnbwn a chymorth i fynd i'r afael â defnyddio a gwaredu anadlyddion yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y defnydd o anadlyddion sydd â photensial cynhesu byd-eang uchel a nodi meysydd i'w gwella wrth reoli cyflyrau anadlol. Mae ein hymdrechion i gefnogi gofal sylfaenol i fod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol a bodloni'r uchelgais Sero Net wedi'u cydnabod drwy ennill yng Ngwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru 2024 a Gwobrau Fferylliaeth Cymru 2024.

Mae ein gwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach wedi parhau i dyfu o nerth i nerth gyda thros 500 o bractisau'n cymryd rhan a thros 4,200 o gamau gweithredu sy'n ystyriol o'r hinsawdd wedi'u nodi ers sefydlu Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru yn 2022.

### 3.4.4 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol isod:

SO4.1 Erbyn 2028, byddwn wedi cyflawni dull cydgysylltiedig o atal ac ymyrryd yn gynnar yn y system iechyd a gofal.

SO4.2 Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a phartneriaid systemau, i lunio a chefnogi'r gwaith o weithredu system Gofal Sylfaenol a Chymunedol, sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, yn deg ac yn gynaliadwy, gyda gwasanaethau o ansawdd sy'n cael eu cynllunio a'u darparu i ddiwallu anghenion pobl heddiw ac yfory.

SO4.3 Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gyda byrddau iechyd a'r system iechyd cyhoeddus ehangach i arafu cyfradd y cynnydd yn nifer yr achosion o ddiabetes math 2 a chynyddu nifer y bobl sy'n byw'n dda gyda diabetes yng Nghymru.

SO4.4 Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid i gyflawni iechyd a gofal sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol i fodloni uchelgais Cymru Sero Net.

SO4.5 Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a phartneriaid systemau eraill i gefnogi gwelliant wrth atal a lleihau annhegwch mewn mynediad a chanlyniadau deintyddol

SO4.6 Erbyn 2028, byddwn wedi sefydlu rôl arweiniol o ran defnyddio dulliau ac offer Gwerth Cymdeithasol, economeg iechyd a modelu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a blaenoriaethu buddsoddi tuag at wella iechyd y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau ac adeiladu Economi Llesiant yng Nghymru.

SO4.7 Erbyn 2028, byddwn wedi galluogi GIG Cymru i wella a thrawsnewid ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau diogelu ar gyfer pobl Cymru.

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO4.1 -** Erbyn 2028, byddwn wedi cyflawni dull cydgysylltiedig o atal ac ymyrryd yn gynnar yn y system iechyd a gofal. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi paratoi partneriaid systemau i gymryd camau gweithredu i gryfhau'r broses o weithredu presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi paratoi partneriaid systemau i gytuno ar Gynllun Cyflawni Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd gydag amcanion i'w cyflawni wedi'u nodi ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. |
| | • Wedi llywio'r gwaith o ddatblygu ffrwd waith ar y cyd ar iechyd a llesiant ôl-enedigol, gyda Gweithrediaeth y GIG a Rhwydweithiau Clinigol, sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Iechyd Menywod. |
| | • Wedi cefnogi partneriaid i ddefnyddio'r system iechyd a gofal gyfan i ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr hyn sy'n bwysig i iechyd a llesiant pobl yng Nghymru, gan sicrhau bod rhaglenni'n cynorthwyo iechyd a llesiant ar draws y cwrs bywyd. |
| | • Wedi cwblhau'r asesiad o anghenion gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed gan weithio gyda'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl. |
| | • Wedi cwblhau gwaith ar y cyd â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl ar adolygu llwybr gwerth uchel ar gyfer ymyriadau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi paratoi'r system i weithredu cynllun gweithredu Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Atal (PBHC). |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi galluogi gweithredu'r cynllun gweithredu Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Atal er mwyn ymgorffori atal yn y system iechyd a gofal ar raddfa eang. |
| | • Wedi galluogi camau gweithredu i atal clefyd drwy weithio gyda phartneriaid mewn gofal sylfaenol a chymunedol a'r Rhwydweithiau Clinigol Strategol Cenedlaethol i ganolbwyntio ar atal eilaidd a sylfaenol er mwyn ymgorffori gweithgarwch ataliol sy'n canolbwyntio ar y person mewn llwybrau clinigol. |
| | • Wedi llywio'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol. |
| **SO4.2** - Erbyn 2028, | 2025-2026 |

| | |
|---|---|
| byddwn wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a phartneriaid systemau, i lunio a chefnogi'r gwaith o weithredu system Gofal Sylfaenol a Chymunedol, sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, yn deg ac yn gynaliadwy, gyda gwasanaethau o ansawdd sy'n cael eu cynllunio a'u darparu i ddiwallu anghenion pobl heddiw ac yfory | Chwarter 1 |
| | • Wedi llunio'r Cynllun Gweithredu Anghydraddoldebau Iechyd ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy ofal sylfaenol. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi lledaenu'r data, y dystiolaeth, yr offer cymorth cynllunio a gynhyrchwyd ac eirioli dros eu defnydd er mwyn galluogi byrddau iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wella eu gwasanaethau iechyd cynhwysiant. |
| | • Wedi treialu a chyflwyno hyfforddiant a dull Meddygfeydd Mwy Diogel Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru. |
| | • Wedi gweithredu cynllun peilot o'r Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer iechyd Carchardai a Chynhwysiant. |
| | • Wedi darparu hyfforddiant a chynorthwyo'r system i fabwysiadu dull iechyd y boblogaeth o ran cynllunio a gwerthuso, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ddau brif glefyd sy'n achosi anghydraddoldebau - diabetes ac anadlol. |
| | • Wedi cyhoeddi adroddiad Cynllun Gwerthuso Model Gofal Sylfaenol i Gymru: Offeryn Hunanfyfyrio Clwstwr Blwyddyn 2. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cytuno ar Gynllun Gwerthuso Model Gofal Sylfaenol i Gymru: Dangosyddion Allweddol cenedlaethol Clwstwr, a phennu cwmpas dangosfwrdd data. |
| | • Wedi eirioli dros gynnwys tegwch iechyd ym mandad Llywodraeth Cymru i fyrddau iechyd yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. |
| | • Wedi cyhoeddi adroddiad Cynllun Gwerthuso Model Gofal Sylfaenol i Gymru: Offeryn Hunanfyfyrio Clwstwr Blwyddyn 3. |
| | • Wedi gweithio gydag AaGIC i asesu’r camau gweithredu y gallwn eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i ymgorffori atal yn ein gweithlu. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu'r gwaith o weithredu'r fframwaith ar gyfer gofal iechyd cyhoeddus - 'Iechyd a Gofal y Boblogaeth yng Nghymru' mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol. |
| | • Wedi cyflwyno'r 'Dull Iechyd Cyhoeddus at Ofal Sylfaenol a Chymunedol yn 2035' (gwaith Cam 2) - Cwblhau'r gwaith i fynegi sut beth yw System Iechyd a Gofal Gynaliadwy yng Nghymru. |
| | • Wedi parhau i gryfhau capasiti, gallu a meithrin sgiliau'r gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol ar draws meysydd pynciau blaenoriaeth iechyd cyhoeddus, drwy amrywiaeth o ddulliau. |
| | • Wedi darparu arweinyddiaeth strategol, cyngor a chymorth ar draws gofal sylfaenol a chymunedol, i gryfhau gweithgareddau monitro a gwerthuso ac allbynnau i fesur cynnydd o ran darparu Model Gofal Sylfaenol i Gymru. |
| | • Wedi darparu tystiolaeth ar gyfer pwysau presennol gan gynnwys rhestrau aros i'w gweithredu gyda lens tegwch. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi cefnogi'r system iechyd cyhoeddus yng Nghymru i weithio'n effeithiol gyda chlystyrau a'r system gofal sylfaenol a chymunedol ehangach i ymgorffori blaenoriaethau iechyd cyhoeddus, gan gynnwys argymhellion yn yr adroddiad 'dulliau gorau'. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cytuno ar ddull ar gyfer cynyddu capasiti a gallu i gynnal gwerthusiad monitro o brosiectau clwstwr a phrosiectau sylfaenol a chymunedol. |
| | • Wedi dylanwadu ar glystyrau a byrddau iechyd i adolygu effaith gweithio mewn clwstwr gan gynnwys costau cyfle prosiectau nad ydynt yn rhai prif ffrwd. |
| | • Wedi darparu arbenigedd iechyd cyhoeddus i ddylanwadu ar y system gofal sylfaenol a chymunedol i ddefnyddio dull gofal iechyd poblogaethau, gan gynnwys cynllunio yn seiliedig ar anghenion. |
| | • Wedi cefnogi GIG Cymru a phartneriaid i nodi elfennau perthnasol o lwybrau clinigol y dylid eu darparu drwy ofal sylfaenol a chymunedol, ac yn y cymunedau lle y mae pobl yn byw (Cymuned drwy Ddylunio). |
| | • Wedi eirioli dros Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a phartneriaid i ymgorffori canfyddiadau gwaith Dull Iechyd Cyhoeddus at Ofal Sylfaenol a Chymunedol erbyn 2035. |
| | • Wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i gytuno ar y dull cenedlaethol o reoli iechyd poblogaethau ledled Cymru ac i'w weithredu drwy ddarparu tystiolaeth ac eiriolaeth i gefnogi datblygu polisïau. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi darparu arweinyddiaeth systemau i ddylanwadu ar ddiwylliant i ymgorffori'r fframwaith anghydraddoldebau iechyd ar draws y GIG cyfan. |
| | • Wedi datblygu tystiolaeth ar gyfer yr achos economaidd dros gyllido a darparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau i leihau anghydraddoldebau iechyd sydd o fudd i'r economi ehangach - gwasanaethau iechyd ac yn ehangach. |
| | • Wedi gweithio gyda Chanolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, GIG Cymru a phartneriaid i gryfhau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth mewn gofal sylfaenol a chymunedol. |
| | • Wedi dylanwadu ar GIG Cymru a'r system Gofal Sylfaenol a Chymunedol i gryfhau'r dull gofal iechyd poblogaethau gan gynnwys cynllunio sy'n seiliedig ar anghenion, dyrannu adnoddau'n deg a darparu gwasanaethau o ansawdd drwy ofal sylfaenol a chymunedol. |
| | • Wedi llywio a pharatoi'r holl lwybrau clinigol i weithredu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n lleihau annhegwch iechyd. |
| | • Wedi gwerthuso ein dull o leihau anghydraddoldebau iechyd drwy gynllun gweithredu gofal sylfaenol. |
| | • Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r achos dros annog Llywodraeth Cymru i ystyried adolygu fframwaith cyllidol y GIG a dosbarthiad adnoddau rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd/atal a thriniaeth, a fformiwla ariannu meddygaeth deulu yng Nghymru. |
| | 2025-2026 |

| | |
|---|---|
| **SO4.3 -** Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gyda byrddau iechyd a'r system iechyd cyhoeddus ehangach i arafu cyfradd y cynnydd yn nifer yr achosion o ddiabetes math 2 a chynyddu nifer y bobl sy'n byw'n dda gyda diabetes yng Nghymru. | Chwarter 1 |
| | • Wedi rhannu mewnwelediadau a chanlyniadau o'r digwyddiad ymgysylltu â chleifion Hacathon i alluogi canlyniadau gwell i bobl â diabetes. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi rhannu canfyddiadau o werthusiad canlyniadau Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu ac ehangu parhaus a phrif ffrydio Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan i gwmpasu'r boblogaeth gyfan ledled Cymru. |
| | • Wedi cyflwyno pecyn cymorth wedi'i gydgynhyrchu i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol i'w ddefnyddio ar bwynt diagnosis. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cydlynu'r broses o ehangu a phrif ffrydio Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan i gwmpasu'r boblogaeth gyfan ledled Cymru, gan ddatblygu'r rhaglen yn barhaus. |
| **SO4.4** Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid i gyflawni iechyd a gofal sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol i fodloni uchelgais Cymru Sero Net. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi adolygu, gwerthuso a gwneud argymhellion i gefnogi Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i fabwysiadu a gweithredu dulliau a thechnegau Gwella Ansawdd. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi disgrifio, adrodd, a hyrwyddo camau gweithredu ac ymyriadau â'r effaith uchaf o ran carbon a nodi offer gwerth gorau i alluogi cyfrifiadau carbon. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi diffinio'r hyn a olygir gan Iechyd a Gofal Amgylcheddol Gynaliadwy a sut y mae'n berthnasol i ofal sylfaenol a chytuno ar hyn gyda phartneriaid systemau. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi hyrwyddo ail-lansio Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflawni, gwerthuso, ac adrodd ar effaith, ymgysylltu, maint a lledaeniad Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru. |
| | • Wedi parhau i ddarparu mewnbwn iechyd cyhoeddus arbenigol ac arwain dull cydgysylltiedig a goruchwyliaeth genedlaethol i leihau niwed clinigol ac amgylcheddol meddyginiaethau penodol sydd ag ôl troed carbon uchel. |
| | 2027-2028 |

| | |
|---|---|
| | • Wedi gweithio gyda phartneriaid systemau i ddarparu arweinyddiaeth, eiriolaeth, dylanwad, cymorth a datblygu adnoddau i alluogi gofal sylfaenol i gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael ag ymarfer a'i addasu er mwyn lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac ymarfer mewn modd mwy cynaliadwy. |
| **SO4.5 -** Erbyn 2028, byddwn wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a phartneriaid systemau eraill i gefnogi'r gwaith o wella wrth ddarparu atal a lleihau annhegwch mewn mynediad a chanlyniadau deintyddol | 2025-2026 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi darparu cyngor strategol, arweinyddiaeth genedlaethol a chydlynu ar gyfer rhaglen Cynllun Gwên (gan gynnwys cyflwyno adroddiad blynyddol) |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth genedlaethol o'r Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol yng Nghymru (gan gynnwys Hyfforddiant, Graddnodi ac Adroddiad) |
| | • Wedi parhau i weithio gyda phartneriaid systemau i ddarparu arweinyddiaeth, arbenigedd, a chymorth iechyd deintyddol cyhoeddus i ddiwygio systemau deintyddol y GIG yng Nghymru gan ganolbwyntio ar atal. |
| | • Wedi dadansoddi a llunio allbynnau priodol o ddangosyddion iechyd y geg y boblogaeth fel y cytunwyd â'r rhanddeiliaid (yn dibynnu ar gytundeb datgelu data wedi'i lofnodi rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG). |
| **SO4.6 -** Erbyn 2028, byddwn wedi sefydlu rôl arweiniol o ran defnyddio dulliau ac offer Gwerth Cymdeithasol, economeg iechyd a modelu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a blaenoriaethu buddsoddi tuag at wella iechyd y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau ac adeiladu Economi Llesiant yng Nghymru. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi sefydlu Uned Economeg a Gwerth Iechyd Cyhoeddus, a chytuno ar gynllun strategol i baratoi gwybodaeth, galluogi gallu ac ymgorffori dulliau economeg a gwerth cymdeithasol ar draws y sefydliad, GIG Cymru a thu hwnt. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi datblygu dulliau Economi Iechyd Cyhoeddus a Llesiant i gefnogi Economïau Sylfaenol y GIG yn lleol, dylanwadu ar benderfynyddion ehangach, a buddsoddi mewn atal yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang. |
| | 2027-2028 |
| | • Dulliau methodolegol uwch ar gyfer cynnwys tegwch mewn gwerthusiadau economaidd gan integreiddio ei gymwysiadau wrth wneud penderfyniadau ym maes iechyd poblogaethau. |
| | • Wedi datblygu map ffordd economi llesiant - gwerth cymdeithasol - iechyd cyhoeddus sy'n dangos 'prawf o gysyniad' ar gyfer iechyd poblogaethau fel ysgogydd llesiant cymdeithasol ac economaidd a llesiant y blaned. |
| **SO4.7 -** Erbyn 2028, byddwn wedi galluogi GIG Cymru i wella a thrawsnewid ansawdd, | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |

| | |
|---|---|
| diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau diogelu ar gyfer pobl Cymru. | • Wedi adolygu a gwerthuso Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG 2024/25 gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi hwyluso Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG, cyflwyno dysgu, gwelliannau ansawdd a phrosesau arloesol a gofnodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2024/25. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru, i lunio Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG ar gyfer 2026/27. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithio gyda Gweithrediaeth GIG Cymru i barhau i aeddfedu adrodd a meincnodi sicrhau ansawdd mewn perthynas â diogelu gan sefydliadau GIG Cymru. |
| | • Wedi gweithredu argymhellion Adolygiad Cryfhau Diogelu mewn Iechyd 2024/25 a gomisiynwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi adolygu a gwerthuso Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG 2025/26 gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi hwyluso Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG, cyflwyno dysgu, gwelliannau ansawdd a phrosesau arloesol a gofnodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2025/26. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio i lunio Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG 2027/28. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG i werthuso effaith adrodd a meincnodi sicrhau ansawdd mewn perthynas â diogelu gan sefydliadau GIG Cymru. |
| | • Wedi rhannu'r data a'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau o'r arolwg cenedlaethol o Blant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd yn 2025/26 gyda GIG Cymru er mwyn llywio gwelliannau mewn cynllunio ar gyfer gwasanaethau iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal yn y dyfodol. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi adolygu a gwerthuso Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG 2026/27 gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio. |
| | • Wedi hwyluso Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG, cyflwyno dysgu, gwelliannau ansawdd a phrosesau arloesol a gofnodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2026/27. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru, i lunio Cynllun Gwaith Rhwydwaith Diogelu'r GIG ar gyfer 2028/29. |
| | • Wedi gweithio gyda Gweithrediaeth GIG Cymru i barhau i aeddfedu adrodd a meincnodi sicrhau ansawdd mewn perthynas â diogelu gan sefydliadau GIG Cymru. |

# 3.5 Blaenoriaeth Strategol – Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth

## 3.5.1 Cyflwyniad

Mae diogelu'r cyhoedd rhag effeithiau heintiau ac amlygiad i niwed amgylcheddol, fel llygredd aer, a chyflawni ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol yn gyfrifoldebau craidd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fel Ymatebwr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, rydym yn cydweithio ag eraill i ddiogelu'r cyhoedd yn erbyn clefydau heintus a risgiau amgylcheddol mawr drwy gynllunio at argyfyngau cadarn, parodrwydd a chamau gweithredu ymateb. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a allai godi o fygythiadau diogelu iechyd, statws iechyd poblogaeth presennol, a phenderfynyddion ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd.

Byddwn yn parhau i gymryd rhan mewn ymdrechion dan arweiniad Prif Swyddog Meddygol Cymru i gryfhau'r system diogelu iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwaith penodol ar lefel Cymru a'r DU i ddysgu gwers o'r ymateb i Covid-19, gweithredu argymhellion Ymchwiliad Cyhoeddus Covd-19, a gwella cynllunio a pharodrwydd ar gyfer pandemigau yn y dyfodol. Byddwn yn darparu arweinyddiaeth systemau i gryfhau'r system diogelu iechyd ymhellach, gan gynnwys gwaith amlasiantaethol i weithredu gwersi o'r ymateb Covid-19 a'r Ymchwiliadau Cyhoeddus iddo.

Byddwn yn parhau i gynorthwyo Ymchwiliad Covid-19 y DU drwy lunio tystiolaeth gan dystion, tystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth lafar mewn Gwrandawiadau Cyhoeddus yn erbyn y 10 maes modiwl. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd ein Tîm Ymateb i'r Ymchwiliad Cyhoeddus yn gweithio gyda'n tîm cyfreithiol allanol i fodloni gofynion tystiolaethol yr Ymchwiliad. Byddant hefyd yn cydlynu ac yn cynorthwyo ein staff i baratoi a rhoi tystiolaeth i'r Ymchwiliad. Ar ôl cyhoeddi adroddiadau modiwl, byddwn yn sicrhau bod yr adroddiadau'n cael eu hystyried yn fanwl, mynd i'r afael ag argymhellion, cofnodi dysgu sefydliadol a'i weithredu yn ein proses cynllunio parodrwydd am argyfwng. Drwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod yr Ymchwiliad yn gallu gwneud argymhellion priodol sy'n ysgogi gwelliannau i'n hymateb parodrwydd am argyfwng lle y bo angen.

Gan gynorthwyo'r system iechyd ledled Cymru, rydym yn cynnig gwasanaethau cenedlaethol diogelu iechyd, labordy, clefydau heintus clinigol, genomeg pathogen a rheoli heintiau. Rydym yn darparu, yn monitro, ac yn gwerthuso saith rhaglen sgrinio sy'n seiliedig ar y boblogaeth ac yn cydlynu rhwydwaith clinigol a reolir Cymru gyfan ar gyfer sgrinio cynenedigol. Nod y rhaglenni hyn yw ceisio lleihau cyffredinrwydd clefydau neu wella diagnosis cynnar i leihau effaith y clefyd. Bydd y rhaglenni sgrinio yn archwilio ac yn mabwysiadu datblygiadau technolegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella darpariaeth gwasanaethau.

Mae darparu ansawdd gwasanaeth rhagorol ac ymdrechu am welliannau parhaus yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglenni newydd neu ddefnyddio offer a

thechnolegau arloesol i ddeall bygythiadau'n well ac ymateb yn well iddynt, gan gynorthwyo pobl i fyw bywydau hirach ac iachach yn y pen draw. Mae diogelu iechyd poblogaeth Cymru yn erbyn heintiau a bygythiadau amgylcheddol yn hanfodol i gyflawni Cymru iachach. Tynnodd pandemig Covid-19 sylw at bwysigrwydd diogelu ac amddiffyn iechyd, gan bwysleisio rôl anghydraddoldebau iechyd mewn risgiau amlygiad a chanlyniadau iechyd.

Mae canser yn un o achosion arweiniol marwolaeth yng Nghymru, ac mae modd gwella nifer o ganserau os byddant yn cael eu canfod yn gynnar a'u trin yn effeithiol. Rydym yn cefnogi atal sylfaenol drwy frechu HPV ac yn darparu tair rhaglen sgrinio canser sy'n seiliedig ar y boblogaeth. Rydym yn darparu, yn monitro, ac yn gwerthuso saith rhaglen sgrinio sy'n seiliedig ar y boblogaeth ac yn cydlynu rhwydwaith clinigol a reolir Cymru gyfan ar gyfer sgrinio cynenedigol. Nodau'r rhaglenni yw naill ai lleihau nifer yr achosion o glefyd (e.e. sgrinio serfigol) neu wella diagnosis cynnar i leihau effaith y clefyd (e.e. sgrinio'r fron). Bydd y rhaglenni sgrinio yn gweithio i archwilio a mabwysiadu'n brydlon unrhyw ddatblygiadau mewn technoleg sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella'r cynnig i'r boblogaeth yng Nghymru a darparu gwasanaethau rhagorol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru bennu cwmpas ac arfarnu rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint wedi'i thargedu ar gyfer unigolion risg uchel rhwng 55 a 74 oed. Mae gweithredu'r rhaglen yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid.

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020) yn tanlinellu'r Ddyletswydd Ansawdd i ddarparu gofal iechyd diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y person, amserol, effeithlon, a theg o fewn diwylliant dysgu. Nod Iechyd Cyhoeddus Cymru yw sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Cymru drwy ganolbwyntio ar degwch i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi pawb yng Nghymru i fyw bywydau iachach, hirach. Mae sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau sgrinio, brechu, diagnostig, a thriniaeth, yn hanfodol i sicrhau ansawdd gwasanaeth rhagorol.

Ceir rhagor o fanylion am gwmpas y flaenoriaeth hon yn ein Strategaeth Hirdymor.

### 3.5.2 Mesur ein cynnydd

Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, rydym yn gweithio tuag at gefnogi'r canlyniadau ar draws y system a nodir isod:

- Cynyddu cwmpas imiwneiddio i blant

  Nid yw canran y plant sy'n derbyn imiwneiddio rheolaidd ar oedrannau gwahanol wedi gweld fawr o welliant dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2023/24, roedd cyfran y plant a oedd wedi cael eu himiwneiddiadau diweddaraf erbyn 4, 5 a 15 oed wedi

gostwng[18], ac roedd y bwlch o ran cwmpas rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf wedi ehangu[19]. Byddwn yn gweithio tuag at gynyddu cwmpas:

- brechu '6 mewn 1' yn 1 oed (2023/24, roedd 94.2% o blant wedi derbyn pob un o'r tri dos o'r brechiad '6 mewn 1' difftheria, tetanws, pertwsis, polio, Hib a hepatitis B)

  Gostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac yn is na'r targed o 95%.
- Cwmpas MMR yn 2 oed (2023/24, roedd 92.9% o blant wedi derbyn o leiaf un dos o'r brechiad MMR erbyn 2 oed)

  Y targed yw 95%.
- Cwmpas HPV yn 15 oed (2023/24, cwmpas y cwrs un dos o'r brechiad HPV oedd 74.1% mewn plant sy'n cyrraedd 15 oed.)

  Mae cwmpas HPV wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n llawer is na'r targed o 90%.
- Cwmpas pob imiwneiddio rheolaidd erbyn 1 oed (93.1% yn 2023/24)
- Cwmpas pob imiwneiddio rheolaidd erbyn 2 oed (90.8% yn 2023/24)
- Cwmpas pob imiwneiddio rheolaidd erbyn 4 oed (84.6% yn 2023/24)
- Cwmpas pob imiwneiddio rheolaidd erbyn 5 oed (87.8% yn 2023/24)
- Cwmpas pob imiwneiddio rheolaidd erbyn 15 oed (62.2% yn 2023/24)

❖ Cyfran uwch o ganserau'n cael eu canfod ar gam cynnar

### 3.5.3 Cynnydd Cyflawni

Dros y 12 mis diwethaf, un o gyflawniadau nodedig y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy fu lansio'r rhaglen brechlyn feirws syncytiol anadlol (RSV) ledled Cymru, gan dargedu unigolion 75-79 oed a menywod beichiog gyda'r nod o leihau baich RSV yn sylweddol bob hydref. Mae datblygu'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol wedi parhau, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain y gwaith o greu safonau cenedlaethol newydd ar gyfer gwybodaeth am gleifion brechu ac ystorfa ar gyfer tystiolaeth ac arferion da.

Rydym wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i ddrafftio'r Fframwaith Diogelu Iechyd Cenedlaethol a chyhoeddi adroddiadau allweddol ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, feirysau a gludir yn y gwaed, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, ac ansawdd aer yn Withyhedge. Mae ymdrechion ar y cyd â rhaglenni amrywiol wedi galluogi modelu derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau oherwydd heintiau anadlol ymhlith preswylwyr cartrefi gofal. Cafodd ein hymdrechion cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu eu cydnabod gyda dwy wobr yng Ngwobrau DARE Cymru y Gymdeithas Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu ar gyfer ymgyrchoedd HIV.

---

[18] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Canran y plant sy'n derbyn brechlynnau yng Nghymru, Adroddiad Blynyddol COVER 2024. [Ar-lein]. 2024. Ar gael yn: https://publichealthwales.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/cover-national-childhood-immunisation-uptake-data/cover-archive-folder/annual-reports/vaccine-uptake-in-children-in-wales-cover-annual-report-2024/

[19] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Anghydraddoldebau o ran canran y rhai sy'n manteisio ar imiwneiddio i blant yng Nghymru 2023-24. [Ar-lein]. 2024. publichealthwales.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/cover-national-childhood-immunisation-uptake-data/cover-inequalities-reports/annual-inequalities-report-202324/

Mae ein rhaglenni sgrinio wedi gweld gweithredu swyddogaethau digidol newydd sy'n cynnwys elfennau carfannu ar gyfer sgrinio'r fron, e-atgyfeirio ar gyfer sgrinio llygaid diabetig, a rhannu hanes sgrinio ar draws ffin Cymru a Lloegr ar gyfer sgrinio serfigol. Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru wedi cyflwyno 40 o gamerâu newydd ar gyfer ffotograffiaeth retinol sy'n gwella ansawdd cipio delweddau gan alluogi adnabod cleifion â retinopathi diabetig yn well. Mae ein rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru wedi cwblhau optimeiddio yn llwyddiannus ac mae bellach yn cynnig sgrinio i oedolion 50-75 oed.

Rydym wedi cryfhau ein mesurau rheoli drwy sicrhau achrediad llwyddiannus ISO 15189 ar draws rhwydwaith labordai diagnostig cyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwasanaethau heintiau wedi'u cydnabod gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU Porton Down am weithredu ymateb rhwydwaith cyfan yn llwyddiannus i dwymyn gwaedlifol feirysol posibl. Yn ogystal, gwnaethom ddatblygu teipio cytras brech M o fewn pedair wythnos i gael ein hysbysu amdani.

Mae ein Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus wedi goruchwylio'r broses o ffurfio Uned Epidemioleg Genomig sydd wedi gweithio i ddadansoddi brigiadau o achosion a chynnal gwyliadwriaeth genomeg ar gyfer SARS-CoV-2, TB a HIV. Mae ein Huned Genomeg Pathogen wedi bod yn datblygu gwasanaethau newydd ar gyfer Mpox, RSV, a bacteria ymwrthedd gwrthficrobaidd. Yn olaf, mae ein tîm genomeg wedi chwarae rhan allweddol yn gweithio gyda'r Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn i ddarparu capasiti gweithredu cychwynnol i Gonsortiwm Fforensig Microbaidd y DU, sef canlyniad 11 Strategaeth Diogelwch Biolegol y DU.

Mae ein parodrwydd am argyfwng, ein gwydnwch, a'n hymdrechion ymateb yn cynnwys sefydlu gwasanaeth ar alw 24/7, cydlynu ymatebion i dros 60 o achosion lluosog, a chynnal ymarferion ymateb cenedlaethol mawr. Rydym hefyd wedi cael ein cydnabod fel rhan o strwythur llywodraethu CONTEST Cymru ac asesu parodrwydd y DU ar gyfer pandemigau.

Yn olaf, rydym wedi datblygu map llwybr strategol i arwain ein cynllunio, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu cydgysylltiedig â phobl yng Nghymru, cryfhau partneriaethau yn lleol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol, a chynorthwyo gwasanaethau i gyflawni canlyniadau'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r cyflawniadau hyn yn tanlinellu ein hymrwymiad i wella gwasanaethau iechyd cyhoeddus a'n gweledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

### 3.5.4 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni’r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni’r amcanion strategol canlynol:

SO5.1 Erbyn 2028, gan weithio’n agos gyda’n partneriaid, bydd gennym fodel gwasanaeth y cytunwyd arno sy’n cynnwys galluoedd triniaeth ddiagnostig newydd ar gyfer clefydau heintus ac sydd â’r capasiti a'r  sgiliau i gyflwyno ac ymgorffori arloesedd.

SO5.2 Erbyn 2028, byddwn yn darparu arweinyddiaeth systemau effeithiol a dibynadwy ar amrywiaeth o risgiau dynodedig, gan gynnwys heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, ymwrthedd gwrthficrobaidd a chlefydau y gellir eu hatal drwy frechu.

SO5.3 Erbyn 2028, byddwn wedi gwella'n barhaus ein gwasanaeth i'r cyhoedd a'r system iechyd cyhoeddus ehangach i leihau'r niwed iechyd sy'n gysylltiedig â pheryglon amgylcheddol a chynyddu'r enillion iechyd sy'n gysylltiedig â manteision amgylcheddol.

SO5.4 Erbyn 2028, byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu rhaglenni sgrinio poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU a Llywodraeth Cymru.

SO5.5 Erbyn 2028, byddwn wedi cwblhau ein cyfranogiad yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Covid-19, ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed mewn Adroddiadau Modiwl yr Ymchwiliad ac ymgorffori unrhyw ddysgu / gwelliannau i'n proses EPRR sy'n deillio o ganfyddiadau'r Ymchwiliad.

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO5.1 Erbyn 2028,** gan weithio'n agos gyda'n partneriaid, bydd gennym fodel gwasanaeth y cytunwyd arno sy'n cynnwys galluoedd triniaeth ddiagnostig newydd ar gyfer clefydau heintus ac sydd â'r capasiti a'r sgiliau i gyflwyno ac ymgorffori arloesedd. | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi cyflwyno panel Cyflym Esgyrn a Chymalau fel prawf diagnostig arferol sydd ar gael i fyrddau iechyd ledled Cymru. |
| | • Asesiad rhwydwaith 4 blynedd llawn ar gyfer pontio i Safonau Ansawdd newydd UKAS (ISO15189:22). |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi gweithredu LIMS 2 ar gyfer Gwasanaethau Heintiau fel rhan o'r Rhaglen Cymru Gyfan. |
| | • Cysoni cyflawni diagnostig rhwydwaith yn seiliedig ar ofal iechyd seiliedig ar werth a nodwyd ar gyfer nifer o ffrydiau gwaith a nodwyd. |
| | • Wedi cynnal adolygiad o'r ystad heintiau a datblygu argymhellion a chynllun gweithredu. |
| | • Gwella canlyniadau cleifion drwy nodi a derbyn profion am herpes, siffilis, brech M ac LGV drwy gyflwyno'r panel ULCER fel prawf diagnostig arferol sydd ar gael i fyrddau iechyd ledled Cymru. |
| | • Wedi gwella canlyniadau cleifion drwy nodi a derbyn profion am Mycoplasma Genitalium a Trichomonas Vaginalis drwy gynnig profion moleciwlaidd fel prawf diagnostig arferol sydd ar gael i fyrddau iechyd ledled Cymru. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi symud gweithgarwch genomeg pathogen yng Nghymru yn ei flaen drwy gwblhau a chyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Genomeg Pathogen a datblygu cynllun i gyflawni ein map ffordd Epidemioleg Genomeg. |
| | • Wedi cyflwyno llwybrau diagnostig â chymorth deallusrwydd artiffisial ar gyfer sgrinio parasitoleg ysgarthol samplau enterig. |
| | • Wedi gweithredu ac ymgorffori argymhellion o'r Adolygiad Gwasanaeth Tîm Diogelu Iechyd i wella effeithlonrwydd gwasanaeth, ansawdd a gwydnwch yn unol ag arfer gorau rhyngwladol. |
| | • Wedi hwyluso a galluogi trawsnewid busnes yn weithredol yn ymwneud ag atebion digidol ar gyfer eNOIDS, Tarian, SMS a'r e-restr y Tu Allan i Oriau a System Rheoli Gwybodaeth Labordy Prosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru (WEDINOS) i sicrhau gwell cynhyrchiant ar draws yr Is-adran Diogelu Iechyd. |
| | • Wedi ymgorffori systemau ar gyfer casglu a dadansoddi adborth gan gleifion a rhanddeiliaid yn rheolaidd er mwyn ysgogi ymgysylltu teg ac effeithiol. |
| | • Labordai Bwyd, Dŵr a'r Amgylchedd wedi gweithredu gofynion gwasanaeth Porthladdoedd a Ffiniau. |

| | |
|---|---|
| | • Strwythur Rhanbarthol wedi'i adlinio i gynnwys Labordai Gwib i gynorthwyo'r gwaith o ehangu repertoire profion yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth. |
| | • Wedi gweithredu strwythur addas at y diben ar gyfer Canolfan Feiroleg Arbenigol Cymru i ddarparu Gwasanaethau Diagnostig ac Iechyd Rhywiol. |
| | • Wedi ehangu adroddiadau naratif i gynnwys mathau ychwanegol o sbesimenau, gan gynnig canllawiau triniaeth pwrpasol, penodol i gleifion gyda'r nod o leihau sbesimenau amhriodol a gwella canlyniadau triniaeth. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi sefydlu trefniadau ffurfiol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu arfarniadau opsiynau yn unol â throsglwyddiad posibl gwasanaethau microbioleg y bwrdd iechyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | • Wedi sefydlu trafodaethau ffurfiol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gefnogi adolygiad mewnol gan y bwrdd iechyd o'r posibilrwydd o drosglwyddo gwasanaeth microbioleg Llwynhelyg i Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | • Wedi sefydlu trafodaethau ffurfiol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynorthwyo arfarniad o'r posibilrwydd o drosglwyddo gwasanaeth microbioleg y bwrdd iechyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | • Darparu systemau labordy awtomataidd drwy ddatblygu manylebau gwasanaeth ac Achos Busnes Llawn Llywodraeth Cymru. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi cefnogi ein parodrwydd ar gyfer pandemig a'n bioddiogelwch drwy ddatblygu gwasanaethau newydd (fel profion genomig sengl sy'n gallu nodi cannoedd o bathogenau posibl) a thrwy gefnogi rhannau eraill o'r system, fel Llywodraeth Cymru, i ddatblygu galluoedd genomeg strategol (fel dŵr gwastraff). |
| | • Wedi cynnal ymchwil i ddatblygu setiau data newydd, offer (e.e.. llwybrau a phrosesau ar gyfer gwasanaethau achrededig) a dulliau (fel gwerthuso deallusrwydd artiffisial ar gyfer nodweddu brigiad o achosion) a chefnogi'r agenda iechyd cyhoeddus byd-eang. |
| **SO5.2 -** Erbyn 2028, byddwn yn darparu arweinyddiaeth systemau effeithiol a dibynadwy ar amrywiaeth o risgiau dynodedig, gan gynnwys heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, ymwrthedd gwrthficrobaidd a chlefydau y gellir eu hatal drwy frechu. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn: Wedi cynnal dadansoddiad o allu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymateb i risgiau a nodwyd a fanylir yn yr Asesiad Risg Diogelwch Gwladol. |
| | • Wedi cysoni mentrau'r Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi (HARP) ag amcanion Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU (NAP) 2024-2029. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi arloesi a datblygu cymorth rhaglen HARP i iechyd a gofal yng Nghymru i'w galluogi i leihau heintiau Clostridioides difficile (CDI). |

| | |
|---|---|
| | • Wedi adnewyddu cynlluniau argyfwng a'u rhoi ar waith: Wedi datblygu Trefniadau Ymateb i Bandemig Iechyd Cyhoeddus Cymru a chael cymeradwyaeth amdanynt a'u dilysu (wedi cynllunio a chyflwyno ymarfer mewnol). |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o'r gweithlu presennol Atal a Rheoli Heintiau a gwerthuso eu gwydnwch ledled Cymru. |
| | • Wedi adolygu a phennu cwmpas Offer Archwilio Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd Cenedlaethol. |
| | • Wedi adolygu a phennu cwmpas allbynnau data gwyliadwriaeth defnydd gwrthficrobaidd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd. |
| | • Parhau i ddatblygu Gwasanaethau Profi Iechyd Rhywiol i ddiwallu anghenion y boblogaeth a nodwyd a chyfrannu at y targed o beidio â chael achosion newydd o drosglwyddo feirysau a gludir yn y gwaed yng Nghymru erbyn 2030, drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithredu gan ddefnyddio gwybodaeth, data, tystiolaeth ac arloesedd i hyrwyddo tegwch yn y ddarpariaeth brofi. |
| | • Wedi gweithio gydag eraill i helpu i leihau afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a marwolaethau drwy well dealltwriaeth o dueddiadau a niwed defnyddio sylweddau ledled Cymru. |
| | • Wedi symud tuag at lefel flaengar fframwaith Offeryn Datblygu Fesul Cam y Gymdeithas Ryngwladol o Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar gyfer gwyliadwriaeth digwyddiadau acíwt yn y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy. |
| | • Wedi cryfhau galluoedd gwyliadwriaeth drwy integreiddio gwyliadwriaeth anadlol yn unol â Mosaic a gwaith i baratoi ar gyfer pandemig, a chynnwys gwyliadwriaeth iechyd hinsawdd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn modelau gwyliadwriaeth. |
| | • Wedi monitro cynnydd yn unol â strategaeth dileu clefydau Llywodraeth Cymru ar gyfer y frech goch, polio, TB, BBV, HIV, Hep B a Hep C. |
| | • Wedi datblygu cynllun ar gyfer cymhwyso gwyliadwriaeth genomeg ar gyfer Iechyd Cyfunol yng Nghymru. |
| | • Wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau Cynllun Gweithredu TB Cymru Gyfan. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi sefydlu ac ymgorffori Rhaglen Anghydraddoldebau Diogelu Iechyd 'pob perygl' drwy ddatblygu gallu adrannol a chyfarwyddiaeth i nodi a lliniaru anghydraddoldebau iechyd, yn ogystal â gwerthuso ein camau gweithredu. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cynnal dadansoddiad o'r asesiad o'r gweithlu Atal a Rheoli Heintiau i ddatblygu argymhellion ar gyfer y proffil gweithlu gorau posibl ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau ledled Cymru. |
| | • Wedi datblygu, gweithredu, a gwerthuso Offer Archwilio Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd Cenedlaethol. |
| | • Wedi datblygu a gweithredu Cynllun Strwythurau Gwyliadwriaeth newydd a defnyddio fframweithiau newydd ar gyfer casglu ac adrodd data ar ddefnydd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd. |
| | • Wedi cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o brosesau arloesol cymorth CDI i feysydd eraill o waith rhaglen HARP. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi addasu ac ailflaenoriaethu gweithgareddau rhaglen HARP yn seiliedig ar gynnydd a chanlyniadau ymdrechion Cymru tuag at Gynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU (NAP) 2024-2029. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi llunio adroddiadau o'r offer archwilio i hysbysu gwasanaethau am ymarfer rhagnodi ar gyfer cyffuriau gwrthficrobaidd mewn gofal eilaidd. |
| | • Wedi gwerthuso'r strwythurau adrodd wedi'u haddasu ar gyfer gwyliadwriaeth defnydd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd. |
| **SO5.3 -** Erbyn 2028, byddwn wedi gwella'n barhaus ein gwasanaeth i'r cyhoedd a'r system iechyd cyhoeddus ehangach i leihau'r niwed iechyd sy'n gysylltiedig â pheryglon amgylcheddol a chynyddu'r enillion iechyd sy'n gysylltiedig â manteision amgylcheddol. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cryfhau trefniadau traws-sefydliadol ar gyfer rheoli parhad busnes: Wedi datblygu rhaglen o hyfforddiant parhad busnes a gweithgarwch ymarfer a oedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu trefniadau parhad busnes diwygiedig cyfarwyddiaeth. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi adnewyddu cynlluniau argyfwng a'u rhoi ar waith: Wedi adolygu Cynllun Ymateb i Argyfwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, ei ddiweddaru (a chael cymeradwyaeth) a'i ddilysu (wedi cynllunio a chyflwyno ymarfer mewnol). |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi rhannu gwybodaeth a chydweithredu ag ymatebwyr eraill i wella'r broses o gydlynu a chynnal trefniadau ar gyfer ymateb i argyfyngau: Wedi gweithio gyda phartneriaid o'r Fforymau Gwydnwch Lleol, Tîm Partneriaeth Gwydnwch Cymru a Fforwm Gwydnwch Cymru a Grŵp EPRR Iechyd Cyhoeddus y Pedair Gwlad i adolygu a diweddaru cynlluniau amlasiantaethol i ddatblygu ymhellach ar gyfer cysondeb ymateb – gan gynnwys cefnogi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i baratoi a chyflwyno cyfres o weithdai ac ymarferion pen bwrdd ynghylch yr ymarfer Haen 01 i asesu elfennau sylweddol o drefniadau parodrwydd, galluoedd, ac ymateb y DU yng nghyd-destun pandemig sy'n deillio o glefyd heintus newydd |
| | • Wedi cytuno ar 'amserlen gwasanaeth' Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol i Gymru er mwyn egluro rolau, trefniadau gwaith a llywodraethu Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gwella sefydlogrwydd, cynaliadwyedd a gwydnwch mewn gwasanaethau a ddarperir i ddiogelu a hybu iechyd cyhoeddus. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi ailalinio a gwella'r gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol i gynyddu'r capasiti ar gyfer gweithgareddau rhagweithiol, sy'n canolbwyntio ar atal, fel datblygu tystiolaeth a pholisi ar amlygiad i beryglon aer a dŵr, tra hefyd yn cryfhau rheoli digwyddiadau adweithiol. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi nodi'r hyn a ddysgwyd a gwneud newid yn seiliedig ar dystiolaeth ac arfer gorau: Ar gais Llywodraeth Cymru/Gweithrediaeth y GIG, wedi arwain y gwaith o ddatblygu a darparu Safon Graidd Gwydnwch ac Ymateb Parodrwydd am Argyfwng ar draws GIG Cymru, a fabwysiadwyd wedyn yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi nodi'r hyn a ddysgwyd a gwneud newid yn seiliedig ar dystiolaeth ac arfer gorau: Wedi cydlynu'r gweithgarwch sy'n ofynnol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â'r argymhellion o Fodiwl 01 Ymchwiliad Covid-19. |
| | • Wedi mabwysiadu fframwaith i werthuso cynnydd tuag at gyflawni gweledigaeth hirdymor y cytunwyd arni ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol. |
| SO5.4 - Erbyn 2028, byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu rhaglenni sgrinio poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU a Llywodraeth Cymru. | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi gwerthuso a dadansoddi cyfraddau marwolaethau yn y boblogaeth dros 65 oed cyn 2013 a chymharu hynny â dynion sydd wedi dod yn gymwys am sgrinio ymlediadau aortig abdomenol (AAA) ers 2013, yn unol â gwaith gwerthuso a gynhaliwyd gan bob un o 4 gwlad y DU. |
| | • Sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd ynghylch y Grŵp Ymchwil Sgrinio. Mae hwn yn gydweithrediad i gynnal ymchwil, cynhyrchu tystiolaeth, a hyfforddiant a datblygu o amgylch sgrinio a darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol cysylltiedig. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cynllunio argymhelliad manwl ynghylch gweithredu Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig ar gyfer Tyrosinemia Math 1 (cymeradwyaeth Pwyllgor Sgrinio Cymru). |
| | • Wedi datblygu'r adroddiad terfynol sy'n darparu arfarniad o opsiynau ac argymhelliad ar sut y gellir cyflwyno rhaglen genedlaethol sgrinio canser yr ysgyfaint yng Nghymru. |
| | • Wedi cwblhau'r flwyddyn olaf o optimeiddio sgrinio coluddion drwy gynnig sgrinio i bobl 50 oed a gwella sensitifrwydd y FIT sgrinio drwy leihau lefel derfyn y prawf. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi gweithredu LIMS 2 ar gyfer sgrinio fel rhan o'r Rhaglen Cymru Gyfan. |
| | • Wedi enwebu Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu a datblygu canllawiau arfer da i'w defnyddio yn y rhaglenni er mwyn gwella mynediad i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd ag anabledd dysgu. |
| | • Gweithredu darpariaeth gwyliadwriaeth MRI i fenywod y nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel iawn o ganser y fron ledled Cymru. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflwyno Strategaeth Tegwch Sgrinio wedi'i hadnewyddu i leihau annhegwch o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio fel rhan o ddull traws-sefydliadol at anghydraddoldebau iechyd ac mewn cydweithrediad â phartneriaid byrddau iechyd lleol. |
| | • Wedi parhau i weithredu Map Ffordd Trawsnewid Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) a fydd yn arloesi'r model darpariaeth gwasanaethau presennol ac yn galluogi trawsnewid digidol y rhaglen |
| | • Wedi parhau gwaith i bennu cwmpas opsiynau ar gyfer cyflwyno hunansamplu yn Sgrinio Serfigol Cymru, er mwyn gwella nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio a lleihau annhegwch. |
| | • Wedi gweithredu ceisiadau am brofion electronig ar gyfer samplau sgrinio serfigol. |
| | • Wedi pennu cwmpas cronfa ddata Archwiliad Canserau Sgrinio Serfigol Cymru (CSWACC) newydd yn lle'r system bresennol, i gynnwys symleiddio'r broses o goladu data o ffynonellau eraill (e.e. patholeg, colposgopi). |

| | |
|---|---|
| | • Wedi fflyd newydd o faniau DESW gan gynnwys cerbydau allyriadau is lle y bo'n ymarferol er mwyn cyfrannu at gyflawni amcanion Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru 2024/26. - Cam 1 (yn amodol ar gyllid Llywodraeth Cymru). |
| | • Wedi gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i ailddatblygu neu ddisodli systemau TG presennol Sgrinio Clyw Babanod Cymru Gyfan (AWNBHS) a Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru (NBSWS) fel galluogydd hanfodol er mwyn gwella ansawdd ac addasu gwasanaethau. |
| | • Wedi gwella prosesau sicrhau ansawdd ffurfiol yn Sgrinio Cyn Geni Cymru er mwyn rhoi sicrwydd o ddarparu gwasanaethau sgrinio o ansawdd uchel cyson i bob menyw a pherson beichiog. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu newid model gwasanaeth yn Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW) i'r model 'clir mewn un glust' (yn amodol ar gymeradwyaeth Pwyllgor Sgrinio Cymru). |
| **SO5.5 -** Erbyn 2028, byddwn wedi cwblhau ein cyfranogiad yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Covid-19, ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed mewn Adroddiadau Modiwl yr Ymchwiliad ac ymgorffori unrhyw ddysgu / gwelliannau i'n proses Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb sy'n deillio o ganfyddiadau'r Ymchwiliad. | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi paratoi ar gyfer a chefnogi Gwrandawiadau Cyhoeddus Modiwl 7 ar Brofi, Olrhain ac Ynysu. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi paratoi ar gyfer a chefnogi Gwrandawiadau Cyhoeddus Modiwl 6 ar y Sector Gofal. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cael yr Adroddiad Modiwl 2 cyfunol a rhoi proses ar waith i ymateb i'r argymhellion, er mwyn cofnodi gwersi a ddysgwyd a gwella prosesau. |
| | • Wedi paratoi ar gyfer a chefnogi Gwrandawiadau Cyhoeddus Modiwl 8 ar Blant a Phobl Ifanc. |
| | • Wedi paratoi ar gyfer a chefnogi Gwrandawiadau Cyhoeddus Modiwl 9 ar yr Ymateb Economaidd. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi paratoi ar gyfer a chefnogi Gwrandawiadau Cyhoeddus Modiwl 10 sy'n mynd i'r afael â'r Effaith ar Gymdeithas. |
| | • Wedi cael yr Adroddiad Modiwl 3 a rhoi proses ar waith i ymateb i'r argymhellion, er mwyn cofnodi gwersi a ddysgwyd a gwella prosesau. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cael yr Adroddiadau Modiwl a rhoi proses ar waith i ymateb i'r argymhellion, er mwyn cofnodi gwersi a ddysgwyd a gwella prosesau. |
| | 2027-2028 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cael yr Adroddiadau Modiwl a rhoi proses ar waith i ymateb i'r argymhellion, er mwyn cofnodi gwersi a ddysgwyd a gwella prosesau. |

# 3.6 Blaenoriaeth Strategol – Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus

## 3.6.1 **Cyflwyniad**

Mae newid hinsawdd yn cael ei gydnabod fel bygythiad iechyd cyhoeddus mwyaf arwyddocaol y ganrif, gan beryglu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant. Mae'n bygwth pob maes o fywyd sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni a chynnal iechyd da. Yn 2019 datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd i Gymru ac ym mis Hydref 2021 datganodd Sefydliad Iechyd y Byd mai newid hinsawdd yw'r bygythiad iechyd mwyaf sy'n wynebu'r ddynoliaeth.

Mae'r ddaear eisoes wedi cynhesu 1.1°c uwchben lefelau cyn yr oes ddiwydiannol o ganlyniad i weithgarwch pobl. Mae angen camau gweithredu brys i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5°c er mwyn atal niwed dinistriol i iechyd. Mae lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy ddewisiadau gwell o ran trafnidiaeth, bwyd ac ynni yn arwain at well iechyd – yn enwedig drwy leihau llygredd aer.

Mae effeithiau newid hinsawdd yn amlweddog, gan effeithio ar benderfynyddion cymdeithasol ac amgylcheddol iechyd (aer glân, diogelwch bwyd, cartrefi diogel, a mynediad at wasanaethau). Mae effeithiau newid hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo yng Nghymru, o ran bygythiadau corfforol i fywyd drwy ddigwyddiadau tywydd eithafol, yn ogystal â phryder sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Yn fyr, mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio'n andwyol ar iechyd pobl yng Nghymru a bydd yn parhau i wneud hynny ymhell i'r dyfodol.

Rydym yn gwybod bod rhai cymunedau yng Nghymru yn debygol o gael eu heffeithio'n fwy andwyol gan effeithiau newid hinsawdd nag eraill, a rhai yn llai tebygol o allu cymryd camau gweithredu i ymateb i'r effeithiau hyn. Er enghraifft, cartrefi incwm is mewn ardaloedd sy'n tueddu i ddioddef llifogydd, a'r rhai sy'n byw gydag anableddau a/neu gyflyrau cronig a'u gofalwyr. Yn hynny o beth, mae effeithiau newid hinsawdd yn debygol o waethygu anghydraddoldebau iechyd presennol yng Nghymru. Rhaid i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod polisïau ac ymyriadau addasu effeithlon a theg yn eu lle sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Rydym wedi nodi sawl elfen lle mae gennym rôl o ran cynorthwyo'r agenda newid hinsawdd a chynaliadwyedd, gan gynnwys datblygu, deall a dehongli'r dystiolaeth i lywio camau gweithredu, darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a darparu cyngor technegol integredig i bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol fel cyngor polisi, newid ymddygiad, cyfathrebu, gwyliadwriaeth, a chanllawiau.

Ceir rhagor o fanylion am gwmpas y flaenoriaeth hon yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 3.6.2 Mesur ein Cynnydd

Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, rydym yn gweithio tuag at gefnogi'r canlyniad ar draws y system a nodir isod:

- Lleihau'r gyfradd marwolaethau sy'n gysylltiedig â thymheredd
- Lleihau ôl troed carbon Iechyd Cyhoeddus Cymru

  Rydym yn datblygu ffyrdd o fesur y canlyniadau hyn fel y gallwn ddeall cyflwr presennol y dangosyddion hyn yng Nghymru a monitro ein cynnydd. Rydym yn disgwyl dechrau mesur y canlyniad hwn yng ngwanwyn 2025.

## 3.6.3 Cynnydd Cyflawni

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi cymryd camau breision o ran cryfhau partneriaethau allanol, gwella galluoedd gwyliadwriaeth, hybu ymchwil, a meithrin capasiti mewn hinsawdd ac iechyd. Mae ein cydweithrediad ag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ac Iechyd Cyhoeddus yr Alban wedi arwain at gytundeb ar gysoni metrigau a dulliau gwyliadwriaeth, ac mae fframwaith gweithredu'r Gymdeithas Ryngwladol o Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI) wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer ein map llwybr strategol. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â phartneriaid byd-eang allweddol, gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd, gan ehangu ein cydweithrediadau academaidd.

Ym maes gwyliadwriaeth, mae lansio is-grŵp penodol o fewn y Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu system gwyliadwriaeth hinsawdd ac iechyd ar gyfer Cymru. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gysoni ein hymdrechion gwyliadwriaeth yn rhyngwladol a meithrin partneriaethau academaidd gyda phrifysgolion yng Nghymru ac yn allanol.

Mae ymdrechion i feithrin capasiti wedi'u cryfhau drwy ein gwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach a Siarteri Teithio Iach. Yn ogystal, rydym wedi cyfrannu at gyhoeddiadau allanol allweddol, gan gynnwys mewnwelediadau demograffig ar newid hinsawdd ac iechyd ac adroddiad ar fynd i'r afael â phlastigau untro mewn labordai microbioleg.

## 3.6.4 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni’r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni’r amcanion strategol canlynol:

SO6.1 - Diogelu, hyrwyddo ac addysgu:

**Erbyn 2028**, byddwn wedi dod yn sefydliad sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, gan ddiogelu iechyd cyhoeddus drwy ddatblygu capasiti yn ein gweithlu ac eirioli dros fesurau addasu a lliniaru hinsawdd sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth.

SO6.2 - Ymateb a hwyluso camau gweithredu:

**Erbyn 2028,** byddwn wedi lleihau ein hôl troed carbon a gwerthuso effaith ein cynlluniau datgarboneiddio, gyda llwybr clir i sut y byddwn yn cyflawni carbon sero net erbyn 2030.

SO6.3 - Monitro a gwerthuso:

**Erbyn 2028,** bydd gennym system gwyliadwriaeth newid hinsawdd gadarn yn ei lle sy'n llywio camau gweithredu wedi'u targedu a phenderfyniadau polisi.

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO6.1** - Erbyn 2028 byddwn wedi dod yn sefydliad sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, gan ddiogelu iechyd cyhoeddus drwy ddatblygu capasiti yn ein gweithlu ac eirioli dros fesurau addasu a lliniaru hinsawdd sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cyflawni adolygiad o ddulliau sy'n mesur manteision economaidd iechyd o fesurau lliniaru ac addasu hinsawdd i lywio gwaith eiriolaeth yn y dyfodol. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu naratif hinsawdd cydlynol, wedi'i gefnogi gan gynllun cyfathrebu strategol, i sicrhau negeseuon cyson, clir ar draws yr holl randdeiliaid mewnol ac allanol a'r cyhoedd. |
| | • Wedi hwyluso a chefnogi'r gwaith o fabwysiadu a monitro Siarteri Teithio Iach ledled Cymru (yn dibynnu ar gyllid). |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur drwy eu cynlluniau addasu a/neu lesiant lleol. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr, barhaus i rymuso staff ar bob lefel i ddod yn llythrennog o ran hinsawdd a chynaliadwyedd yn y sefydliad, gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i integreiddio cynaliadwyedd ym mhob maes o'n hymarfer a'n penderfyniadau. |
| **SO6.2 -** Erbyn 2028 byddwn wedi lleihau ein hôl troed carbon a gwerthuso effaith ein cynlluniau datgarboneiddio, gyda llwybr clir i sut y byddwn yn cyflawni carbon sero net erbyn 2030. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu ein Hadroddiad Bioamrywiaeth nesaf mewn ymateb i well dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, gan eirioli dros fwy o fynediad i fannau gwyrdd bioamrywiol a hyrwyddo cyd-fanteision adfer natur, gwydnwch hinsawdd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. |
| | • Wedi datblygu ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2026-28 er mwyn sicrhau llwybr tuag at nod Llywodraeth Cymru o gyflawni sero net erbyn 2030. |
| | 2026-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu ac ymgorffori ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2026-28 er mwyn sicrhau llwybr tuag at nod Llywodraeth Cymru o gyflawni sero net erbyn 2030. |
| **SO6.3 -** Erbyn 2028 bydd gennym system gwyliadwriaeth newid | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi sefydlu system gwyliadwriaeth newid hinsawdd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus, gan sicrhau casglu data cadarn i fonitro risgiau hinsawdd ac effeithiau ar iechyd. |

| | |
|---|---|
| hinsawdd gadarn yn ei lle sy'n llywio camau gweithredu wedi'u targedu a phenderfyniadau polisi. | • Wedi cryfhau partneriaethau gyda sefydliadau academaidd i nodi bylchau ymchwil ac ehangu'r sylfaen wybodaeth hinsawdd-iechyd, gan ganolbwyntio ar feysydd penodol o ddiddordeb i Gymru. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gwella'r system gwyliadwriaeth newid hinsawdd drwy integreiddio cynhyrchion pellach a chryfhau partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol i lywio camau gweithredu iechyd cyhoeddus. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi gwerthuso effaith y system gwyliadwriaeth newid hinsawdd ac i ba raddau y mae'n cyd-fynd â chamau gweithredu iechyd cyhoeddus. |

## 3.7 Galluogi cyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus

Byddwn yn galluogi ac yn sbarduno gwaith i gyflawni ein Cynllun Strategol drwy groesawu dulliau digidol a data mwy ystwyth. Mae ein hadran galluogi hefyd yn adlewyrchu, lle y bo'n berthnasol, gweithgarwch galluogi Ysgrifennydd y Cabinet, yn enwedig mewn perthynas â digidol, gweithlu a chyllid. Byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'r effaith fwyaf posibl drwy adeiladu ar ddulliau arloesol sy'n gweithio, gan roi defnyddwyr wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud a thrwy ganolbwyntio'n ddiwyro ar wella ansawdd. Mae ein gwaith i alluogi ein Cynllun Strategol i gael ei gyflawni'n llwyddiannus yn dod dan y meysydd canlynol:

- Defnyddio gwyddor ymddygiad a phartneriaethau rhyngwladol i ysgogi ansawdd a chydweithredu
- Datblygu ein sefydliad i fod yn lle gwych i weithio
- Gwneud y defnydd mwyaf o ddulliau digidol, data a thystiolaeth i wella iechyd cyhoeddus
- Creu'r amodau a'r strwythurau i fod yn sefydliad sy'n gwella ac yn dysgu'n barhaus i ysgogi ansawdd, ymgysylltu a chydweithredu
- Cyflawni gwerth a gwella ein perfformiad a'n gwaith cyflawni

### 3.7.1 Defnyddio gwyddor ymddygiad a phartneriaethau rhyngwladol i ysgogi ansawdd a chydweithredu

Fel un o Ganolfannau Cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, mae ein gwaith yn canolbwyntio ar y ffordd orau o fuddsoddi mewn gwell iechyd, lleihau anghydraddoldebau a meithrin cymunedau cryfach a systemau gwydn yng Nghymru, Ewrop a ledled y byd. Rydym yn eirioli dros bolisïau mwy cynaliadwy, yn croesawu egwyddorion hawliau dynol, ymyriadau ar sail tegwch a thystiolaeth ac yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym yn ceisio bod ar flaen y gad o ran arweinyddiaeth ac eiriolaeth iechyd cyhoeddus, gan ddarparu tystiolaeth ar gyfer gweithredu, yn ogystal â chymorth uniongyrchol i randdeiliaid er mwyn gwella effaith ac ansawdd gweithgareddau iechyd cyhoeddus ledled Cymru a thu hwnt. Ein nod yw sicrhau bod gwersi a ddysgir yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol o bolisïau, ymchwil ac arferion yn cael eu dwyn ynghyd i gefnogi ein partneriaid yng Nghymru.

Mae gweithgarwch i wella a diogelu iechyd a lleihau annhegwch iechyd bron bob amser yn dibynnu ar unigolion yn mabwysiadu ymddygiad newydd – boed hynny'n aelodau o'r cyhoedd neu o grwpiau proffesiynol. Gwyddor ymddygiad yw'r astudiaeth systematig o ymddygiad, beth sy'n ei alluogi, beth sy'n ei atal, a'r ffordd orau o'i ennyn. Mae deall sut a pham mae pobl yn ymateb i wahanol amgylchiadau ac amgylcheddau,

yn hytrach na dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch sut y dylent weithredu, yn gwella'r siawns o wireddu amcan polisïau, gwasanaethau a chyfathrebu – ac felly o wella a diogelu iechyd a llesiant, a lleihau annhegwch. Mae'r Uned Gwyddor Ymddygiad yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r defnydd rheolaidd a systematig o offer, fframweithiau a damcaniaeth ymddygiadol i ysgogi arloesedd ac effaith. Drwy ddarparu cyngor a chymorth technegol; adborth cyflym ar bolisi, gwasanaethau a chyfathrebu; meithrin gallu ar gyfer defnyddio gwyddor ymddygiad; ac eiriolaeth ac ymgysylltu mae'r Uned yn galluogi gwelliant parhaus mewn ansawdd ar draws y system iechyd cyhoeddus.

Mae ein Strategaeth Iechyd Ryngwladol yn sail i'n gwaith, sy'n cefnogi ein rôl genedlaethol a'n blaenoriaethau strategol, gan sicrhau bod Cymru yn parhau'n arweinydd byd-eang ym maes iechyd cyhoeddus drwy feithrin partneriaethau ac ysgogi effaith ar draws ffiniau. Ein gweledigaeth iechyd rhyngwladol yw i fod yn sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol sydd wedi'i gysylltu'n fyd-eang ac sy'n ysbrydoli, gan weithio tuag at Gymru iachach a thecach i fynd i'r afael â heriau byd-eang a nodau cyffredin. Gall gwaith iechyd rhyngwladol amrywio o bartneriaethau ymchwil, rhannu gwybodaeth ar y cyd, i hyfforddiant ar y cyd a chydweithio ar brosiectau a gweithgareddau eraill. Gall y gwersi a ddysgir o hyn wella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau i bobl Cymru. Gall ein cynorthwyo i fod yn asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol sy'n gysylltiedig yn fyd-eang, defnyddio dulliau arloesol a'n harbenigedd rhyngwladol, gan helpu i atal clefydau, hyrwyddo a diogelu iechyd a darparu arweinyddiaeth systemau.

**SO7.1 Erbyn 2028,** bydd partneriaethau iechyd ac ymchwil rhyngwladol a gwersi ar draws y sefydliad a GIG Cymru yn cael eu cryfhau er mwyn helpu i wella llesiant a thegwch iechyd yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein partneriaethau, cydweithredu a chydweithio rhyngwladol, gan gyfrannu at yr Agenda Iechyd Fyd-eang drwy arbenigedd, tystiolaeth a thrafodaethau. Byddwn yn ymdrechu i wneud y mwyaf o'n cyfraniad i greu 'Cymru Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang, Iachach, Lewyrchus a Mwy Cyfartal', yn ogystal â hyrwyddo'r pum ffordd o weithio, drwy eirioli dros bartneriaeth ryngwladol, dysgu a rhannu arferion gorau, sefydlu cymuned ymarfer er mwyn helpu i wella llesiant a thegwch iechyd yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Byddwn yn gweithio ar draws y sefydliad a chyda'n partneriaid i ategu gwaith i gyflawni Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwneud y mwyaf o effaith y Ganolfan Cydgysylltu Iechyd Ryngwladol ar draws y GIG, gan ddatblygu a rhannu cyfleoedd, offerynnau ac adnoddau, fel y modiwlau Dinasyddiaeth Fyd-eang, pecynnau cymorth, interniaethau, ymweliadau astudio ac eraill.

**SO7.2 Erbyn 2028,** byddwn wedi cynyddu'r defnydd rheolaidd o wyddor ymddygiad mewn polisi ac ymarfer, i optimeiddio'r effaith ar iechyd a llesiant.

Gan gydnabod yr effaith gynyddol y gall defnyddio gwyddor ymddygiad ei chael, bydd ein Huned Gwyddor Ymddygiad yn parhau i feithrin arbenigedd, galluoedd ehangach, a galluogi gweithgarwch yn y maes hwn, i wella iechyd a llesiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO7.1 -** Erbyn 2028, bydd partneriaethau iechyd ac ymchwil rhyngwladol a gwersi ar draws y sefydliad a GIG Cymru yn cael eu cryfhau er mwyn helpu i wella llesiant a thegwch iechyd yn genedlaethol ac yn fyd-eang. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi sicrhau ailddynodi WHOCC, gan atgyfnerthu rôl Cymru fel dylanwadwr byd-eang a safle arloesi byw ar gyfer llesiant a buddsoddi mewn tegwch iechyd. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi ymgorffori dull Dyfodol ar draws y sefydliad, meithrin gallu, integreiddio meddwl hirdymor, a defnyddio sganio'r gorwel rhyngwladol er mwyn mynd i'r afael â heriau tegwch iechyd. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi cynyddu gwerth ac effaith partneriaethau iechyd rhyngwladol ar draws GIG Cymru, gan baratoi, rhannu gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau o bob rhan o'r DU ac yn fyd-eang. |
| | • Wedi cefnogi ein Strategaeth Hirdymor i ymarfer drwy weithredu ein Strategaeth Iechyd Rhyngwladol a galluogi cyfleoedd datblygu a gwella i'r staff a'r sefydliad. |
| **SO7.2 -** Erbyn 2028, byddwn wedi cynyddu'r defnydd rheolaidd o wyddor ymddygiad mewn polisi ac ymarfer, i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar iechyd a llesiant, diogelu a gwella iechyd, i leihau annhegwch. | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi datblygu rhaglen i ddefnyddio a phrofi gwyddor a chynllunio ymddygiad i sicrhau'r cyfathrebu uniongyrchol gorau posibl â defnyddwyr gwasanaethau. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi datblygu rhaglen datblygu gallu aml-lefel er mwyn cynyddu'r defnydd rheolaidd o wyddor ymddygiad. |
| | • Wedi sefydlu dulliau o ddefnyddio gwyddor ymddygiad mewn meysydd blaenoriaeth i optimeidido ansawdd mewn gofal iechyd. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu ac optimeiddio prosesau i ddarparu cyngor, ymgynghori a chymorth gweithredu gwyddor ymddygiad ymatebol. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu a gweithredu'r Rhaglen Effaith sy'n ystyriol o Ymddygiad, gan ddarparu cymorth wedi'i dargedu, dwys i fentrau sefydliadol allweddol er mwyn ymgorffori gwyddor ymddygiad yn effeithiol. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi datblygu dulliau i alluogi mwy o ddefnydd rheolaidd o ddata ar benderfynyddion ymddygiadol, wrth gynllunio a chyflwyno ymyriadau iechyd cyhoeddus. |

## 3.7.2 Datblygu ein sefydliad i fod yn lle gwych i weithio

**SO7.3 Erbyn 2028,** byddwn wedi datblygu a gweithredu dulliau i ddenu a recriwtio gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli cymunedau Cymru, gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd i gyflawni gweledigaeth y sefydliad ar gyfer Cymru iachach.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Ehangu mynediad i yrfaoedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy lwybrau mynediad i'r rhai nad ydynt yn raddedigion fel prentisiaethau; rhaglenni profiad gwaith a digwyddiadau gyrfa; a hyrwyddo'n weithredol rolau rhannu swyddi a rhan-amser.
- Datblygu a gweithredu dulliau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau penodol, a chryfhau perthnasoedd gydag ysgolion a'r byd academaidd i godi ymwybyddiaeth o Iechyd Cyhoeddus Cymru fel cyflogwr o ddewis.
- Ystyried sgiliau a gwybodaeth sy'n cyfateb i gymwysterau ffurfiol, gan amlygu gwerthoedd ac ymddygiad sefydliadol a galluogi pobl i weithio ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n gweddu i'w hanghenion a'u dewisiadau.

**SO7.4 Erbyn 2028,** byddwn wedi creu rhaglen datblygu cynaliadwy, sy'n cael ei llywio gan gynllunio cadarn ar gyfer y gweithlu, sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol a sgiliau data digidol a thechnoleg i'r gweithlu i fynd i'r afael yn effeithiol â'r dirwedd iechyd cyhoeddus sy'n datblygu.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â sgiliau prin a sgiliau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cynlluniau datblygu mewnol, a chreu rhaglen datblygu sgiliau cynaliadwy sy'n cefnogi'r blaenoriaethau strategol.
- Cydweithio ag AaGIC, sefydliadau academaidd, a chyrff proffesiynol i foderneiddio'r system gofrestru ac addysg a dylanwadu ar gynllun, comisiynu, a chynaliadwyedd darpariaeth addysg berthnasol.
- Datblygu ymarfer uwch ar draws amrywiaeth o rolau.
- Galluogi dysgu a datblygu parhaus sy'n cefnogi dysgu gydol oes a thwf proffesiynol.

**SO7.5 Erbyn 2028,** byddwn wedi ymgorffori dull arweinyddiaeth tosturiol a chynhwysol, gan atgyfnerthu ein diwylliant sefydliadol a ddymunir, sy'n amlwg mewn ymddygiad a gweithredoedd bob dydd, ar bob lefel o'r sefydliad.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod yr holl bolisïau a phrosesau pobl a datblygu sefydliadol yn adlewyrchu ein diwylliant a ddymunir ac yn galluogi arweinyddiaeth dosturiol.
- Datblygu cyflenwad rheoli ac arweinyddiaeth cynaliadwy ac amrywiol ar bob lefel, gan roi'r sgiliau, y wybodaeth, a'r hyder i reolwyr ac arweinwyr fodelu'r ymddygiad a ddymunir a meithrin amgylchedd cynhwysol a seicolegol ddiogel.

- Darparu gwybodaeth amserol a gweithredadwy am ddiwylliant ac ymgysylltu i reolwyr ac arweinwyr fel y gallant gymryd perchnogaeth a throsi diwylliant a gwerthoedd sefydliadol yn ymddygiad a gweithredoedd.
- Creu gweithle seicolegol ddiogel a diddorol lle mae ein gwerthoedd, ein hymddygiad a'n harweinyddiaeth dosturiol yn cael eu meithrin ar bob lefel, gan alluogi ein pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i gyfrannu eu gorau.

**SO7.6 Erbyn 2028,** byddwn wedi creu profiad staff sy'n blaenoriaethu llesiant, gweithio hyblyg, cyfleoedd i ddatblygu gyrfa, gan wneud Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyflogwr o ddewis.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Deall anghenion a disgwyliadau newidiol ein pobl ac ymateb iddynt, yn enwedig o ran trefniadau gweithio hyblyg a datblygiad gyrfa.
- Annog sgyrsiau agored am yrfaoedd a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi drwy gydol eu gyrfaoedd.
- Normaleiddio gweithio hyblyg ac ystwyth a rhoi'r sgiliau a'r adnoddau i reolwyr a staff i gydbwyso anghenion y gwaith, y tîm, ac unigolion yn unol ag egwyddorion Gweithio lle a sut mae'n gweithio orau.
- Blaenoriaethu iechyd a llesiant staff, gan fynd i'r afael yn weithredol ag achosion sefydliadol diffygio'n llwyr a darparu mynediad i adnoddau iechyd meddwl a chymorth llesiant.

**SO7.7 Erbyn 2028,** bydd gennym strwythur trefnus sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gyda rolau a chyfrifoldebau cyson, cynllunio'r gweithlu wedi'i optimeiddio a'r gallu i ddefnyddio adnoddau lle y bo angen, gan leihau seilos ac adeiladu cydweithredu a gweithio trawsffiniol.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Ymgorffori ein Hegwyddorion Cynllun Sefydliadol.
- Optimeiddio ein cynllun sefydliadol, gan sicrhau bod y galw am weithlu yn y dyfodol a blaenoriaethau strategol yn cyd-fynd â'i gilydd.
- Integreiddio prosesau cynllunio gweithlu ac ariannol i sicrhau cyllid cynaliadwy, wedi'i flaenoriaethu, sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r gweithlu.
- Ymgorffori'r dull Teulu Swyddi

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO7.3 -** Erbyn 2028, byddwn wedi datblygu a gweithredu dulliau i ddenu a recriwtio gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli cymunedau Cymru, gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd i gyflawni gweledigaeth y sefydliad ar gyfer Cymru iachach. | 2025-2026 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi datblygu cynllun gweithredu Strategaeth Pobl 2035, mapio cyflawni i flynyddoedd 2 a 3 y Cynllun Strategol, sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer cynllunio olyniaeth a rheoli talent yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi ailddatblygu ac ail-lansio brand cyflogwr Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio mewnbynnau gan gynnwys ein datganiad gwerth cyflogeion, diwylliant delfrydol a chynlluniau gweithlu. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu'r weledigaeth ar gyfer cynllunio olyniaeth a rheoli talent yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi gwerthuso cynnydd gyda thema denu talent a chyflogi cynhwysol Strategaeth Pobl 2035. |
| **SO7.4 -** Erbyn 2028, byddwn wedi creu rhaglen datblygu cynaliadwy, sy'n cael ei llywio gan gynllunio cadarn ar gyfer y gweithlu, sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol a sgiliau data digidol a thechnoleg i'r gweithlu i fynd i'r afael yn effeithiol â'r dirwedd iechyd cyhoeddus sy'n datblygu. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu'r weledigaeth i sefydlu Teuluoedd Swyddi yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | • Wedi datblygu ac ymgorffori swyddogaeth Hyfforddiant ac Arweiniad amlddisgyblaethol, gynaliadwy ac ansawdd uchel i gynnwys hyrwyddo Gwyddorau Ymddygiad i gynnig fframwaith teg sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar draws yr Is-adran Diogelu Iechyd. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cynnal adolygiad strategol o ofynion gweithlu Iechyd Cyhoeddus Cymru i brif ffrydio genomeg mewn ymateb i strategaeth gweithlu genomeg AaGIC. |
| **SO7.5 -** Erbyn 2028, byddwn wedi ymgorffori dull arweinyddiaeth tosturiol a chynhwysol, gan atgyfnerthu ein diwylliant sefydliadol a ddymunir, sy'n amlwg mewn ymddygiad a gweithredoedd bob dydd, ar bob lefel o'r sefydliad. | 2025-2026 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi datblygu dull rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar gyflawni, twf, datblygu, a chydnabyddiaeth, cynllun ar gyfer gweithredu a sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu a sefydlu rhaglen waith systemig a fydd yn cynyddu sgiliau arwain a rheoli, capasiti a hyder gan gynnwys dysgu ffurfiol. |

| | |
|---|---|
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu dull rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar gyflawni, twf, datblygu, a chydnabyddiaeth. |
| | • Wedi ailasesu'r diwylliant sefydliadol a symud tuag at gyflawni diwylliant delfrydol gan ddefnyddio'r Rhestr Diwylliant Sefydliadol (OCI). |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y dull newydd o reoli perfformiad. |
| **SO7.6** - Erbyn 2028, byddwn wedi creu profiad staff sy'n blaenoriaethu llesiant, gweithio hyblyg, cyfleoedd i ddatblygu gyrfa, gan wneud Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyflogwr o ddewis. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi datblygu'r map ffordd ar gyfer sut y byddwn yn creu profiad staff sy'n blaenoriaethu llesiant, gweithio hyblyg, cyfleoedd i ddatblygu gyrfa ac sy'n gwneud Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyflogwr o ddewis. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu'r map ffordd profiad y gweithiwr. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y map ffordd profiad y gweithiwr. |
| **SO7.7** - Erbyn 2028, bydd gennym strwythur sefydliadol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gyda rolau a chyfrifoldebau cyson, cynllunio'r gweithlu wedi'i optimeiddio a'r gallu i ddefnyddio adnoddau lle y bo angen, gan leihau seilos ac adeiladu cydweithredu a gweithio trawsffiniol. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu cynllun gweithlu strategol a gweithredol fel elfen ymgorfforedig o'r broses gynllunio integredig. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi datblygu dull integredig o gynllunio'r gweithlu sy'n cwmpasu'r Blaenoriaethau Strategol a'r Teuluoedd Swyddi ac sy'n sail i raglen datblygu sgiliau gynaliadwy, aml-flwyddyn. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gwerthuso mabwysiadu ac effeithiolrwydd cynllunio'r gweithlu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. |

## 3.7.3 Gwneud y defnydd mwyaf o ddulliau digidol, data a thystiolaeth i wella iechyd cyhoeddus

**SO7.8 Erbyn 2028,** byddwn yn darparu'r dystiolaeth data, dadansoddi, ymchwil a gwerthuso i wella iechyd a llesiant Cymru a chynorthwyo heriau anghydraddoldeb.

Nid yw'r GIG yng Nghymru yn casglu'n systematig y data angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n deg ac yn gwella canlyniadau ymhlith yr holl boblogaethau. Ni allwn fonitro anghydraddoldebau iechyd na chwynion defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol, ac mae ein gallu i adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd yn wan. Byddwn yn pennu bylchau mewn tystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i wella iechyd a lleihau annhegwch drwy ein Gwasanaeth Tystiolaeth. Yna, mewn cydweithrediad â'n His-adran Ymchwil a Gwerthuso, byddwn yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen ymchwil a gwerthuso sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau ar gyfer anghenion tystiolaeth y llywodraeth a defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fonitro a gwerthuso effaith camau gweithredu polisi iechyd cyhoeddus allweddol ar iechyd, gan gynnwys Pwysau Iach: Cymru Iach, a rheoli tybaco
- gwerthuso Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan
- ymchwil a gwerthuso sy'n ategu'r strategaeth iechyd meddwl newydd
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i wella'r sylfaen dystiolaeth a dealltwriaeth o'r dystiolaeth ar gyfer polisïau iechyd cyhoeddus allweddol

Byddwn yn parhau i fonitro effeithiau'r pandemig, a straen arall ar iechyd, fel yr argyfwng costau byw, gordewdra a newid hinsawdd, ar draws yr holl agweddau ar iechyd y boblogaeth. Byddwn yn cefnogi datblygiad ymchwil yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyson â'n cryfderau ac yn parhau i ddylanwadu ar y dirwedd ymchwil ehangach a chyllidwyr i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth mewn meysydd blaenoriaeth ar gyfer iechyd yng Nghymru. Byddwn yn ceisio dylanwadu ar yr agenda ymchwil ehangach i gynghori ynghylch mynd i'r afael â gofynion y tu allan i'n cylch gwaith presennol. Byddwn yn parhau i ddatblygu dangosfwrdd sy'n galluogi monitro Covid-19 amser iawn, clefydau anadlol a throsglwyddadwy eraill, ymddygiad sy'n niweidio iechyd, llesiant, effeithiau baich clefyd ar grwpiau eraill, e.e. canser, a chydraddoldeb. Bydd hyn yn ein symud yn nes at fonitro amser real ar gyfer bygythiadau iechyd cyhoeddus. Byddwn yn:

- Sicrhau bod ein data wedi'u cysylltu â Chyfrifiad 2021 cyn gynted â phosibl ar ôl i ganlyniadau'r Cyfrifiad fod ar gael a dadansoddi'n systematig yr holl agweddau ar iechyd a chydraddoldeb sy'n cwmpasu nodweddion gwarchodedig, cyflogaeth, a statws economaidd-gymdeithasol.
- Gweithio gyda DHCW ac arweinwyr y GIG i weithredu'r prosesau systematig i sicrhau bod data i fonitro cyfraddau hawlio, canlyniadau a chydraddoldeb yn cael eu casglu fel mater o drefn a'u bod ar gael i'w dadansoddi ar draws y GIG yng Nghymru.

- Adolygu’n systematig a gwella’r defnydd o wybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ein holl allbynnau.
- Sicrhau bod ein holl gasgliadau data yn casglu gwybodaeth cydraddoldeb yn systematig ac yn ddiogel, wedi’i safoni pan fo’n briodol ar ddiffiniadau Cyfrifiad 2021.

Byddwn yn cynyddu ein ffocws ar werthuso wrth i ni geisio cymhwyso a datblygu methodolegau sy’n gwneud y defnydd gorau o ddata, mewnwelediadau ansoddol ac economaidd i ddeall yn well pa ymyriadau sy’n cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau iechyd, yn enwedig i boblogaethau sydd mewn mwy o berygl. Byddwn yn grymuso arweinwyr ymchwil i ddarparu rhagoriaeth ymchwil yn y sefydliad ac mewn partneriaeth ag eraill; yn canolbwyntio ar fynd i’r afael â bylchau mewn gwybodaeth yn unol â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus a chyda chymorth model llywodraethu integredig, effeithlon ac effeithiol.

**SO7.9 Erbyn 2028,** byddwn yn ceisio gwella ein darpariaeth gwasanaethau digidol modern a hygyrch, sy’n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau i wella iechyd a llesiant pobl Cymru.

Er mwyn cynorthwyo'r system i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru, mae arnom angen system ryng-gysylltiedig o ddata, mewnwelediad a chymwysiadau sy’n galluogi gwybodaeth amser iawn i fod yn hygyrch ac yn weithredadwy i’n defnyddwyr. Byddwn yn ceisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael i ni drwy wella ein hasedau data presennol, gan ddod â nhw at ei gilydd i harneisio mewnwelediadau iechyd yn well ac arloesi ar yr un pryd gyda thechnolegau newydd yn casglu data newydd megis gan synwyryddion a thechnoleg wisgadwy i ddarparu gwyddor data broffesiynol i sbarduno darpariaeth reng flaen. Byddwn yn archwilio’r defnydd o setiau data trydydd parti i wella ein dealltwriaeth o ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Byddwn yn gweithio ar y cyd â DHCW ar yr Adnodd Data Cenedlaethol. Fel rhan o hyn, byddwn yn edrych ar sut y gellir defnyddio'r Adnodd Data Cenedlaethol i ddatblygu map llwybr ar gyfer storio data wedi'u rhesymoli, cysylltu data effeithlon (lle y mae'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn foesegol i wneud hynny) a dadansoddi i ddarparu ystad ddata symlach a mwy effeithlon wedi'i hategu gan set lai o offer dadansoddi strategol. Byddwn yn defnyddio ein galluoedd gwyddor data, gan gynnwys dadansoddeg ragfynegol. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i ni rannu rhagor o wybodaeth weithredadwy ansawdd uchel amser real a manwl gywir â gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol ynghylch pwy i’w targedu mewn dull gweithredu ataliol a chynaliadwy poblogaeth gyfan.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cynnal cyfres o brosiectau darganfod i'n meysydd digidol allweddol gan gwmpasu sgrinio, diogelu iechyd, cofrestrau a'n hystad ar y we. Mae'r darganfyddiadau hyn yn ein galluogi i edrych ar sut rydym yn symud i ffwrdd o un system TG fesul rhaglen i sut rydym yn sicrhau bod gennym y swyddogaeth gywir wedi'i hadeiladu o swyddogaeth gyffredin neu'n ei defnyddio. Drwy hyn byddwn yn gweithio gyda:

- DHCW i sefydlu sut y gall eu seilwaith cenedlaethol gynorthwyo uchelgeisiau digidol Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy Ap GIG Cymru a datblygiadau eraill.

- Llywodraeth Cymru i sefydlu'r cyllid priodol i ddatblygu canlyniadau'r cam darganfod Diogelu Iechyd a sicrhau y gallwn foderneiddio ein systemau sgrinio gan ganolbwyntio ar ganser y fron a chanser y coluddyn dros gyfnod y Cynllun Strategol hwn.

Byddwn yn cynyddu ein heffaith drwy wella ein dealltwriaeth o'n cynulleidfaoedd, gan ganolbwyntio ar werthusiad defnyddwyr a chynllunio gwasanaeth. Drwy ddefnyddio personâu defnyddwyr, bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu cynhyrchion a thystiolaeth a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Byddwn yn monitro ein llwyddiant drwy weithredu dull systematig ar gyfer monitro effaith.

# Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO7.8 -** Erbyn 2028, byddwn yn darparu'r dystiolaeth data, dadansoddi, ymchwil a gwerthuso i wella iechyd a llesiant Cymru a chynorthwyo heriau anghydraddoldeb. | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi datblygu a gweithredu proses Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio (HPSS) i nodi anghenion adolygiad tystiolaeth allweddol ar draws y gyfarwyddiaeth i gynorthwyo a blaenoriaethu ceisiadau i wasanaethau adolygu tystiolaeth, fel swyddogaeth fewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. |
| | Chwarter 2 |
| | • Rhaglen o ymchwil data cysylltiedig unigol wedi'i hymgorffori ar draws blaenoriaethau strategol, wedi'i datblygu mewn partneriaeth â sefydliadau allanol. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi sefydlu cydweithrediadau strategol effeithiol gyda'r byd academaidd a sectorau eraill i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a chyflawni ymchwil iechyd cyhoeddus, sy'n ymateb i flaenoriaethau sefydliadol. |
| | • Wedi datblygu system fesur sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflwyno rhaglen werthuso sy'n cyd-fynd yn strategol ar iechyd a thegwch, gan ganolbwyntio ar gymhwyso dulliau cadarn. |
| | • Wedi cynnal asesiad o effaith gwerthuso HPSS a chyhoeddiadau ymchwil (academaidd ac eraill), gan gynnwys asesu dulliau o gynyddu effaith allbynnau i lywio datblygiad strategaeth ymchwil y gyfarwyddiaeth. |
| | • Wedi datblygu partneriaethau academaidd ar gyfer modelu polisi economaidd ar iechyd. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi datblygu platfform strategol ar gyfer prosesu data dadansoddol a set offer strategol i'w defnyddio i ddadansoddi ein data ac wedi dechrau hyfforddi staff i ddefnyddio'r set offer strategol. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi sicrhau ein bod yn rheoli'n llwyddiannus y newid i systemau digidol ategol newydd, gan ddod â ffynonellau data canser newydd a gweithio i wella effeithlonrwydd ac amseroldeb ein data canser. |
| | • Wedi cymhwyso methodolegau cadarn a dulliau arbrofi naturiol i gryfhau'r gwaith o werthuso rhaglenni sefydliadol ar ganlyniadau iechyd a thegwch |
| | • Wedi gwella model cyflawni Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus i gryfhau cydweithredu a sicrhau bod samplau'r arolwg yn gynrychioliadol yn genedlaethol, fel platfform hanfodol ar gyfer cynhyrchu data ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn alluogwr allweddol i'n strategaeth hirdymor |
| | 2025-2026 |

| | |
|---|---|
| **SO7.9 -** Erbyn 2028, byddwn yn ceisio gwella ein darpariaeth gwasanaethau digidol modern a hygyrch, sy'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau i wella iechyd a llesiant pobl Cymru. | Chwarter 1 |
| | • Wedi ffurfioli Cofrestr Clefydau Prin Oedolion |
| | • Wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu a symud i fusnes fel arfer y cynnyrch iechyd y boblogaeth Clwstwr Gofal Sylfaenol, yn gysylltiedig â gwybodaeth a chymorth gwybodaeth iechyd cyhoeddus gofal sylfaenol, fel ein cynnyrch data ardal fach nodedig, i ddiwallu amrywiaeth o anghenion defnyddwyr, gan gynnwys llywio penderfyniadau cynllunio |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cyflawni'r map ffordd awtomeiddio |
| | Chwarter 3 |
| | • Rhaglen ymchwil data gysylltiedig sy'n mynd i'r afael â bylchau tystiolaeth i lywio camau gweithredu polisi ac ymarfer - ymrwymiad yn Labordy Data Rhwydweithiol Cymru. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi mudo 12 o wefannau i brif blatfform Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y we |
| | • Wedi cyflawni Blwyddyn 2 o strategaeth ddigidol a data Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy fap llwybr wedi'i flaenoriaethu |
| | • Wedi cyflawni ac adolygu Cynllun Gwella Seiber a phenderfynu ar ofynion yn y dyfodol |
| | • Wedi ymchwilio i gynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi arloesedd digidol a thegwch iechyd i boblogaeth Cymru a gwerthuso hyn |
| | • Wedi cyflawni beta o'r system HPSS |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi datblygu a gweithredu map ffordd i Iechyd Cyhoeddus Cymru drosglwyddo i'r defnydd o wasanaethau cwmwl ar gyfer genomeg, gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â glasbrint digidol Partneriaeth Genomeg Cymru a dull Asiantaethau Iechyd Cyhoeddus eraill y DU |
| | • Adrodd yn rheolaidd ar anghydraddoldebau ar draws gweithgarwch Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi sicrhau bod ein holl brosesau yn cael eu bodloni a bod eitemau newydd ar draws popeth a wnawn yn cael eu dogfennu yn unol â safonau |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gwella ein gallu i greu rhagamcanion ar gyfer glefydau a chyflyrau er mwyn: a) Cynorthwyo â chynllunio'r GIG. b) Cyflwyno'r achos dros ymyriadau system a pholisi i newid cyfeiriad lle y bo'n briodol. A thrwy'r adeg yn sicrhau bod cyfyngiadau rhagamcanion yn cael eu deall gan ddefnyddwyr |
| | • Wedi datblygu a darparu mwy o offer modelu gan gynnwys: modelu senario, y galw am sgrinio, modelu effaith ymyriadau |
| | • Wedi cyflwyno rhaglen DARC |
| | • Wedi cyflwyno cam 1 o'r rhaglen deallusrwydd artiffisial |
| | • Wedi dechrau gweithredu Safonau Diogelwch Clinigol a Digidol |
| | • Dulliau gwerthuso annibynnol cadarn wedi'u hymgorffori mewn rhaglenni â blaenoriaeth i archwilio canlyniadau iechyd a thegwch. |

| | |
|---|---|
| | 2027-2028 |
| | • Wedi sefydlu Fframwaith Galluogrwydd Proffesiwn Digidol, Data a Thechnoleg |
| | • Wedi defnyddio data integredig (iechyd, heblaw iechyd) i ddatblygu offer i lywio gwyliadwriaeth, dadansoddeg, gwerthuso polisi. |

## 3.7.4 Creu’r amodau a’r strwythurau i fod yn sefydliad sy’n gwella, yn arloesi ac yn dysgu’n barhaus i ysgogi ansawdd, ymgysylltu a chydweithredu

**SO7.10 Erbyn 2028,** byddwn yn parhau i ymgorffori egwyddorion Llywodraethu Integredig i ddod â chydlyniaeth, cysondeb a symlrwydd i sut rydym yn llywodraethu, a rhoi sicrwydd cadarn i'n Bwrdd a'i bwyllgorau.

Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Llywodraethu Integredig yn parhau i alluogi’r sefydliad drwy ganolbwyntio ar ansawdd, gwneud penderfyniadau, dirprwyo awdurdod i sicrhau bod Llywodraethu Integredig mewn safle fel elfen annatod o'n dull o reoli ansawdd a sicrwydd. Yn ganolog i’r gwaith hwn bydd datblygu saernïaeth risg effeithiol a'r farn sefydliadol ar risg a'r parodrwydd i dderbyn risg ar bob lefel. Yn ogystal, byddwn yn parhau â gwaith y Rhaglen Rheoli Cofnodion, gan ymgorffori polisïau, gweithdrefnau, hyfforddiant a gweithredu cynllun archwilio, ynghyd â chreu a chyhoeddi offer a thechnegau effeithiol i reoli cofnodion yn ddiogel.

**SO7.11 Erbyn 2028,** byddwn wedi ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd a chreu'r seilwaith sefydliadol a'r diwylliant ar gyfer gwella, arloesi a dysgu yn barhaus i alluogi gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol.

Mae mynd ar drywydd dull ledled y sefydliad o reoli ar gyfer ansawdd yn ein galluogi i weithredu Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020). Mae hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio’n fwy clir ar anghenion y system a diben y sefydliad. Yn dilyn cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio gyda'n staff a'n rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y ddwy ddyletswydd, gyda'r nod yn y pen draw o ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol.

Bydd y Ganolfan Gwella ac Arloesi yn parhau i greu a chefnogi'r amodau sy'n hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus. Gan ddarparu'r gallu, y sgiliau, yr offer a'r hyder i staff gyflawni newid a chanlyniadau mesuradwy a chynaliadwy. Bydd y Ganolfan yn darparu mynediad at wybodaeth, hyfforddiant a chyngor, i gynorthwyo staff i ledaenu ac ehangu syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Bydd y Ganolfan yn hyrwyddo'r syniad bod ansawdd yn fater i bawb, ynghyd â chwilfrydedd a chreadigrwydd sy'n cefnogi'r sefydliad i ddatblygu ei allu i wella ac arloesi drwy ddysgu a rennir. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r GIG, diwydiant, y byd academaidd a phartneriaid eraill i sicrhau ein bod yn mabwysiadu syniadau ac atebion addawol, yn ogystal â dathlu'r gwelliannau a'r prosesau arloesol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**SO7.12 Erbyn 2028,** byddwn wedi codi proffil ac effaith broffesiynol ein cofrestreion gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gan gefnogi, datblygu a chryfhau ffrwd waith cadw nyrsys y GIG

Byddwn yn gweithredu ac yn darparu gwyliadwriaeth glinigol adferol i nyrsys a bydwragedd ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn parhau i gyflawni ein gwaith o amgylch cadw nyrsys a bydwragedd yn unol â'r Rhaglen Gadw Genedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi a chyflawni canlyniadau a gwelliannau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Prif Swyddog Nyrsio Cymru.

## Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO7.10 -** Erbyn 2028, byddwn yn parhau i ymgorffori egwyddorion Llywodraethu Integredig i ddod â chydlyniaeth, cysondeb a symlrwydd i sut rydym yn llywodraethu, a rhoi sicrwydd cadarn i'n Bwrdd a'i bwyllgorau. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi datblygu Cynllun Llywodraethu Gwybodaeth newydd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda ffocws o'r newydd ar barhau i ddatblygu dull cyfannol gyda chydweithwyr seiberddiogelwch gan arwain at well hyfforddiant a chymorth i staff. |
| | • Wedi ymgorffori Egwyddorion Llywodraethu Integredig mewn prosesau a gweithdrefnau gwneud penderfyniadau sefydliadol. |
| | • Gan weithio mewn partneriaeth â'n rheolwyr a'n staff, byddwn wedi ymgorffori Llywodraethu Integredig yn ein ffyrdd o weithio, a darparu adnoddau priodol sy'n ceisio symleiddio sut y mae pobl yn rhyngweithio â phrosesau a gweithdrefnau sefydliadol. |
| | • Wedi aeddfedu saernïaeth risg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol ag arfer gorau fframwaith ISO31000 COSO. Wedi gweithredu'r Cynllun Datblygu Rheoli Risg gan gynnwys cyflwyno'r Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg. |
| | • Wedi parhau i gefnogi dull corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru o Reoli Cofnodion i alluogi 'busnes fel arfer'. Wedi cyflawni sicrwydd bod manteision a fwriadwyd yn parhau i gael eu cyflawni. |
| | • Wedi gwerthuso a gwella perfformiad, sicrwydd, a fframwaith llywodraethu corfforaethol yr Is-adran Diogelu Iechyd |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi defnyddio'r Egwyddorion Llywodraethu Integredig i ysgogi llwybr dysgu a gwella ailadroddol i lywodraethu gweithredol. |
| | • Wedi gweithredu'r cynllun Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i adnewyddu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda ffocws o'r newydd ar barhau i ddatblygu dull cyfannol gyda chydweithwyr seiberddiogelwch gan arwain at well hyfforddiant a chymorth i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | • Wedi cynnal archwiliad i fonitro a gwerthuso gwelliant parhaus ein dull corfforaethol o Reoli Cofnodion. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau Llywodraethu Integredig drwy weithrediad y Ganolfan Lywodraethu ac argymell gwelliannau lle y'u nodwyd. |
| | • Wedi gwerthuso effeithiolrwydd y Polisïau a Gweithdrefnau Llywodraethu Gwybodaeth wedi'u hadnewyddu a chydymffurfiaeth ac argymell gwelliannau lle y'u nodwyd. |
| | • Wedi cynnal busnes fel arfer ynghyd â chynllun archwilio ar gyfer cydymffurfiaeth polisïau a gweithdrefnau rheoli cofnodion i nodi ac argymell gwelliannau. |

| | |
|---|---|
| **SO7.11 -** Erbyn 2028, byddwn wedi ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd a chreu'r seilwaith sefydliadol a'r diwylliant ar gyfer gwella, arloesi a dysgu yn barhaus i alluogi gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol. | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi datblygu cynlluniau i gynorthwyo gofynion datblygu proffesiynol proffesiynau cofrestredig (ac eithrio nyrsio a bydwreigiaeth), mewn cydweithrediad, gan bennu gweithgareddau cefnogol drwy rwydweithiau a grwpiau ffocws (e.e. datblygiad proffesiynol parhaus, goruchwyliaeth, cymorth cymheiriaid). |
| | • Wedi datblygu a gweithredu proses safonol i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud cais am gymorth gyda phrosiectau gwella ansawdd neu arloesi. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi cwblhau a choladu canfyddiadau'r asesiad llinell sylfaen o weithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd yn 2024/25 ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyflwyno'r argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ('Ein Dull o Ymgysylltu' ar hyn o bryd). |
| | • Wedi cynyddu capasiti a gallu ar gyfer gwella ac arloesi drwy gyflawni hyfforddiant arwain ar Wella ac Arloesi, hyfforddiant Gwella Poced, a chynigion hyfforddi eraill y Ganolfan Gwella ac Arloesi. |
| | • Wedi cryfhau gwelededd a phroffil strategaeth gyfathrebu'r Ganolfan Gwella ac Arloesi i gryfhau gwelededd ar draws y sefydliad, dathlu llwyddiannau gwella ac arloesi, a chynyddu ymgysylltiad staff mewn prosiectau gwella ac arloesi, gan rannu arfer gorau a gwersi a ddysgwyd ar draws y sefydliad. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi ymgorffori a monitro'r Grŵp Llywodraethu Clinigol/Goruchwylio Ansawdd traws-sefydliadol ac is-grwpiau perthnasol i gynorthwyo'r Ddyletswydd Ansawdd a Blaenoriaeth Strategol 5. |
| | • Wedi ymgorffori a monitro'r seilwaith ansawdd sy'n sail i'r Safonau Ansawdd er mwyn galluogi'r holl drefniadau penderfyniadau strategol ac adrodd i fodloni'r Ddyletswydd Ansawdd. |
| | • Wedi monitro a gwerthuso'r cynnig pwrpasol hyfforddiant ansawdd gwell wedi'i weithredu gan y Ganolfan Gwella ac Arloesi yn 2024/25. |
| | • Gan ddefnyddio Fframwaith Profiad y Bobl Cymru Gyfan, wedi datblygu a gweithredu cynllun gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynyddu darpariaeth data a dadansoddiad profiad defnyddwyr gwasanaethau, i lywio gweithgareddau gwella a chynllunio blynyddol. |
| | • Wedi cyd-gynllunio rhaglen prototeip ymgysylltu â phobl ifanc gyda phobl ifanc a phartneriaid strategol/sefydliadau sy'n chwarae rhan flaenllaw mewn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. |
| | • Wedi sefydlu e-Ganolfan Addysg Ôl-raddedig i gynorthwyo datblygiad proffesiynol parhaus ymgynghorwyr, arbenigwyr ac arbenigwyr cyswllt a meddygon arbenigol a meddygon iau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda'r nod o ehangu cynnwys i gynnwys cyfrifoldeb Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol (OMD) am broffesiynau rheoleiddiedig eraill. |
| | • Wedi gweithredu cynlluniau y cytunwyd arnynt sy'n cynorthwyo datblygiad proffesiynol proffesiynau cofrestredig, gan hwyluso digwyddiadau a gweithgareddau cefnogol. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi ailddiffinio prawf o gysyniad a gwerthuso model a strwythur cyflawni'r Ganolfan Gwella ac Arloesi. |
| | • Wedi monitro ac adrodd yn erbyn Safonau'r Ddyletswydd Ansawdd a sut y maent wedi'u cyrraedd ar draws y sefydliad drwy lunio adroddiad blynyddol. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi gwerthuso prawf o gysyniad model a strwythur y Ganolfan Gwella ac Arloesi, gan gynnwys model hyfforddiant a chyflawni'r Ganolfan Gwella ac Arloesi. |
| | • Wedi cwblhau her syniadau yn unol â'n blaenoriaethau strategol drwy'r platfform SimplyDo a chyfathrebu'r effaith a'r gwersi a ddysgwyd i weddill y sefydliad |
| | • Wedi cefnogi prosiectau gwella sefydliadol, a ddewiswyd drwy broses dewis a blaenoriaethu'r Ganolfan Gwella ac Arloesi, gan ddefnyddio methodolegau gwella ansawdd i gyflawni gwelliannau mesuradwy a chynaliadwy a chanlyniadau amlwg. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi datblygu rhaglen archwilio a dull adrodd i gyrraedd y Safonau Glanhau Amgylcheddol diwygiedig |
| | • Wedi gwerthuso'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn 2025/26 i goladu ac adrodd yn erbyn Safonau'r Ddyletswydd Ansawdd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a nodi gwelliant yn unol â'r uchelgais ar gyfer blaenoriaeth strategol 5. |
| | • Wedi datblygu Cynllun Gweithredu i gyrraedd Safonau Glanhau newydd GIG Cymru gan sicrhau bod dulliau effeithiol ar waith i ddarparu amgylcheddau gofal iechyd diogel yn adeiladau clinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | • Wedi datblygu cynllun i ddarparu System Rheoli Arloesedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol ag ISO 56001. |
| | • Wedi datblygu a chyflawni ein dull diwygiedig o gymorth hyfforddiant a phrosiect Gwella ac Arloesi ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar ein gwerthusiad o flwyddyn 1. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi gwerthuso gweithrediad ac effeithiolrwydd Grŵp Goruchwylio Ansawdd traws-sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac is-grwpiau perthnasol yn erbyn y Ddyletswydd Ansawdd i 'Ddarparu Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Rhagorol' a dangos gwelliant a dysgu parhaus. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi gwerthuso'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer 'Ein Dull o Ymgysylltu'. |
| | • Wedi gwerthuso ac adolygu cymorth i broffesiynau cofrestredig, gan bennu effaith hwyluso gweithgarwch a nodi unrhyw welliannau i gymorth parhaus. |
| | • Wedi cyflwyno System Rheoli Arloesedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol ag ISO 56001. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad a gynhaliwyd yn 2025/26 i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein saernïaeth Rheoli Risg a defnyddio'r Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg ar draws y sefydliad. |
| | • Wedi gwerthuso effeithiolrwydd y seilwaith ansawdd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i fodloni Safonau'r Ddyletswydd Ansawdd a chefnogi penderfyniadau strategol a threfniadau adrodd i fodloni'r Ddyletswydd Ansawdd / Blaenoriaeth Strategol 5. |
| | • Wedi gwerthuso model gweithredu Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi Fframwaith Profiad y Bobl ar waith. |
| | • Wedi gwerthuso ein dull o gefnogi prosiectau gwella ac arloesi, gan gynnwys ein gwaith i gefnogi lledaenu, ehangu a dysgu a rennir. |
| | • Wedi cynyddu capasiti a gallu ar gyfer gwella ac arloesi drwy gyflawni ein hyfforddiant arwain ar Wella ac Arloesi, hyfforddiant Gwella Poced, a chynigion hyfforddi eraill. |

| | |
|---|---|
| | 2027-2028 |
| | • Wedi datblygu a threialu rhaglen addysg diogelwch cleifion sy'n cynnwys ffactorau dynol, diwylliant cyfiawnder adferol, a dull sy'n seiliedig ar systemau i ddadansoddi, monitro, neu ddysgu o ddigwyddiadau diogelwch cleifion. |
| | • Wedi dangos cynnydd yn y nifer y bobl a hyfforddwyd (adeiladu capasiti a gallu) mewn methodoleg gwella ac arloesi. |
| | • Wedi gwerthuso effaith a chyrhaeddiad y Ganolfan Gwella ac Arloesi yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| SO7.12 - Erbyn 2028, byddwn wedi codi proffil ac effaith broffesiynol ein cofrestreion gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gan gefnogi, datblygu a chryfhau ffrwd waith cadw nyrsys y GIG. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi sicrhau buddsoddiad ar gyfer Pennaeth Addysg y Gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth i weithredu'r camau gweithredu allweddol sy'n codi o'r Cynllun Cadw Nyrsys ac i ddatblygu cynnig addysg glinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y grŵp hwn |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi parhau i weithredu a monitro cyflwyno a derbyn Goruchwyliaeth Glinigol Adferol ar gyfer nyrsys a bydwragedd i gynorthwyo datblygu proffesiynol ac ymarfer myfyriol. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflawni ail flwyddyn gwaith cadw nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymru o fewn rhaglen AaGIC. |
| | • Wedi nodi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth i ddatblygu cynllun hyfforddi a datblygu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi gwerthuso effaith goruchwyliaeth glinigol ar ddatblygiad proffesiynol ac ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth. |
| | 2027-2028 |
| | • Yn seiliedig ar y dadansoddiad o anghenion hyfforddi a gynhaliwyd yn 2025/26 a’r Cynllun Cadw Gweithlu Nyrsio, wedi datblygu cynnig cyfle cyfartal i nyrsys a bydwragedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gael gweithgareddau proffesiynol (SPA) wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau swyddi unigol. |
| | • Wedi parhau i fonitro effaith goruchwyliaeth glinigol ar ddatblygiad proffesiynol nyrsio ac ymarfer proffesiynol ar y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. |

## 3.7.5 Cyflawni gwerth a gwella ein perfformiad a'n cyflawni

**SO7.13 Erbyn 2028,** byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Hirdymor yn effeithiol, yn cyfathrebu ein blaenoriaethau yn strategol i randdeiliaid allweddol, ac yn sicrhau bod ein staff yn deall eu rôl wrth gyflawni ein cynlluniau'n llwyddiannus.

Byddwn yn parhau i gyflawni ein strategaeth a chyhoeddi set o fapiau llwybrau ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau strategol. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn datblygu ein dull o sganio'r gorwel ar gyfer cyfleoedd neu heriau yn y dyfodol, i reoli newid yn effeithiol a darparu mewnwelediadau ar ein cynnydd i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl a sicrhau bod ein strategaeth yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus. Byddwn yn mynd ati i adrodd ein stori i'n staff, gan sicrhau bod y staff yn deall strategaeth y sefydliad ac, yn benodol, yn helpu staff i wybod sut y gallant gyfrannu at lwyddiant y sefydliad. Drwy wneud hyn, bydd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cydnabod a byddwn yn grymuso ein staff i wneud eu swyddi i'r safon ansawdd a ddisgwylir. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ein cynulleidfaoedd allanol, yn helpu rhanddeiliaid, llunwyr polisi, y wasg a'r cyhoedd i ddeall y rôl rydym yn ei chwarae wrth sicrhau Cymru iachach.

**SO7.14 Erbyn 2028,** byddwn yn darparu seilwaith ffisegol a digidol amgylcheddol gynaliadwy i'r sefydliad er mwyn gweithredu'n effeithiol ac yn ddiogel.

Byddwn yn sicrhau bod gennym ystad sy'n cynorthwyo'r amrywiaeth eang o wasanaethau a swyddogaethau rydym yn eu darparu ac yn cynorthwyo newidiadau i'n diwylliant wrth i ni fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, gan wneud defnydd gwell o atebion technolegol i wella sut rydym yn gweithredu ac i alluogi'r sefydliad i wneud y defnydd gorau o'i ystad. Byddwn yn cyflawni ein Strategaeth Ddigidol a Data sy'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer gwasanaethau digidol a saernïaeth data. Er mwyn cynorthwyo diogelwch a gwydnwch y sefydliad, byddwn yn cyflawni ein Cynllun Gweithredu Seiber, gan sicrhau ein bod yn dilyn camau gweithredu'r Fframwaith Asesu Seiber. At hynny, byddwn yn pennu cwmpas gwaith i ddarparu gwasanaethau digidol ar gyfer rhaglenni a mentrau newydd, yn ogystal â chynorthwyo a chynnal systemau a seilwaith sefydledig.

**SO7.15 Erbyn 2028**, byddwn yn gallu dangos ein gwerth a'n heffaith gyda gwell adrodd a rheoli ariannol a pherfformiad ar draws y sefydliad, er mwyn cyflawni ein Strategaeth Hirdymor.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cychwyn y cyfnod gyda strategaeth gyllidebol a chynllun ariannol sy'n mantoli'r gyllideb. Bydd trefniadau monitro cadarn o'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn sicrhau y caiff risgiau a chyfleoedd eu rheoli'n briodol. Byddwn yn parhau i gryfhau ein dull o ran rheoli perfformiad a gwerth. Mae'r dull hwn yn cynnwys ffocws cryf ar werth a chanlyniadau wrth ddiffinio, adrodd a rheoli perfformiad ar draws y sefydliad. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gennym hyd yma a bydd yn

sicrhau ein bod yn gwella'r cynhyrchion deallusrwydd busnes presennol i ddiwallu anghenion ein rhanddeiliaid. Yn ogystal, byddwn yn adeiladu ar ein dull galluogi o ran gwerth ac effaith, gan weithio'n agos gydag eraill i'w ymgorffori yn y dyfodol.

# Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

| Amcan | Cerrig milltir |
|---|---|
| **SO7.13** - Erbyn 2028, byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Hirdymor yn effeithiol, yn cyfathrebu ein blaenoriaethau yn strategol i randdeiliaid allweddol, ac yn sicrhau bod ein staff yn deall eu rôl wrth gyflawni ein cynlluniau'n llwyddiannus. | 2025-2026 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid drwy gyflwyno Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025. |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi gweithredu ein trefniadau partneriaeth strategol i alluogi cyflawni ein mapiau llwybr a meysydd cydweithredu strategol y cytunwyd arnynt. |
| | • Wedi treialu a gwerthuso fforwm arweinyddiaeth newydd a dull rhaeadru rheolwyr llinell. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi cynnal ymarfer strategol edrych yn ôl ac edrych ymlaen er mwyn gwerthuso cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth a llywio'r cylch cynllunio sydd i ddod. |
| | • Wedi gweithredu system gynllunio integredig sy'n ysgogi'r broses o gyflawni ein mapiau llwybr blaenoriaeth strategol. |
| | • Wedi gweithredu safonau cyson ar gyfer cynllunio, darparu, mesur ac adrodd marchnata cymdeithasol ac ymgyrchoedd cyhoeddus. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gwella'r broses o fesur a dadansoddi cynnwys ar draws pob sianel, gan gynnwys effaith y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial. |
| | • Wedi gweithredu safonau a threfniadau sicrwydd y cytunwyd arnynt ar gyfer ein rhaglenni newid allweddol i sicrhau cyflawni effeithiol i gefnogi ein mapiau llwybrau. |
| | • Wedi cynllunio gwell ystad weinyddol ar gyfer Gogledd Cymru. |
| | • Wedi archwilio cyfleoedd i wella ystad sgrinio Gogledd Cymru. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 1 |
| | • Wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r system gynllunio integredig a'i hadnewyddu sy'n ysgogi'r broses o gyflawni ein mapiau llwybr blaenoriaeth strategol. |
| | • Wedi gweithredu dull materion cyhoeddus i gefnogi rheoli rhanddeiliaid a dylanwadu ar bolisi. |
| | • Wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o'n trefniadau partneriaeth strategol i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol. |
| | Chwarter 3 |
| | • Wedi archwilio brandiau i brofi a ydynt yn cyd-fynd â'r strategaeth brand. |
| | 2026-2027 |

| | |
|---|---|
| | Chwarter 4 |
| | • Adolygiad blynyddol ac adnewyddu Safonau Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (PPM) a sicrwydd y cytunwyd arnynt ar gyfer ein rhaglenni newid allweddol i sicrhau cyflawni'n effeithiol i gefnogi ein mapiau llwybrau. |
| | • Cyfnod cynllunio ar gyfer gwella ystad sgrinio Gogledd Cymru. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi ymgorffori deallusrwydd artiffisial mewn prosesau cynllunio ymgyrchoedd. |
| | • Wedi adolygu a gwerthuso'r cynllun cyfathrebu corfforaethol. |
| | • Wedi cwblhau arfarniad ar gyfer yr opsiwn i wella ystad sgrinio Gogledd Cymru. |
| **SO7.14 -** Erbyn 2028, byddwn yn darparu seilwaith ffisegol a digidol amgylcheddol gynaliadwy i'r sefydliad er mwyn gweithredu'n effeithiol ac yn ddiogel. | 2025-2026 |
| | Chwarter 2 |
| | • Wedi pennu cwmpas gofynion ar gyfer diwedd oes yr ystad 'surface hub'. |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cwblhau a gweithredu'r trefniadau meddiannaeth ar gyfer CQ2 neu safle arall. |
| | • Wedi cwblhau'r gwaith o osod seilwaith rhithwir newydd |
| | • Gwell seilwaith wrth gefn. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu gwelliannau rhwydwaith a seilwaith wrth gefn. |
| | • Wedi gosod seilwaith rhithwir newydd ar gyfer yr ystad sgrinio. |
| | • Wedi gweithredu cynllun ar gyfer gwella ystad weinyddol Gogledd Cymru. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi gweithredu trefniadau meddiannaeth ar gyfer CQ2 neu safle arall. |
| **SO7.15 -** Erbyn 2028, byddwn yn gallu dangos ein gwerth a'n heffaith gyda gwell adrodd a rheoli ariannol a pherfformiad ar draws y sefydliad, er mwyn cyflawni ein Strategaeth Hirdymor. | 2025-2026 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi cyflawni Datganiad Gwerth wedi'i integreiddio â mapiau llwybr. |
| | • Wedi paratoi a chwblhau datganiad dulliau Rheoli Perfformiad Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | 2026-2027 |
| | Chwarter 4 |
| | • Wedi gweithredu Datganiad Gwerth wedi'i integreiddio â mapiau llwybr. |
| | • Wedi gweithredu dulliau Rheoli Perfformiad Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | 2027-2028 |
| | • Wedi adolygu a monitro datganiad gwerth wedi'i integreiddio â mapiau llwybr. |

# Rhan 3: Cyflawni a Llywodraethu

# 4 Cyflawni a Llywodraethu

## 4.1 Ein Cynllun Ariannol

### 4.1.1 Sefyllfa Sylfaenol

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno sefyllfa sylfaenol sy'n mantoli'r gyllideb yn ei gynllun ariannol. Yn 2025/26, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno gwarged sylfaenol o £1.023m. Y rheswm dros y gwarged sylfaenol yw nad oedd chwyddiant a phwysau costau rheolaidd eraill a gafodd eu hariannu yn ein cynllun 2024/25 wedi gwireddu i'r lefelau a ragwelwyd. Ceir rhagor o fanylion yn Strategaeth Gyllideb a Chynllun Ariannol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025-28.

### 4.1.2 Ein cynllun refeniw

Mae GIG Cymru yn wynebu rhagolwg ariannol heriol ar gyfer 2025/26 sydd wedi'i adlewyrchu yn yr egwyddorion cynllunio ariannol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gofyniad arbedion o leiaf 2% ar draws cyfanswm y llinell sylfaen.
- Cynnydd cyllid chwyddiant a thwf 0.5% a ddarperir i Iechyd Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26

Mae ein cynllun refeniw ar gyfer 2025/26 wedi'i ddatblygu yn unol â'r egwyddorion hyn:

| | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | Rheolaidd £m |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Incwm Craidd 2024/25 | 142.746 | 142.746 | 142.746 | 142.746 |
| Cynnydd Dyraniad Craidd LlC a Gadarnhawyd | 2.256 | 2.256 | 2.256 | 2.256 |
| Dyraniadau Disgwyliedig LlC | 8.631 | 7.986 | 9.156 | 9.156 |
| Incwm Di-graidd LlC | 10.481 | 10.481 | 10.481 | 10.481 |
| Incwm Arall | 33.092 | 33.092 | 33.092 | 33.092 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **197.206** | **196.561** | **197.731** | **197.731** |
| | | | | |
| **Gwariant** | | | | |
| Gwariant 2024/25 | 175.380 | 175.380 | 175.380 | 175.380 |
| **Newidiadau Gwariant (Wedi'u cyllido yn y Llythyr Mandad)** | | | | |
| Cyllid i gefnogi profion IGRA y rhai sy'n cyrraedd Cymru o Wcráin | 0.065 | 0.065 | 0.065 | 0.065 |
| Arweinydd Cenedlaethol AHP ar gyfer Atal ym maes Iechyd Cyhoeddus | 0.070 | 0.070 | 0.070 | 0.070 |
| Cymru Iach ar Waith | 0.400 | 0.400 | 0.400 | 0.400 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Diwygio Staff Contract | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 |
| Optimeiddio FIT | 0.800 | 0.800 | 0.800 | 0.800 |
| Profion Labordy COVID (Heb Dâl) | 6.560 | 6.560 | 6.560 | 6.560 |
| Atal Blynyddoedd Cynnar | 1.028 | 1.028 | 1.028 | 1.028 |
| Cynllun Gordewdra | 1.200 | 1.200 | 1.200 | 1.200 |
| Strategaeth Gordewdra : Ymyriad Plant a Theuluoedd | 0.600 | 0.600 | 0.600 | 0.600 |
| Strategaeth Gordewdra: Diabetes | 0.800 | 0.800 | 0.800 | 0.800 |
| Newid Ymddygiad Pwysau Iach | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 |
| Cynllun Gweithredu Bwydo ar y Fron | 0.093 | 0.093 | 0.093 | 0.093 |
| | | | | |
| **Newidiadau Gwariant (Wedi'u cyllido drwy'r Dyraniadau Disgwyliedig)** | | | | |
| Cynnydd Dyfarniad Cyflog 2025/26 | 6.754 | 6.754 | 6.754 | 6.754 |
| Cymru Iach ar Waith | 0.100 | 0.100 | 0.100 | 0.100 |
| Dyraniad Genomeg | 0.132 | - | - | - |
| Dull Ysgol Gyfan o ran Iechyd Meddwl | 0.745 | - | - | - |
| Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod | 0.900 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| | | | | |
| Gwarged Sylfaenol a Ddygwyd Ymlaen | -1.023 | -1.023 | -1.023 | -1.023 |
| Pwysau Costau Newydd/Heb eu Hariannu | 1.937 | 3.596 | 5.516 | 5.516 |
| Effaith Reolaidd Buddsoddiadau 2024/25 | 0.260 | -0.720 | -1.531 | -1.531 |
| Arbedion | -1.308 | -1.308 | -1.308 | -1.308 |
| Blaenoriaethau Buddsoddi Strategol | 1.315 | 1.768 | 1.829 | 1.829 |
| | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant Disgwyliedig** | **197.206** | **196.561** | **197.731** | **197.731** |
| | | | | |
| **Amrywiant wedi'i gynllunio** | **0.000** | **0.000** | **0.000** | **0.000** |

Nid yw’r ffigurau hyn yn cynnwys incwm na gwariant sy’n ymwneud â Gweithrediaeth y GIG, a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Tybir y bydd yn ymdopi o fewn ei dyraniadau cymeradwy.

Mae rhagdybiaethau dyfarniad cyflog ar gyfer 2025/26 wedi'u heithrio o'r cynllun hwn gan nad yw dyfarniadau cyflog wedi'u cytuno eto ar gyfer 2025/26. Tybir y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn talu costau’r dyfarniad y cytunwyd arno, felly ni fydd yn cael effaith ar y cynllun ariannol.

Mae nifer o ddyraniadau disgwyliedig Llywodraeth Cymru nad ydynt wedi’u cadarnhau eto.

### 4.1.3 Chwyddiant

Yn 2024/25 nid oedd lefelau chwyddiant ar draws amrywiaeth o gategorïau gwariant wedi cael eu gwireddu yn ôl y disgwyl. O ganlyniad, rydym wedi mireinio ein modelu chwyddiant ymhellach ar gyfer 2025/26, gan gapio modelu wedi'i dargedu ar y gyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr ac eithrio categorïau gwariant na fydd yn achosi unrhyw chwyddiant. O ganlyniad, mae ein cynllun yn cynnwys y dull canlynol:

- Ymgorffori'r dull modelu chwyddiant cenedlaethol y cytunwyd arno gan Gyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru
- Cymhwyso'r taliad 1.77% i'r holl CLG gwariant yn unol ag egwyddorion cynllunio ariannol Llywodraeth Cymru.
- Datblygu methodoleg gadarn i ddyrannu cyllid chwyddiant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth glir o gynnydd prisiau a defnyddio cyfleoedd caffael i reoli pwysau chwyddiannol i lawr pryd bynnag y bo'n bosibl

### 4.1.4 Cynlluniau Arbed a Defnyddio Arbedion Effeithlonrwydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu gofyniad i holl sefydliadau GIG Cymru gyflawni o leiaf 2% mewn arbedion yn erbyn cyfanswm gwariant llinell sylfaen ar gyfer 2025/26. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni hyn drwy arbedion rhyddhau arian parod o 1% ac arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchiant (nad ydynt yn rhyddhau arian parod) o 1%. Mae hyn yn cyfateb i £1.308m o arbedion rhyddhau arian parod a £1.308m o arbedion cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ar draws cyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er mwyn cyflawni'r targed hwn, mae'r Cyfarwyddiaethau wedi datblygu cynlluniau i gyflawni arbedion yn erbyn cyllidebau cyfanswm gwariant llinell sylfaen eu cyfarwyddiaeth. Mae'r targed arbedion wedi'i gyflawni ar gyfer 2025/26.

Bydd yr adnodd a ryddheir drwy arbedion effeithlonrwydd yn cael ei ddefnyddio i ailddyrannu adnoddau i flaenoriaethau sefydliadol ar draws tri maes allweddol a nodwyd fel rhan o'n dull buddsoddi strategol 1) Digidol a data, modelu a deallusrwydd artiffisial; 2) Newid strategol a chyflawni; 3) Cryfhau meysydd craidd/busnes fel arfer.

### 4.1.5 Ein Cynllun Cyfalaf

Mae ei dyraniad Cyfalaf Dewisol wedi cynyddu £120k o £1.580m i £1.700m ar gyfer 2025/26. Prif ddiben ein dyraniad dewisol yw cyllido ein rhaglen amnewid.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru, wedi cyflwyno achos busnes strategol diwygiedig ar gyfer faniau newydd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, sef cyfanswm o £2.045m gyda chyllid yn cael ei geisio dros gyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau yn 2025/26. Mae'n bosibl y bydd modd cael mynediad at gyllid llithriant yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol os bydd cynlluniau strategol ar draws Cymru yn llithro. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio ar nifer o achosion busnes, a bydd angen Cyllid Cyfalaf Cymru Gyfan arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cronfeydd cyfalaf newydd ar gyfer 2025/26, sef:

- Cronfa ystadau wedi'i thargedu (TEF)
- Rhaglen Amnewid Offer a Diagnostig
- Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethu Digidol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno 6 chynnig i'r gronfa TEF a fydd yn gofyn am gyfraniad dewisol o 30%, sef £120k os bydd pob cynnig yn cael ei gymeradwyo.

Nid yw'r broses gynnig ar gyfer y Rhaglen Amnewid Offer a Diagnostig a'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethu Digidol wedi dechrau eto.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ein gofynion cyfalaf strategol ar gyfer cyfnod tair blynedd y cynllun:

| Cynllun/Ffrwd Gyllido | FY 25-26 £000s | FY 26-27 £000s | FY 27-28 £000s | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Unedau Fideogynadledda Surface Hub | 200 | | | |
| System Rheoli Iechyd Rhywiol | | | | I'w gadarnhau - Achos busnes i fod yn barod 25/26 |
| Rhaglen Diogelu Iechyd Digidol | 4,878 | 4,583 | 2,552 | Mae'r gwerthoedd yn dibynnu ar benderfyniad cynnar gan LlC |
| Rhaglen Sgrinio Canser yr Ysgyfaint | | | | I'w gadarnhau - Achos busnes i fod yn barod 25/26 |
| Dull Strategol o Sgrinio Digidol | | | | I'w gadarnhau - Achos busnes i fod yn barod 26/27 |
| Gwella Iechyd Digidol | | | | I'w gadarnhau - Achos busnes i fod yn barod 26/27 |
| Datblygiadau/moderneiddio labordy amrywiol | | | 6,000 | Achos busnes i fod yn barod 25/26. Yn seiliedig ar £30m dros gyfnod o 5 mlynedd yn dechrau 26/27 |
| Offer Seegene | | | 1,270 | |
| Faniau DESW | 672 | 749 | 624 | Dadansoddiad yn unol â phapur diwygiedig i LlC ym mis Mawrth. |
| **Cyfanswm Strategol** | **5,750** | **5,332** | **10,446** | |
| 2 x Qiagen rotor-gene q5-plex hrm | 96 | | | |
| 2 x echdynnu DNA awtomataidd | 73 | | | |
| Qiagen rotor-gene q5 5-plex hrm | 37 | | | |
| Peiriant Uwchsain Newydd WAAASP | 456 | | | |
| **Cyfanswm y Rhaglen Amnewid Offer a Diagnostig** | **662** | **0** | **0** | |
| Gweinydd Dell, switshis a storfa | 250 | 250 | 80 | |
| Datblygu Gwasanaethau Cwmwl | 150 | | | |
| Systemau wrth gefn yn cynnwys systemau wrth gefn â bwlch aer | | 370 | | |
| **Cyfanswm y Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethu Digidol** | **400** | **620** | **80** | |
| Gwaith gwella i adeiladau ac ystafelloedd Ystad Weinyddol Gogledd Cymru | 59 | | | |
| Unedau aerdymheru newydd yn 18 Heol y Gadeirlan a Bron Brawf Cymru Abertawe | 8 | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith addasu ar hen Ganolfan Gyswllt Helpa Fi i Stopio i wneud darpariaeth ar gyfer ystafell weddïo ac ystafell i rieni newydd | 13 | | | |
| Gosod goleuadau newydd yn Nhŷ Clwydian/Parc Magden/Llys Castan | 50 | | | |
| Cysgodfeydd e-feiciau | 74 | | | |
| Mannau gwefru cerbydau trydan ychwanegol - 2 safle - Clwydian a Thŷ Kimberley | 76 | | | Cyflwynwyd holl gynigion cronfa TEF 31/01/2025. |
| **Cyfanswm y Gronfa ystadau wedi'i thargedu** | **279** | **0** | **0** | |
| **Cyfanswm y Cyfalaf Strategol** | **8,792** | **7,057** | **10,766** | |

Gofynnodd y cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun seilwaith 10 mlynedd mewn cysylltiad â gofynion Ystadau a Digidol ar gyfer 2022/23.Erbyn hyn, rydym wedi adolygu a blaenoriaethu'r gofynion ar gyfer 2025/26 a chynnwys gwerthoedd wedi'u diweddaru yn y tabl uchod.

## Risgiau (a Chyfleoedd)

Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld sefyllfa mantoli cyllideb, yn unol â phroses pennu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 a gwaith manwl y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, mae nifer o risgiau ariannol fel y nodir isod: -

- Ymrwymiadau rheolaidd yn erbyn grantiau amser cyfyngedig Llywodraeth Cymru;
- Nifer o ddyraniadau tybiedig Llywodraeth Cymru nad ydynt wedi'u cadarnhau eto;
- Mae costau profion COVID-19 yn fwy na'r cyllid £6.56m a ddarparwyd ar gyfer 2025/26;
- Nid yw'r gwaith o reoli costau profion COVID-19 ar ôl mis Mawrth 2026 wedi'i ariannu;
- Argaeledd cyllid cyfalaf strategol i gefnogi'r cynllun cyfalaf.

Bydd y risgiau a'r cyfleoedd ariannol yn parhau i gael eu diweddaru a bydd gwaith craffu a gweithredu arnynt wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatrys y materion cyllid ar ôl mis Mawrth 2025.

## 4.2 Digidol a Data

Yn 2023, gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Ddigidol a Data a nododd sut rydym yn cyd-fynd â'n strategaeth sefydliadol a strategaethau allanol allweddol ar gyfer digidol ac iechyd, gan gynnwys gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

Yn 2024/5, gwnaethom nodi ein map llwybr digidol a data a oedd yn nodi pum ffrwd waith allweddol;

- **Data, Dadansoddi, Cofrestrau a'r Cwmwl:** a fydd yn gweld ein gallu dadansoddol yn mudo yn gyfan gwbl i'r Adnodd Data Cenedlaethol dros y ddwy flynedd nesaf, yn ogystal â datblygu gwasanaethau rheng flaen wedi'u galluogi gan y cwmwl.
- **Systemau Digidol:** sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer moderneiddio ein darpariaeth gwasanaethau. Mae hyn wedi'i ddiweddaru yn 2025/26 i adlewyrchu'r gofynion cynyddol a'r angen i symud i Wella Iechyd Digidol.
- **Seiberddiogelwch:** i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn datblygu ein sefyllfa seiber yn unol ag NIS a'n Harchwiliadau o'r Uned Gwydnwch Seiber.
- **Deallusrwydd Artiffisial ac Awtomatiaeth:** sefydlu rhaglen waith i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel lle mae'n ychwanegu gwerth ac yn ddiogel i wneud hynny a defnyddio awtomatiaeth i gyflawni effeithlonrwydd.
- **Pobl, Seilwaith ac Offer:** datblygu offer, ffyrdd o weithio a theuluoedd swyddi cyffredin i gefnogi ein huchelgeisiau.

Mae'r cynllun hwn yn gweld diweddariad yn erbyn y blaenoriaethau hyn ac yn adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol. Lle maent wedi'u cyllido'n llwyr gan refeniw, rydym wedi datblygu cynlluniau i gyflawni'r gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, bydd datblygiadau mawr sy'n dibynnu ar gyfalaf yn destun rowndiau cyllido Llywodraeth Cymru gan y byddant fel arfer yn sylweddol uwch na'n cyllid cyfalaf dewisol.

Byddwn yn parhau i gynnal sesiynau datblygu Bwrdd ar ddigidol a data gyda'r blaengynllun, gan gynnwys un ar seiberddiogelwch ac un arall ar fanteisio ar dechnoleg i sicrhau'r iechyd cyhoeddus gorau posibl yng Nghymru.

## 4.2.1 Llywodraethu a gwneud penderfyniadau

Rydym wedi sefydlu Awdurdod Dylunio Digidol a Data sy'n cytuno ar y safonau digidol a'r prosesau mabwysiadu ar gyfer y rhain ac yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r portffolio digidol. Mae hyn yn ystyried safonau sefydledig ac yn cynnwys sicrwydd o gydymffurfio â Chylchlythyrau Iechyd Cymru ar ddigidol, Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru ac eraill yn ôl yr angen.

Rydym newydd sefydlu Awdurdod Dylunio Deallusrwydd Artiffisial i eistedd ochr yn ochr â hyn ar ôl mabwysiadu'r argymhellion o'r Comisiwn Deallusrwydd Artiffisial ar lywodraethu.

Rydym hefyd wedi penodi Swyddog Diogelwch Clinigol Digidol yr ydym yn ei ymgorffori yn y flaenraglen waith. Bydd hyn yn integreiddio i'n llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch a bydd yn cael ei fonitro drwy ein cofrestr risg strategol sy'n destun craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a’r Bwrdd.

## 4.2.2 Systemau Cenedlaethol

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adnodd Data Cenedlaethol. Ein cynllun yw mudo ein holl waith dadansoddol i'r Platfform Data a Dadansoddeg Cenedlaethol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2026/7.

Rydym yn gweithio'n agos gyda datblygiad y Cofnod Iechyd Electronig i sicrhau bod anghenion Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diwallu a bod cleifion a defnyddwyr byrddau iechyd yn cael llwybr integredig a di-dor drwy wasanaethau sgrinio a chanlyniadau labordy. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd i wella gwyliadwriaeth.

Mae cyfle enfawr posibl i ap GIG Cymru helpu i wella darpariaeth gwasanaethau iechyd cyhoeddus a darparu cyngor iechyd cyhoeddus. Byddwn yn gweithio gyda DHCW i ddatblygu hyn.

Rydym bellach yn dechrau ail flwyddyn ein map llwybr digidol a data. Dros gyfnod y map llwybr, rydym wedi datblygu'n sylweddol yn fewnol drwy ddarparu ein hofferyn dewis carfan Sgrinio Canser y Fron, Awtomeiddio Sgrinio Llygaid Diabetig a thrwy gyflwyno mewn rhaglenni cenedlaethol – sef y sefydliad cyntaf i fynd yn fyw yn y rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RISP) newydd.

Rydym hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer ein hanghenion yn y dyfodol drwy gwblhau cam alffa'r Rhaglen Diogelu Iechyd Digidol a chyflwyno Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi cwblhau'r cam darganfod System Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol y gofynnwyd amdani gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn adolygu'r achos busnes yn sgil hyn.

Rydym hefyd ymhell i mewn i'n taith o ran y Cwmwl ac rydym bellach yn dechrau cynllunio'r broses o fudo'n holl ddadansoddi i'r Platfform Dadansoddi Data Cenedlaethol yn y Storfa Ddata Genedlaethol (NDR) a sicrhau bod y seilwaith yn barod ar gyfer gofynion yn y dyfodol os yw'r achosion busnes ar gyfer Diogelu Iechyd Digidol yn cael eu cymeradwyo. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi parhau i gryfhau ein sefyllfa seiber drwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn parhau i mewn i gynlluniau gwaith y flwyddyn nesaf.

Mae'r llwyddiannau hyn yn nodi dechrau trawsnewidiad mawr. Os caiff ei ariannu, bydd y System Diogelu Iechyd Digidol a Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol yn rhan greiddiol o'n rhaglen a bydd hefyd yn prynu neu'n adeiladu swyddogaeth y gellir ei hailddefnyddio ar gyfer gwasanaethau eraill.

Y darn mawr arall o waith yw'r potensial ar gyfer cynnig sgrinio canser yr ysgyfaint newydd a bydd angen cymorth digidol priodol ar gyfer hyn. Mae argymhelliad i Lywodraeth Cymru ar sgrinio canser yr ysgyfaint gydag achos busnes priodol yn cael ei baratoi i'w gyflwyno.

Mae ein hamcanion allweddol i'w cyflawni ar gyfer ein map llwybr digidol ym mhob blwyddyn fel a ganlyn:

<u>2025/26</u>

- Dechrau mudo ein data a'n gallu dadansoddol i NDAP/NDR

- Sicrhau bod ein hamgylchedd cwmwl wedi'i alluogi ar gyfer Diogelu Iechyd Digidol a Genomeg
- Wedi galluogi ein Gwyliadwriaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd drwy NDAP
- Os caiff ei gyllido, wedi cyflwyno Cam Beta Diogelu Iechyd Digidol ac wedi dechrau gweithredu system rheoli achosion iechyd rhywiol.
- Wedi dechrau trosolwg o alluogi digidol i wella iechyd

<u>2026/27</u>

- Wedi cyflwyno'r Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw ar gyfer Diogelu Iechyd Digidol.
- Wedi sefydlu systemau TG priodol ar gyfer sgrinio canser yr ysgyfaint
- Wedi cwblhau'r broses o fudo ein swyddogaeth ddadansoddol i NDAP/NDR
- Wedi asesu'r newid sydd ei angen ar gyfer trawsnewid ein cymorth digidol ar gyfer Gwasanaethau Sgrinio yn llwyr

<u>2027/28</u>

- Wedi dechrau cyflwyno dull mwy strategol o sgrinio yn amodol ar gyllid LlC
- Yn defnyddio NDR ar gyfer ein holl ddadansoddiadau mawr
- Wedi dechrau cyflwyno gwella iechyd digidol gan gynnwys rheoli pwysau yn amodol ar gyllid LlC

# 4.3 Pobl a Datblygu Sefydliadol

## 4.3.1 Ein Pobl

Mae ein pobl wrth wraidd ein gwaith i leihau anghydraddoldebau iechyd ac i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant pobl Cymru. Mae ein Strategaeth Pobl yn darparu cyfeiriad hirdymor a blaenoriaethau i lywio'r sefydliad, ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio. Ein huchelgais pobl hirdymor yw datblygu gweithlu sy'n ymgysylltu, hyblyg, cynaliadwy, amrywiol a ffyniannus sydd â'r gallu a'r capasiti i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Fel rhan o hyn, rydym wedi ymrwymo i ymgorffori cyfleoedd i ddod â dull gweithredu gwaith teg i'n gwaith fel yr amlinellwyd yn ein canllaw, sef ***'Cyflawni gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch'*** (2022).

Mae ein pobl yn hanfodol i lwyddiant ein huchelgeisiau hirdymor. Mae' cael ein diwylliant yn iawn a'r ffordd rydym yn cyflawni ein haddewidion yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ein diwylliant, ein gwerthoedd a'n hymddygiad. Mae cyflawni yn erbyn ein haddewid pobl yn mynd law yn llaw â gweithredu ein strategaeth.

Mae pob cydweithiwr yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni ein cynllun o'r rhai sy'n gweithio ar reng flaen gwasanaethau heintiau i'r rhai sy'n paratoi gwybodaeth, ymchwil a mewnwelediadau sy'n dylanwadu ar bolisi. Mae ein pobl yn dod â sgiliau, egni, arbenigedd, her a chymorth i fynd i'r afael â heriau mawr. Rydym am ddenu, cadw a datblygu pobl wych, y gallwn eu cynnwys, eu datblygu a'u cydnabod am eu cyfraniad, ac a fydd yn helpu i rymuso eraill gyda'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymddygiad. Bydd gweithlu sy'n ymgysylltu ac yn llawn cymhelliant yn ein galluogi i gyflawni ac yn y pen draw i greu effaith gadarnhaol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru.

## 4.3.2 Heriau a chyfleoedd

Rydym yn parhau i wynebu heriau sy'n effeithio ar y gwaith rydym yn ei wneud ac yn effeithio ar ein pobl, yn ogystal â phoblogaeth ehangach Cymru. Mae ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio, mwy o bobl yn gweithio nes eu bod yn hŷn, heriau economaidd-gymdeithasol, effaith y pandemig, a newid hinsawdd i gyd yn effeithio ar y gweithlu y mae arnom ei angen a'r gweithlu sydd ar gael i ni, nawr ac yn y dyfodol.

Mae angen i ni allu recriwtio a datblygu gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu'n well y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac yn darparu mewnwelediad o anghenion ac ysgogiadau ein holl ddefnyddwyr gwasanaethau. Rhaid i ni harneisio a defnyddio datblygiadau ym maes technoleg, cefnogi ystwythder dysgu a buddsoddi mewn datblygiad parhaus ac ail-sgilio. Rydym yn ymrwymedig i ddod o hyd i'r talent sydd ei angen i gyflawni ein blaenoriaethau strategol a'u datblygu, gan gynnwys sgiliau sy'n dod i'r amlwg o amgylch digidol, data a thechnoleg. Rydym hefyd am ymgorffori ffyrdd o weithio a fydd yn denu ac yn ysbrydoli gweithlu â nifer o genedlaethau i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd, gan werthfawrogi sgiliau a safbwyntiau ei gilydd, a chefnogi anghenion newidiol pobl drwy gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gwaith hyblyg ac ystwyth.

Mae angen i ni gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a gyrfaoedd dwyieithog (wrth i'r galw am wasanaethau Cymraeg gynyddu) ac rydym yn datblygu ac yn cefnogi ein harweinwyr i arwain â thrugaredd, rheoli gweithlu amrywiol ac ymgorffori newid yn effeithiol, gan feithrin perthnasoedd gyda'n partneriaid er mwyn darparu ein gwasanaethau a chryfhau mynediad at gapasiti a thalent.

### 4.3.3 Materion gweithlu allweddol

Mae'n parhau i fod yn heriol recriwtio ar gyfer rhai rolau ac mae rhai sgiliau penodol yn brin iawn, fel radiolegwyr a chlinigwyr y fron; ymgynghorwyr ym maes microbioleg a chlefydau heintus; arbenigwyr diogelu iechyd fel ymgynghorwyr rheoli clefydau trosglwyddadwy; rhai rolau nyrsio arbenigol; rolau ymarferwyr iechyd cyhoeddus; a gwyddonwyr biofeddygol. Yn ogystal â'r proffesiynau allweddol hyn, ac fel llawer o sectorau ar draws y DU, mae'r sefydliad hefyd yn wynebu heriau wrth sicrhau pobl â sgiliau arbenigol fel seiberddiogelwch, dadansoddwyr a biowybodegwyr.

Drwy ein dull gweithredu o ran cynllunio'r gweithlu, byddwn yn parhau i nodi atebion posibl i fynd i'r afael â'r heriau. Gall hyn gynnwys defnyddio ymarfer uwch; ailbroffilio timau; a chyflwyno technoleg newydd.

### 4.3.4 Newid sefydliadol

Mae cefnogi newid sefydliadol yn hanfodol i'n heffeithiolrwydd sefydliadol ac mae'n parhau i fod yn un o'n blaenoriaethau allweddol fel swyddogaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Strategaeth a Chynllunio fel y gallwn gynllunio a chefnogi ein harweinwyr a'n rheolwr pobl i arwain a rheoli newid sefydliadol yn effeithiol.

Gan weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr undeb llafur, rydym wedi datblygu adnoddau i alluogi ein rheolwyr i arwain pobl drwy newid, ac i ddeall a gwella profiad pobl o newid, yn gyson â'n gwerthoedd sefydliadol a Pholisi Newid Sefydliadol GIG Cymru. Yn ogystal, bydd ein Fframwaith Bod ar ein Gorau yn rhan annatod o'r gweithdai Arwain gydag Effaith, a fydd yn cefnogi ac yn atgyfnerthu rheoli newid ymhellach drwy ymddygiad a dull a ddymunir.

Rydym wedi gweithio gyda'r Tîm Gweithredol er mwyn cadarnhau'r egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio i gynllunio ein strwythurau sefydliad sy'n datblygu a fydd yn cefnogi ffurf orau'r sefydliad ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd sefydliadol. Byddwn yn cymhwyso'r meini prawf y cytunwyd arnynt i fentrau newid, gan sicrhau cysondeb â'n gweledigaeth sefydliadol a'n blaenoriaethau strategol.

### 4.3.5 Denu a recriwtio

Wrth gynyddu cronfa o bobl dalentog ac amrywiol a marchnata ein brand cyflogwr i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod gennym dimau drwy gydol y sefydliad lle mae pedair cenhedlaeth wahanol yn gweithio gyda'i gilydd. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod bod ystyriaethau ar draws cenedlaethau a fydd yn ein galluogi i ddenu, cadw a chefnogi cydweithwyr drwy gydol eu gyrfaoedd.

Wrth fynd ati i ehangu mynediad a meithrin amrywiaeth yn ein gweithlu, rydym wedi defnyddio strategaeth amlweddog. Ehangodd cydweithredu â phrifysgolion Cymru ein cronfa ymgeiswyr, gan feithrin llwybrau i'r rhai sy'n gadael yr ysgol, graddedigion ac israddedigion ymuno â ni. Rydym wedi ymgysylltu'n strategol mewn ffeiriau swyddi, yn enwedig mewn Gwasanaethau Microbioleg/Heintiau, gan gysylltu ag ymgeiswyr posibl a dangos cyfleoedd ar draws ein sefydliad. At hynny, rydym wedi gweithredu dangosfyrddau ar gyfer mewnwelediadau cadw ac rydym yn parhau i ddatblygu hyfforddiant recriwtio, asesu a dethol sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant.

Mae'r ymdrechion cyfunol hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i recriwtio, amrywiaeth, cynhwysiant, a chynllunio'r gweithlu. Mae pob menter yn ein helpu i feithrin diwylliant gweithle bywiog, amrywiol, a chynhwysol sy'n adlewyrchu'r uchelgais a osodwyd yn ein Strategaeth Pobl.

## 4.3.6 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn parhau i gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae ein Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff yn parhau i dyfu ac yn chwarae rhan gynyddol arwyddocaol wrth lywio ein syniadau. Yn 2024, gwnaethom gyflawni lefel cyrhaeddiad aur gyda rhagoriaeth – y lefel gyrhaeddiad uchaf yng Nghynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol 2024 Diverse Cymru, a oedd yn gyflawniad arwyddocaol ac yn dangos y cynnydd mawr a'r gwelliannau parhaus sy'n cael eu gwneud. Roeddem hefyd yn y 31ain safle ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, yn ogystal â'r 4ydd Cyflogwr mwyaf Cynhwysol o ran LHDTC+ yng Nghymru.

## 4.3.7 Diwylliant ysbrydoledig ac arweinyddiaeth drugarog

Mae datblygu ein diwylliant yn elfen hanfodol o'n Strategaeth Pobl ac, fel y cyfryw, cafodd ei droi'n ymrwymiadau ein Cynllun Strategol. Er mwyn datblygu ein diwylliant, rydym wedi cynnal asesiad o'i gyflwr presennol ac yn y dyfodol, fel y nodwyd gan ein gweithlu.

Mae ein hasesiad diwylliannol wedi ein helpu i ddeall sut y ceir profiad o'n diwylliant presennol a sut beth yw'r diwylliant delfrydol, wrth i ni weithio er mwyn cyflawni ein strategaeth. Mae ymdrechion bellach yn canolbwyntio ar ymyriadau i gau'r bwlch, gan ein galluogi i gryfhau ein sefyllfa ynghylch bod yn lle gwych i weithio. Rydym wedi datblygu tair carfan o Eiriolwyr Diwylliannol i gefnogi ein gwaith newid diwylliant, ac rydym yn gweithio i sefydlu ffyrdd o fesur cynnydd.

Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'n cynllun peilot Academi Arweinyddiaeth a Rheoli rydym wedi comisiynu darparwr i gyflawni'r Rhaglen Academi Arweinyddiaeth a Rheoli i garfannau lluosog o arweinwyr-ddysgwyr dros y tair blynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn yn gam sylweddol i ddatblygu ein diwylliant drwy ddatblygu ein harweinwyr a'n rheolwyr drwy'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth a rheoli ffurfiol hon. Nod yr Academi yw grymuso rheolwyr llinell i greu amgylcheddau lle gall pobl ffynnu. Drwy gysylltu ag arweinwyr sy'n ymgysylltu, optimistaidd, a myfyriol, bydd cyfranogwyr yn profi gweithgareddau difyr sy'n ysgogi'r meddwl. Bydd yr Academi yn darparu lle diogel, cefnogol i brofi ffyrdd newydd o weithio a chyfrannu at newid cadarnhaol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Serch hynny, rydym yn cydnabod yr angen am fwy na dysgu strwythuredig yn unig ac mae ein dymuniad i gefnogi'r model dysgu 70/20/10 wedi llunio dechrau ein dull systematig o arweinyddiaeth a rheoli. Gyda'n Fframwaith Arweinyddiaeth a Rheoli wrth ei wraidd, mae hyn yn nodi sut y bydd ein harweinwyr a'n rheolwyr yn gweithio ac yn ymddwyn, gan greu diwylliant ac amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu a chyflawni.

Yn cyd-fynd â'n carreg filltir cynllun, bydd ein fframwaith yn cysylltu'r daith ddatblygu gyfan ar gyfer ein cydweithwyr, rheolwyr pobl ac arweinwyr sefydliadol wrth iddynt lywio'r cylch oes staff, ac yn sail i raglenni datblygu a mentrau wedi'u cynnal, parhaus ac ystyrlon sy'n rhannu'r un neges gyson am sut rydym yn arwain ac yn rheoli fel unigolion ac fel sefydliad.

### 4.3.8 Proffil y gweithlu

Ar 28 Chwefror 2025, cyfanswm ein gweithlu oedd 2,232 o bobl, sy'n cyfateb i 1,974.66 o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn. Mae 74% o'n gweithlu yn fenywod; mae 31% o'n gweithlu'n gweithio'n rhan-amser ac mae 28% o'n gweithlu dros 50 oed.

Rhennir ein gweithlu ar draws wyth maes gwahanol fel yr amlinellir isod:

| Cyfarwyddiaeth | Nifer y staff | FTE |
|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol a Bwrdd | 28 | 24.03 |
| Y Gyfarwyddiaeth Data, Ymchwil a Digidol | 154 | 141.82 |
| Cyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant | 175 | 154.54 |
| Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio | 1,553 | 1,365.15 |
| Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau a Chyllid | 118 | 113.88 |
| Cyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol | 54 | 47.59 |
| Y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol | 90 | 76.95 |
| Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig | 60 | 50.70 |
| Cyfanswm | 2,232 | 1,974.66 |

## 4.4 Rheoli Risg

### 4.4.1 Risg strategol

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein mapiau llwybr strategol a'n Cynllun Strategol ar gyfer 2025-28, rydym wedi adolygu ac adnewyddu ein risgiau strategol. Ar gyfer pob un, byddwn yn nodi ein parodrwydd i dderbyn risg a rheoli a monitro yn unol â'n trefniadau llywodraethu mewnol.  Roedd y broses adnewyddu yn cynnwys sganio'r gorwel i nodi themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Cafodd hyn ei lywio gan ein risgiau strategol presennol yn Chwarter 4 2024-25, mapiau llwybr blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ac ysgogwyr allanol allweddol.

Dyma ein risgiau strategol ar gyfer 2025/26:

<table>
<tr><th>Disgrifydd Risg</th></tr>
<tr><td>SRR1 - Mae risg:  Ein bod yn methu cyflawni ein rôl i ddylanwadu ar newid system i atal, lleihau anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd.<br><br>Achosir gan:<br>• Adnoddau arbennig, galluoedd a rhaglenni Iechyd Cyhoeddus Cymru nad ydynt yn cyd-fynd yn dda â'n strategaeth hirdymor<br>• Methu cynhyrchu'r ansawdd tystiolaeth a'r data ategol i lunio ein dylanwadu a'n cyflawni<br>• Cyngor, tystiolaeth a gweithredu iechyd cyhoeddus annigonol/aneffeithiol o fewn ein cylch gwaith<br>• Ymgysylltu a chyfathrebu aneffeithiol â phartneriaid, y cyhoedd a llunwyr polisi<br>• Arweinyddiaeth systemau a chydlynu annigonol â rhanddeiliaid a phartneriaid<br>• Rhaglenni nad ydynt yn cefnogi ein poblogaeth i gyflawni bywydau iachach<br><br>Gan arwain at:<br><br>Rydym yn methu cael yr effaith ofynnol i wrthdroi disgwyliad oes iach sy'n gwaethygu ymhlith poblogaeth Cymru. Mae Cymru yn methu cau bylchau sy'n ehangu o ran canlyniadau iechyd rhwng ein poblogaethau â'r amddifadedd mwyaf a'r amddifadedd lleiaf.</td></tr>
<tr><td>SRR2 - Mae risg: Ein bod yn methu cyflawni ein cyfraniad at wasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol ar gyfer sgrinio iechyd y boblogaeth, heintiau, diogelu iechyd ac ymateb i argyfwng.<br><br>Achosir gan:<br>• Wendid mewn llywodraethu clinigol, systemau a phrosesau clinigol, gweinyddol a digidol, cynllunio gwasanaethau a chyflawni gweithredol.<br>• Anallu i gynnal capasiti a gallu'r gweithlu arbenigol.<br>• Absenoldeb arloesedd a gwella ansawdd parhaus.<br>• Gormodiant mewn gweithgareddau heb eu cynllunio sy'n deillio o fygythiadau acíwt annisgwyl i iechyd.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Gan arwain at: Gwasanaethau o ansawdd gwael ac anniogel, canlyniadau iechyd poblogaeth is-optimaidd ar gyfer sgrinio'r boblogaeth a bygythiadau iechyd, a thorri dyletswyddau cyfreithiol ar Argyfyngau Sifil a'r Ddyletswydd Ansawdd. |
| SRR3 - Mae risg: ein bod yn methu lliniaru effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus poblogaeth Cymru<br>Achosir gan:<br>• Fethu nodi a monitro bygythiadau newid hinsawdd i iechyd<br>• Methu llywio camau gweithredu sefydliadau partner a llunwyr polisi yn effeithiol fel bod iechyd yn cael ei ystyried fel rhan o'u camau gweithredu hinsawdd<br>• Methu ymgysylltu'n effeithiol â'n poblogaeth, sefydliadau partner a llunwyr polisi<br>• Methu blaenoriaethu adnoddau i gamau gweithredu sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i iechyd ein poblogaeth<br>• Arweinyddiaeth annigonol yng Nghymru i gyflawni ymateb system cydgysylltiedig a chyson i newid hinsawdd.<br>• Methu cymryd camau gweithredu cydgysylltiedig gyda sefydliadau partner ar draws 4 Gwlad y DU ac eirioli dros bolisïau hinsawdd y DU sy'n diogelu ac yn hybu iechyd<br>Gan arwain at: Fethu atal niwed i iechyd ein poblogaeth o ganlyniad i newid hinsawdd, gan arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth ac ehangu anghydraddoldebau iechyd. |
| SRR4 - Mae risg: Gallai'r sefydliad brofi iechyd sefydliadol gwael.<br>Achosir gan:<br>• Fethu datblygu ein pobl<br>• Arweinyddiaeth sefydliadol aneffeithiol<br>• Llywodraethu gwael, diffyg cynllunio gweithlu strategol i gyflawni gallu a chapasiti gofynnol ein pobl<br>• Diffyg gweledigaeth glir a chyson o'n diwylliant sefydliadol cynhwysol<br>• Gallu a chymhlethdod mewn perthynas â rhaglenni newid sylweddol i fodloni eitemau cyflawnadwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.<br>Gan arwain at: ddiwylliant sefydliadol gwael heb allu a chapasiti digonol i berfformio a chyflawni. |
| SRR5 - Mae risg: ein bod yn methu manteisio ar ddigidol a data i wella iechyd cyhoeddus yng Nghymru.<br>Achosir gan:<br>• ddibyniaethau ar bartneriaid eraill ar gyfer darparu systemau a darparu mynediad i'r data sydd eu hangen arnom.<br>• capasiti a gallu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid allanol.<br>• diffyg llythrennedd digidol a data yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei gyfanrwydd |

| |
|---|
| **Gan arwain at:** ganlyniadau iechyd gwaeth i boblogaeth Cymru. |
| **SRR6 - Mae risg:** bod y sefydliad yn dioddef colli gwybodaeth sensitif a/neu darfu ar wasanaethau.<br>**Achosir gan:**<br>• Ddigwyddiadau seiber<br>• ffactorau allanol eraill<br>• gwendidau mewn systemau a phrosesau<br>• gweithio mewn seilos a diffyg goruchwyliaeth strategol o allbynnau data<br>• methu dilyn prosesau neu weithdrefnau i gynnal cywirdeb ein data a'n systemau<br>**Gan arwain at**: Ganlyniadau Iechyd Cyhoeddus Gwaeth, tarfu ar wasanaethau a cholli ymddiriedaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. |

### 4.4.2 Rheoli risg

Mae'r sefydliad yn parhau i wynebu risgiau sy'n codi o effaith gronnol pandemig Covid-19, baich clefyd, anghydraddoldebau a'r argyfwng costau byw, yn ogystal â risgiau eraill sy'n fwy penodol i weithrediadau'r sefydliad. Mae'n bwysig bod ein trefniadau ar gyfer rheoli risg yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu a darparu'r saernïaeth, y cymorth a'r gallu i nodi a rheoli risg yn effeithiol. Bydd cyflawni'r cerrig milltir yn y Cynllun Datblygu Rheoli Risg cymeradwy yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed ar drefniadau rheoli risg strategol a gweithredol, gan weithio tuag at system rheoli risg sy'n gyson â'r Safon Ryngwladol ar gyfer Rheoli Risgiau, sef ISO 31000.

Mae risgiau strategol a chorfforaethol yn rhan bwysig a rheolaidd o agendâu Bwrdd, Pwyllgorau, Tîm Gweithredol Busnes a Thîm Arwain Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, mae offerynnau risg sefydliadol a phrosesau uwchgyfeirio wedi'u diwygio, gan ein symud tuag at reolaeth fwy cadarn o risg ar draws pob lefel o'r sefydliad. Wrth i'r amgylchedd rheoli risg barhau i aeddfedu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, bydd y data hyn yn cefnogi strwythurau llywodraethu a chael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau cadarn a sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n cyflwyno'r risgiau mwyaf arwyddocaol.

## 4.5 Y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Yn 2024, cymeradwyodd y Bwrdd ein Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, sy'n disgrifio'r swyddogaethau, y galluogwyr, y fframwaith sicrwydd, y system llywodraethu integredig, a'r canllawiau gweithredu sydd ar waith i gefnogi llywodraethiant da yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n crynhoi sut y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu ac yn cynnal llywodraethu corfforaethol da er mwyn sicrhau y cyflawnir ei amcanion strategol a amlinellwyd yn ein strategaeth i wella iechyd y boblogaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, wrth ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus diogel ac effeithiol sydd o ansawdd uchel. Yn y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau ystod amrywiol o gefndiroedd, sgiliau, a phrofiadau i ychwanegu gwerth at drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.

Yn 2024/25, gwnaethom benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru i barhau i ddatblygu ein dull strategol o ran yr agenda hon a dod â'u cyfraniad unigryw i weledigaeth a gweithredu ein Strategaeth.

Gan fod ein Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yn ddogfen fyw, bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd, gan fapio ein prosesau sicrwydd, tynnu sylw at ein hamcanion strategol, yn ogystal â'n Risgiau Strategol yn erbyn yr amcanion hynny. Mae'r canlynol ymhlith y meysydd gwella arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Cyfleoedd ar gyfer gwaith ar draws pwyllgorau
- Cyflwyno Cynllun Peilot cychwynnol y
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar sicrwydd i ddatblygu adrodd a sicrwydd ar draws pob Pwyllgor
- Proses adolygu gan gymheiriaid
- Adroddiad blynyddol ar y rolau Hyrwyddwr Bwrdd

## 4.6 Parodrwydd am argyfwng, gwydnwch ac ymateb

Fel un o ymatebwyr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl [2004], mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal a datblygu cynlluniau i sicrhau, os bydd argyfwng yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, y gall y sefydliad gyflawni ei swyddogaethau i'r graddau sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol at ddiben atal yr argyfwng, lleihau, rheoli neu liniaru ei effeithiau, neu gymryd camau eraill mewn cysylltiad ag ef.

Yn fras, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth parodrwydd am argyfwng, gwydnwch ac ymateb, a chyngor gwyddonol a thechnegol ar bob lefel sefydliadol, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddiogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Wedi'i oruchwylio gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol; mae'r swyddogaeth Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR) (sy'n ymgorffori parhad busnes) yn gyfrifol am gydlynu a chyflawni gweithgarwch gwydnwch sefydliadol.

Ers mis Mehefin 2022, bu newid sylweddol o ran disgwyliad sefydliadol o'r swyddogaeth EPRR yn ogystal â chyflawni ei swyddogaethau statudol o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl [2004] gan gynnwys:

- Cefnogi parodrwydd sefydliadol parhaus ar gyfer Ymchwiliad Covid-19; ac am weithredu argymhellion sy'n gysylltiedig ag EPRR.
- Ymateb i bwysau system sylweddol o weithredu diwydiannol y GIG, pryderon ynni a'r argyfwng costau byw sy'n ei gwneud yn ofynnol i EPRR arwain, cydlynu a chynghori ar sawl achos o barhad busnes â ffocws a gweithgarwch parodrwydd am argyfwng.
- Cefnogi arweinyddiaeth systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer risgiau/argyfyngau iechyd cyhoeddus gan gynnwys clefydau trosglwyddadwy, brigiadau o achosion mewn carchardai (fel y frech goch), camddefnyddio

sylweddau; a hefyd, parhad busnes a materion cydgymorth sy'n gysylltiedig ag ailddychwelyd/ailsefydlu teuluoedd/unigolion sydd wedi cefnogi Lluoedd y DU dramor.

- Gweithredu gwasanaeth ar alw EPRR newydd 24/7 sy'n lliniaru newidiadau i brosesau rhybuddio partneriaid.
- Archwilio cyfleoedd i greu incwm ar gyfer hyfforddi ac ymarfer.
- Cynorthwyo yn yr Adolygiad Strategol o'r Fframwaith Cyffredin Diogelu Iechyd Cyhoeddus a Diogelwch Iechyd (a'r rhaglen) gyda Phwyllgor Diogelu Iechyd y DU.
- Arwain ffrwd waith EPRR y 4 Gwlad fel rhan o raglen waith y pwyllgor diogelu iechyd.
- Pennu cwmpas gwaith ar adeiladu gwydnwch cymunedol mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd.

## 4.7 Ansawdd a gwella sefydliadol

Rydym yn anelu at fod yn esiampl o ran ansawdd a'n nod yw darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi datblygu ein dull o ran ansawdd a gwelliant parhaus gan ddefnyddio System Rheoli Ansawdd i ddisgrifio cynllun sefydliadol yn effeithiol a chymryd rhan mewn trawsnewid system a gwella ansawdd parhaus.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu'r System Rheoli Ansawdd hon sydd wedi'i chynllunio ar gyfer canlyniadau rhagorol a'i ysgogi gan anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu. Mae hyn yn ei dro yn galluogi diwylliant ac amgylchedd dysgu o ansawdd sy'n cefnogi ein staff ac yn darparu lle gwych i staff weithio a ffynnu. Mae'r dull hwn yn cefnogi cyflawniad ein strategaeth a'n blaenoriaethau strategol, a'n huchelgais am y diwylliant yr ydym ei eisiau fel sefydliad.

Mae mynd ar drywydd dull ledled y sefydliad o reoli ar gyfer ansawdd yn ein galluogi i weithredu Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020). Mae hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio'n fwy clir ar anghenion y system a diben y sefydliad. Yn dilyn cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda'n staff a'n rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y ddwy ddyletswydd, gyda'r nod yn y pen draw o ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol.

### 4.7.1 Y Ddyletswydd Ansawdd

Mae'r Ddeddf yn ailfframio ac yn ehangu'r Ddyletswydd Ansawdd bresennol ar gyrff y GIG i sicrhau y gwneir yr holl benderfyniadau strategol drwy lens gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau i'r boblogaeth.

Mae'n ofynnol i sefydliadau arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried sut y byddant yn gwella ansawdd a chanlyniadau'n barhaus ac yn mynd ati i fonitro ac adrodd cynnydd ar wella gwasanaethau ansawdd a chanlyniadau a rhannu'r wybodaeth hon yn rheolaidd â'u poblogaeth. Fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar

ansawdd, rydym yn achub ar bob cyfle i sicrhau dull gweithredu ar draws y system o ran ansawdd drwy'r holl benderfyniadau rydym yn eu gwneud a phopeth rydym yn ei weithredu. Mae hyn, ar y cyd â'r Ganolfan Gwella ac Arloesi, yn cefnogi gwaith ar flaenoriaethau gwella ac arloesi a nodwyd ar lefel strategol, cyfarwyddiaeth a thîm.

### 4.7.2 Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn fecanwaith sy'n adeiladu ar ddiwylliant o fod yn agored a gonestrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n ysgogiad ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'n cael ei chymhwyso ar y cyd â'r Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r Ddyletswydd yn cael ei sbarduno pan fydd y canlynol yn digwydd:

- Mae defnyddiwr gwasanaethau y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu iddo, neu wedi cael ei ddarparu iddo, wedi dioddef canlyniad andwyol; ac
- Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu o bosibl yn ffactor, i'r defnyddiwr gwasanaethau ddioddef y canlyniad hwnnw.

Mae defnyddiwr gwasanaethau i'w drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os cafodd y defnyddiwr unrhyw niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy nag ychydig o niwed, neu os yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai hynny ddigwydd.

Byddwn yn achub ar bob cyfle i wrando a dysgu, yn ogystal ag adolygu pob digwyddiad sy'n sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, er mwyn deall yr hyn a ddigwyddodd, gan nodi meysydd ar gyfer gwella a dysgu (gan ystyried barn y person yr effeithir arno). Fel sefydliad trugarog a gofalgar, byddwn hefyd yn ystyried y cymorth sydd ar gael i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys y rhai a ddefnyddiodd ein gwasanaethau a'r rhai sy'n eu darparu.

Er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd ymhellach, mae a Fframwaith Llywodraethu Clinigol wedi cael ei ddatblygu ac mae bellach yn cael ei weithredu. Mae Grŵp Goruchwylio Ansawdd gweithredol wedi'i sefydlu, ac ynghyd â'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol, bydd yn diogelu ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau.

## 4.8 Perfformiad a Chyflawni

### 4.8.1 Mesur ein heffaith

Yn 2025, gwnaethom greu mapiau llwybr ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau strategol. Mae'r mapiau llwybr hyn yn amlinellu'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf i gyflawni ein huchelgeisiau 2035. Byddwn yn monitro ein cynnydd a gweithredu Ein Cynllun Strategol drwy ein system fesur. Bydd y system hon yn sicrhau bod y canlyniadau a bennwyd gennym ar gyfer pob blaenoriaeth strategol yn cyd-fynd â'n dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u diweddaru. Yn ogystal, ein nod yw blaenoriaethu'r gwaith o werthuso elfennau allweddol ein cynllun. Bydd y llinell olwg glir hon o'r cyfeiriad strategol i gyflawni yn

ein galluogi i fesur ein heffaith a'n gwerth i bobl Cymru a'r system iechyd cyhoeddus ehangach.

Byddwn yn asesu ac yn adrodd yn rheolaidd yn erbyn ein system fesur i'n helpu i ddeall iechyd cyffredinol pobl Cymru ac i ddeall yr effaith yr ydym yn ei chael drwy gyflawni ein cynllun. Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei adrodd i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn fisol drwy ein Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd a'n Hadroddiad Mewnwelediadau. Bydd hyn yn cynnwys y graddau ar gyfer pob carreg filltir ac adroddiadau eithrio ar gyfer y rhai lle y mae materion wedi'u nodi. Bydd proses reoli'n cael ei defnyddio ar gyfer rheoli newidiadau, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni cerrig milltir. Bydd sicrwydd parhaus, gan gynnwys mewn perthynas â'n gweithgareddau busnes fel arfer craidd, hefyd yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru drwy ein cyfarfodydd adolygu atebolrwydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig a chyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol.

Bydd ein portffolio newid strategol yn cael ei reoli yn unol â safonau cydnabyddedig ar gyfer cyflwyno a llywodraethu rhaglenni. Byddwn yn monitro iechyd portffolio cyffredinol sy'n canolbwyntio ar wireddu buddion ac ymateb i unrhyw newidiadau allanol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli newid a blaenoriaethu yn ystod y flwyddyn, lle y bo angen.

## 4.9 Sylwadau i Gloi

Bydd ein huchelgais cyffredinol i gynyddu disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch rhwng y rhai â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf yn gweithredu fel ein golau tywys wrth i ni gyflawni'r cynllun hwn. Rydym wedi pennu ein Huchelgais i adfer disgwyliad oes iach i'r lefel yr oedd yn 2019 ar gyfer dynion a menywod yn sgil y data a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n dangos bod disgwyliad oes iach yn gostwng yng Nghymru.

Mae ein mapiau llwybr blaenoriaeth strategol yn dangos i ni y llwybr sydd angen i ni ei gymryd dros y blynyddoedd nesaf er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Rydym wedi defnyddio dysgu rhyngwladol, atebion arloesol a'r enghreifftiau gorau o bob rhan o Gymru. Mae hyn wedi llunio ac ysgogi ein ffocws ar sut y gallwn ddarparu'r gwerth mwyaf posibl i bobl Cymru a'n partneriaid. Rydym yn gwybod na fydd gwireddu'r gwelliannau hyn yn hawdd a bydd angen i ni weithio'n wahanol. Byddwn yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol a byddwn yn dangos ymrwymiad nid yn unig i gydweithredu ond i wrando – ar ein staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Byddwn yn croesawu adborth, dysgu ac yn nodi cyfleoedd i wella.

Rydym yn cydnabod na allwn lwyddo ar ein pen ein hunain na pharhau i fabwysiadu dulliau traddodiadol ar gyfer y materion dyrys a wynebwn. Mae'r cynllun hwn yn nodi nid yn unig yr hyn y byddwn yn ei wneud ond sut y byddwn yn ei wneud drwy fabwysiadu dulliau newydd ac arloesol. Byddwn yn harneisio potensial elfennau arloesol o fewn digidol a data, yn enwedig mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial, wrth gynnal gofal priodol a chanolbwyntio ar ansawdd a diogelwch. Byddwn yn ceisio creu partneriaethau a pherthnasoedd dwy ffordd, yn enwedig gyda meysydd fel y trydydd sector a chyda'r cyhoedd. Bydd y rhain yn cymryd amser i'w datblygu ond rydym wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaethau cryf a hirhoedlog.

Bydd ein staff amlddisgyblaethol yn sail i'n llwyddiant a thrwy eu harweinyddiaeth, eu hymroddiad a'u hegni byddwn yn adeiladu ar gynnydd hyd yma ac yn parhau i ateb yr heriau, a manteisio ar y cyfleoedd, y byddwn yn eu hwynebu yn y blynyddoedd i ddod. Bydd ein Strategaeth Pobl wedi'i hadnewyddu yn disgrifio sut y byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ein staff dros y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn cryfhau ein sgiliau a'n proffesiynau a datblygu sgiliau arbenigol, fel: gwyddor ymddygiad, ymchwil a gwerthuso, digidol a data, cyfathrebu, gwella, cyllid a chynllunio.

Er bod ein cynlluniau a'n strategaethau yn gosod ein llwybr, rydym yn gwybod na fydd y llwybr yn llinol. Rydym yn cydnabod ein bod yn cyflwyno cynllun strategol uchelgeisiol mewn amgylchedd anwadal a newidiol. Felly mae angen i ni ddangos gallu i ymateb yn ddynamig i fygythiadau a chyfleoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ailflaenoriaethu lle bo angen. Felly, mae ein cynllun yn destun newid yn sgil ymateb i unrhyw faterion newydd neu faterion sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn defnyddio ein system fesur i ddeall ein heffaith ac, yn flynyddol, yn adolygu ein cynnydd yn strategol ac yn adnewyddu ein cynlluniau yn unol â hynny.